[illegible]reidd teyrneidd taer ym mrwydrin
[illegible]rawl ei fflamdo am fro freiddin
[illegible] pan oreu Duw dyn gyffefin
[illegible] wnaeth ei gyftal traws arial trin
[illegible]ug Llywelyn orllin—teyrnedd
Ar y brenhinedd braw a gorddin
[illegible] fu'n ymbrofi a brenhin Lloegr
Yn llygru fwydd erbin
[illegible]ld breiig weifg ei fyddin
[illegible]a brwyfg rwyfg rhac y godorin
[illegible]dd balch gwalch golchiad ei lain
[illegible]d beilch gweilch gweled ei werin
[illegible]d elywed cleddyfau finfin
[illegible]d clybod clwyf ym mhob elin
[illegible] briw rhiw yn nhrabludd oi drin

Oedd braw faw faefon clawdd y Cnwckin
Oedd bwlch llafn yn llaw gynnefin
Oedd gwaedlyd pennau gwedy gwaedlin
Rhyw—yn rhedeg am ddeulin
Llywelyn ein llyw cyffredin
Llywiawdr berth hyd borth yfgewin
Ny ryfu gyftal Gwftennin ac ef
I gyfeir pob gorllin
Mi i'm byw be byddwn dewin
Ym marddair mawrddawn gyffefin
Adrawdd ei ddaed aerdrin ni allwn
Ni allai Dalieffin
Cyn adaw y byd gyd gyfrin
Gan hoedl hir ar dir daierin
Cyn dyfynfedd yfgyrnwedd yfgrin
Yn daer dyfnlas ar leffin
Gwr a wnaeth or dwfr y gwin
Gan fodd Duw a diwedd gwirin
Nog a wnaethbwyd treis anwyd trin
Ym mhrefent ym mhryffur orllin
Ni warthaer hael am werthefin nos
A nawdd faint boed cyfrin

TERFYN.

Digitized by Google

I LYWELYN.

Hanbych well o Dduw o eddewy
Eddewid ddilid a ddeley
Hanbwyf o honawd am wawd wedy
Hanbwyll dygymmwyll a gymery
Llyw Prydain prydydd ath ddeffry
Llywelyn llwyddid yt hynny
Mawr ith orug Duw dad Arglwydd fry
Myfyr yw mae mwyfwy fyddy
Dy faint herwydd braint ti a brofy
Dy fantawl nid hawl nid hawdd hynny
Dy far ys anwar y goffody
Dy uer a gwyner fal y gweny
Dy fudd ni oludd er a wely
Dy fedd ath refedd a ddoeth renny
Difuddiawg farchawg feirch yftry
Dy faddeu nid teu teg y rhoddi
Dy feddiant nid chwant a chwennychy
Dy feddwl nid cwl canys cely
Dy fod falch y rod ry feddyly
Dy fod herwydd clod mal y clywy
Dy fyddedd cyhoedd ti ai cely [1]
Dy fryd wrth dy fryd frenhin Cymry
Erwan yw ynni o mynny
Aerwalch balch balchu fyngwely
Arwar udd Keffar a'm ceiffy am bwyth
Ys da beth ym ceffy
Traul caeroedd ciriega ymy
Trefad fy hendad ai hundy
Trais arnaf fy naf ni edy
Tros y gerdd a ganwyf cytty
Y mawr udd rhwyddfawr om rhoddy
Nid mwy no deg erw os a ddygy
Cymer a fynnych Cymry bendefig
Arbennig wledig i wladychy
Difanw fon faefon fef a gery
Difwyniant fyddaf o'm difenwy
Na dilyffa fi y felly fy naf
Nid ef yt leffaf o'm dilyffy
A ganwyf dy geiniaid ai cny
A genais a genir wedy
Aerddryd tud or tu pan geffy
Erddrwg ys teilwg os tely
Yftyria wrthyf wrth om colly
Yftawd fy nullwawd nam hennilly
Yftyriws dews dawn ytty er gaint
Yftyr faint dy fraint frenhin Cymry
Can gwnaf dy foliant fal y heddy
O gwnai iawn om dawn nim diawy
O wythlonder ner nerth a gedwy
O eithaf pob caer taer y torry
Neu ry orwyd hael ydd hwyly
Ni ryorug Duw dyn fal tydy
A ddaroganer a gymmery
O bob darogan dawn a geffy
A ddarogenais a gymmyddy
A ddaroganwyf a gynhely
Wyt ddaroganwr gan a wely

Terfyn.

[1] *Neu*, coely.

Digitized by Google

AWDL I DDUW AC I LYWELYN FAB IORWERTH.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

Mab Duw dylyaf dy bwyllaw
Mawr gwerthfawr gwerthyf gwrandaw
Mor iawn yw ydawn am daw ygennyd
Mwynair o'm plegyd heb plyg arnaw
Mur modur llywiawdur rhag llaw ymae
I'm meddwl dy geifiaw
Mor ddiriaid i ddyn eiddunaw oi gnawd
Er dyghawd bechawd na'i rybychaw
Mor deg y gelly di gall arwyddaw
Merwerydd echwydd ac ucherddaw
Mawrfryd gan ddyn byd er bod iddaw
Dda—na mawrair drahanid rhaid wrthaw
Mab Duw ai dyrydd yn eiddaw
A mab Duw ai dwg y ganthaw
A mab Duw ddyddbrawd a ddaw iw brofi
Beth fo ei ynni am ei anaw
Ni bydd a mab Duw diamadaw
Afo mynws byd yn ei bydiaw
Mab Duw dewifeis dewiffaw a wnaf
Ef dewifaf naf nawdd y ganthaw
Diddeſtl oedd eu lle llu wrth fylliaw
Dydd y cymmerth Criſt grog yn eiddaw
Yngwaelawd uffern affleu fraw einioes
Ydd oedd bedeiroes yn ymdaraw
A llu o bryfed yn eu briwaw
A llid llid bòethfan dân yn eu deifiaw
A llys afraid gwrys na gwryfiaw oi plaid
A lliaws enaid yn direidiaw
A llwyr dywyllwg wrth odrigaw
A lleng gythreuliaid yn ei threiliaw
A llawer bwyſti heb yſtyriaw ced
A llawer ſyched trwydded trwyddaw
A lluoedd poblocdd pawb yn athaw
A llewod a rhod yn eu rhwydaw
A lle ydd oedd druan drwy adaw Cain
I werin wirin ei warandaw

Pan ddyfu y mab rhad oedd raid wrthaw
Er porth yn danmorth a dawn arnaw
I Uffern bydwern heb adaw ychwaith
Yn un boregwaith iw hanrheithiaw
Achos punioes byd ybu iddaw
Uchelwr mirain bêr drain drwyddaw
Ucheldad fab rhad rhac rhwydaw ei hawl
Gwae ni fo deddfawl y dydd a ddaw
Mihangel pan dèl i dalu droſtaw
Yn erbyn cythraul cythrudd ſyniaw
Ac ymliw ac ef am ryluniaw gau
Ac angeu dieu dyfod iddaw
Pam na char mab dyn Duw ai geifiaw
Pam na chynnyc ef nef yn eiddaw
O dda ni wyrtha wrthaw ny aned
Y gwr gogoned gweled gwyliaw
Gwr ni gaffad namyn dim arnaw
Gwr ni cheffir ffordd i ffo rhagddaw
Gwedi y gwr uchod uchaf llaw dian
Ar ell gwr goreu meu ymadaw
Llywelyn urddyn urddas iddaw
Llew gwaywdwn yſgwn yſgwyd gydiaw[1]
Gnawd fod cyfranc rhwydd rhagddaw
pan brofed
Ai glywed ar lled hyd yn llydaw
Gnawd fod ongar gwyr wedy gwyraw[2]
A chledd gwawr Gwynedd a gwaed arnaw
Gnawd uthr fod rhuthr yrhyngthaw ai
Eſgar—a gnawd fod gwyar o'r ymdaraw
Gnawd yw o'i elyn hylithr wylaw
A gnawd fod tafawd diwyd iddaw
Gnawd yſgafael hael yn hwyliaw oi du
Rhac ei llu i Loegr andaw

1 Geidiaw. Ll. C.
2 Gwywaw. Ll. C.

Digitized by Google

Gnawd Ffrangc rhag ffwyrdrangc a ffo
Arnaw— a pheleidr rheleidr wedi rhudaw
Gnawd Sais nis cwynais yn cwynaw oi ben
A gnawd o dduch Tren trin ymwriaw
Gnawd cleddyf gilyd yn ymgiliaw
Cuall ac arall yn ymguraw
Ac ar llwyth ofwydd gnawd lleithiaw
Cigfrain—a chaer dew firain yn difuriaw
Gnawd gwayw ae arwydd gwedy gwyraw
A gwr yn gorfod a chlod iddaw
Gnawd feithgad o cinglyn fyrthiaw ergyr
Ac eryr rhyfwyr heb eu rhufiaw

Gnawd fod yfgwyd frwyd friwdoll arnaw
Ac unbyn dengyn dengwlad iddaw
A digawn o ddawn i eiddunaw rhen
A dygen llawen yn eu llywiaw
Llywelyn neud llew cywaethlaw
Llyw anaw llawenydd dreuliaw
Yftyriawl ei hawl i hwyliaw yngryd
Ys digrif i'r byd bod y danaw
Yftyriws dews y dawn iddaw
Yftyried tad llwyrged rhagllaw
Dyn yn fyw ni fedd i dreifiaw Duw fry
Am freuhin Aberffraw

MARWNAD I LYWELYN FAB IORWERTH.

DAFYDYD BENFRAS AI CANT.

Mev foli Crift ecli culwydd
Mawr foliant didrawd didramgwydd
Maith i'm gwnaeth alaeth ac arwydd
Arnaf—mi rydynnaf dan ei aflwydd
Mor draws fu Iefu am aes digwydd
Mor dreifiwr hagen am ren rhadlwydd
Mor drift yw ein byw bod glafwydd derfyn
Ar rudd Llywelyn llaw gyfanrwydd
Mawrbeir cynniweir cynnif hylwydd
Mawr benn Cymru wenn ai chymmhenrhwydd
Mawr barch gogyfarch gogyfrwydd or hyd
Mae yfbyd y byd yn enbydrwydd
Cam y gorug Duw o dybygrwydd
Cyn bu drwch na bu drwchanmlwydd
Cymyrres angeu an ingrwydd attaw
A dygynt o'i law liawfogrwydd
Llywelyn haclddyn hwylddawn awydd
Llywiawdr gwynfydig gwledig gwladlwydd

Lladdawdd Duw arnam am ddwyn lleurwydd frwyd
Llawn rywydd yfgwyd ar ei yfgwydd
Llywelyn aer llyw taer am y teirfwydd
Llwyddai a llithrai o'i helaethrwydd
Lleigiad fryd yn rhyd yn rhodwydd ongyr
Och awyr am wyr diwaradwydd
Och fawr a fwrir o ddirfyngrwydd
Och faith heb ychwaith o'i obeithrwydd
Och am naf am nêr diwydrwydd
Och am nêr muner mynogrwydd
Och ddygyn a ddognes goleurwydd
Och de am ddewrddrud ehangrwydd
Och nos o arhos yr arwydd
Och ddydd a ddoddyw o'i dramgwydd
Och Ddofydd ddifa gwreiddrwydd
Och Dduw o ddytod i'n arglwydd
Wedi achadw cad fragad friwgwydd
Wedi echwag teg heb attregrwydd
Wedi addaf teg ar gattrefrwydd
Wedi tynnu Lloegr iw llawn archwydd

Digitized by Google

Wedi na wnaeth Duw diddanrwydd ym
Wyd—ni gaffei llew gryd greidiaw awyd
Gwedi llawer gwr a gorwydd iddaw
A ddeuynt attaw wrth ei awydd
Ni ri cedwesti cad wastadrwydd
Ni raid a warawd wyr yn hywydd
Rhydd fydd a ganwyf i'm rhwyf boed rhwydd
Rhan o deg addef nef yn ebrwydd
Ebrwyddws dews dawn ym plegyd gwr Gorchang ei wrhyd
Ebrwyddynt ebrwyddweilch o'i gyd
Ebrwyddwalch ceinfalch cymryd
Braw yw ynn deon diofryd ein llyw
Braidd yw yn ein byw ynghynnen byd
Wedi brys haelder muner menwyd
Mwyniant llu tra fu yn ei fywyd
Mai yw am doddyw yn anhyfryd wyf
Am fyned fy rhwyf yn rhwym gwerydd
Golo hael galar yw y dedfryd
Goludd ei achludd gwayw rhudd yn rhyd
Goleu y dug Duw ein diebryd fry
Am freenhen Cymry cymrwyn ergyd
Gwir yw marw gwr garw am gaer eluglyd
Goreu oedd ynn ein marw i gyd
Gorofn y fy arnaf hyd nam gweryd dyn
Wedi Llywelyn ilywiawdr gwyndyd
Gwarafun ni wnaf yn nydd ereulyd
Gwrawl oedd ei hawl wrth ei hwylfryd
Gwaredid keli celfyddyd oleu
I wrth ei affleu poenau penyd
Cenais wawd ufydd-dawd yn ei fywyd
I'm arglwydd gwladlwydd gwladoedd oglyd
Canaf im arglwydd cof enbyd ys mau
Rym gorug angeu driftyd
Am dreifddwyn terwyn tyrfa cfpyd
Am drofedd gwynedd a'i harfeddyd
Am drawfgar gwanar gwenwynfryd Prydain
Am drawfwyr Owain drais fyberwyd
Am drueni mawr dwyn gwawr gwyndyd
Ymdro rhiallu fu o'i febyd
Am drengi fy rhi rhwy ledfryd am bydd
Ni edych Dofydd ef y gennyd
Am drais Duw nid oes dinn gyhyd
Am drais dyn dinam gedernyd
Am dreiaw anaw anwylyd llawer
Am dramawr bryder ac ni weryd
Am drwm feddwl coft eurboft aer byd
Am drin wychydd rydd ruddlafn creulyd
Am dylwyth hydwyth yr hyd y buant
Amgylch gwawr dygant yn deg hyfryd
Ei deulu a delynt yngtyd
Delweu aur ar cyfeuryd
Ei wyrda oedd dda oedd ddiwid pob un
Oedd anhawdd iddun ei ddiofryd
Ei weifion o'i wafanaeth gyd
Ei feirdd byddyn heirdd byddyn harddglyd
Ei fyrddoedd cyhoedd cawfynt edgyllaeth
Am ei freuolaeth hiraeth hyd
I'm rhei y harchaf arch o'm plegyd
I'm rhiau gorau gwr i'm ennyd
I'm rhwyf y rodded rhan fawr o'r byd
Ef rhoddai i Dduw ei ddihewyd
Ys rhoddo fy rhen rhan yfpryd addef
Ei ran o wlad nef iddaw hefyd

Digitized by Google

MARWNAD RUFFUDD FAB LLYWELYN.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

Gwae ni hael mor wael mor woleu
Weled yn neſad ein eiſiau
Gwelſam ni gynt ai wynt yn oreu
Gweilch Cymru yn cymryd arfeu
Yn Lloeger yn lloſgi ei thyrau
Ai gwelai eiliai yn oleu
Ai gweles gwelynt ryfeddau
Gwelſam ni wawr maelawr megys ynteu
Mygr fadawc wayw roddawc ruddgreu
Gwelſam ni faelgwn fawr fur cadeu
Cadr fab Rhys yn rhos ai ffagleu
Gwelſam ni Owein prain prudd ei ddoniau
Doniawg fab Gruffudd beirfudd bareu
Gwelſam ni fab Hywel yn rhyfelau
Cynan y gelwid cwyn a'n goddau
Gwelſam Rys falchgryg ryfyg reithleu
Yn rhuthr aruthr ar y dehau
Gwelſam Rys fychan darian daerglau
Ym mhyrth Caerfyrddin ai fyddinau
Gwelſam wyr dinam yn ddiamheu
Gwael yw nad ynt fyw neud ynt feddeu
Gwaent hwy ar a wnaeth eu pennaethau
Am Ruffudd gwewrudd gwae finnau
Am riff ner lluch hyder llachau
Am rym llym y lleinn fy nagrau
Am nwyf y darwyf ai neud areu
Amlwg yw cuſtudd ar fy ngruddiau
Aml i'm gwnaeth hiraeth hir anadleu
Am leith gwr dewr dur ei lafnau
Am lew glew o'm glud feddyliau
Am lyw glyw glod hyd Fynnau
Bu gelyn dychryn o'r dechrau
Byth yn lladd Llundain ai thyrau
Bu erwan yr awr y cigleu
Bu oer ym aros y chwedlau
Na bum farw o fawr bryderau

Ac yn farw fy arglwydd diheu
Na dyn oni'm dug anghofiau
Am Ruffudd ni'm dyhudd nau dau
Gwael yw colli hael o hil eneu
Gwag yw byd bod yn ei faddeu
Gwirfab Duw gan dug ben rhiau
Gwae fi i'm poeni rhac pum edau
Ucher rhac pryder pryd i'm goddeu
Achaws gwalch mawrfalch mur cynnedfau
Uchel y dodaf am naf nid mau
Wych ragor och rhagod ti angau
Cyn y gwedd ini oedd goreu
Gwedi gwawr Cymru cymryd croeſau
Cymmerwn iolwn o iawl ſeiniau
A ſyniwn ar beth o'r pregethau
Am ei ddwyn terwyn torf amrhyffleu
Ymddifaid y'm rai genau nid gau
Rhy draws fuam gynt hynt hir ddiau
Rhy driſt i'n gwnaeth Criſt creaduriau
Gwr a wnaeth yn llawn llenwi cibau
O'r dwfr deierin yn win gwineu
A wnel gorphowys rhag pwys poenau
I Ruffudd rwyddfudd yn ei raddau
Gwr an pryn prynhawn ddifiau
Gwir iddal o ddylaw affleu
Gorug dduw gwener rhwydd-der rhadau
Goddef pum harcholl o archollau
Gwedi llarydad Duw deg cyfreithiau
Llofrudd fab Gruffudd draul budd dreigiau
Llwrw y gwn gwenwawd bryddeſtau
Llary rwyf a ganwyf a'm geneu
Llew buwyf Llywelyn biau
Llyw Gwynedd diwedd a dechreu
Dechreuws dews hyd na'm dyhudd dim
Damwyniaw ym gythrudd
Dychryn mawr bod llawr ar llofrudd

Digitized by Google

Llyw meidrawl llew greddfawl Gruffudd
Mab meithyn Llywelyn llafnrudd
Mawr gwriawr gorwyr Mareduḍd
Traws gyngaws gyngor diachludd
Trais gymmell tri nawwell no Nudd
Gwna arnaf hiraeth hir gyſtudd
Gwaith Saeſon llid ruddion lledrudd
Gwerȳd ni'm ergyd ai mawrgudd
Gwae gwelſym cer mawrfryn morudd
Gwr oedd wr oedd orfawr ei ſudd
Gwyr oedd wyr oedd orddyfn ganthudd
Gwyth oedd lwyth oi laith ni atgudd
Gwaith oedd faith ymy y oludd
Gwawr oedd fawr ei far yn ddyfn brudd
Gwas oedd gas ei geiſiaw dan gudd
Gwalch oedd falch ei falchlafn uch grudd
Gweilch oedd feilch am ei falch ddeurudd
Gwn o ddwyn terrwyn torf angludd
Gwan anrheg anrhaith heb rybudd
Gwanar gar trimudfar trymrudd
Gwenwyn gwyn gennyf nid ymgudd
Gwyn eurdir ardwy dadanhudd
Gwr eurdwr ardwyad trabludd
Gwawr gwyndyd gwander ei orchudd
Gwyn Gwynedd gwae ni am Ruffudd
Gruffudd aur digudd ef dygnaf i gwyn O genedl plant Addaf
Griff ner o'm pryder y prydaf

Prif farwnad ir mab tad teccaf
Greddf Echdor gwawr eurdorf gwraf
Graid ſynniaid ſynniais ei alaf
Grymus can gweled ei dy gwelaf
Gradd berchen ei barch am danaf
Hiraith y ſy i'm dwyn am a gwynaf
Hir yd goffeir a goffaaf
Mor lle ym alar am a garaf
Mor llwyr y lladdawdd Llundain arnaf
Mor llwyr car am a garaf
Cyd a dragon byd o byddaf
Trugar hael pa hwyl a ddygaf
Am ddwyn draig dragor nas gwelaf
Drwg fab Duw y daethoſt attaf
Criſt a wyr yn llwrw a ganaf
Na wn am ſy rhwyf cwddwyf cuddaf
O mynnwch chwerddwch mi ni chwarddaf
Can mynnwn ſy marw ni mawr wdaf
Cyd ymguddioch chwi oll mi ni allaf
Ymguddiaw dan llaw ban ſo lleiaf
Cyd ymguddio pawb beth a gelaf
Am farwnad Ruffudd nid ymguddiaf
Nid a eill cadarn yn cadw eithaf
A all gwan truan triſt a allaf
O orchrawn deigr llawn a ollyngaf
O orchudd Gruffudd ail Nudd ſy naf
O erchyll golled gall marw ſyddaf
Ai Orchymmyn ef ar nef a wnaf

TERFYN.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

YS gorwyn ewyn rhyn yn rhedeg
Ys gwrdd yn Ionawr mawr morgroeg
Ys gwae fi am iaith gwawdd faith gofeg
Yr goddau chweddlau imi a fai chweg
Ni wybum erioed medru Saeſneg
Pan geiſiais i eſul o ennilleg

Cam oedd neud ydoedd yn wyndodeg
An rhoddwy fab Duw dawn arwaneg
Yn dwyn oc ei plith yn olithreg
Ei wladoedd cyhoedd cyfun hardd deg
Ar wledig lleithig llwythfawr urddreg
I wlad Dafydd rydd rwydd gymraeg

Digitized by Google

MARWNAD IR TRYWYR YNGHYD.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

Neud mai neud lleilai llif yn afon
Neud maith i'm dyrraith dir ofalon
Neud mwyfwy galar gwanar gweinion
Neud mau feddyliaw hwyliaw haelion
Hwy hwylieſynt gynt hyd gaer llion
Owein prydain priodorion
Lleiddiaid gad fleiniaid o flaen arfon
Llywelyn glodfawr fawr ai feibion
Llyna wr arwr i argoſbion
Llwyddedig gwledig gwlad orchorddion
Llawch ardawch ardwy rheiduſion
Llaith arfaith arfod blathaon
Llywelyn llywiawdr gwleiddiadon
Llary gynghaws drwy gyngor doethion
O fynyw hyd faen gaer lleon
Ail colli colled annhyrion
Ef cynnif canwyll marchogion
Hy ddyfryd ddyfrys gynfreinon
Hoeddyl Dafydd megis dydd dyddon
Naf leuangc cyn trangc treuleirchion
Ni ballai i bellennigion
Ner muner mynych ei roddion
Neud ei hoed ar ei gyfoedion
Doeth eſgyrn gwr chwyrn ei ymchwelion
Ymchweiliad tromgad trwm ei gofion
Dawn yr abad gwirdad gwirion
Ai dug oi olo i fro frython
Duw am gwnaeth hiraeth hir ofalon
Dyfod corf Gruffudd mwynfudd maon
Diafrddwl feddwl fyddwn ym mon
Pei yn fyw y delai i dal y bolion
Chwegwyr cynnifwyr cynnebigion
Eu cheddlau goreu gwir er Iafon
Llywelyn ai blant pla gelynion
Dafydd a Selyf ac Abſalon
Herwydd trymfryd byd bod tan Saeſon
Wedi treiſynt gynt ar y goron
Trydeydd rhyfedd llyfr llefeſigion
Nid a gwyr Gwynedd gan y gwyllion
Am far trwm tramawr goffion
Am fod yn eu tud hwy alltudion
Am fawrweilch aerweilch arfogion
Am fawredd Gwynedd ganaon
Llywelyn hyddyn terwyn tirion
Gruffydd a Dafydd dywyſſogion
Rhai difai yn difa galon
Rhan berthfan a borthyn greon
Pei yn fyw fyddynt o mmon
Perynt hynt hendref Wyrangon
Parawd gwawd gwedi eryron
Peris Duw eu dygngudd rhagon
Eny cyfred plyg gwenyg gwenion
Yny cyfrangc mor a mawr afon
I abar feddau rheiddiau rhuddion
I aber Conwy ceneddl frion
Tri goreu dreigiau ſy or dragon
Tri a ddug Duw or dyniaddon
Tri eres armes trachwres trychion
Tri eraill ni eill oll eu deddfon
Tri araf pennaf pennadurion
Tri arwydd hyrwydd ar eu holion
Tri arwr eurdwr eurdorchogion
Tri eryr yn wyr ac yn weiſion
Tri chlwyf nad ydynt fal gynt Cynon
Tri chleu eu pareu fal peryddon
Tri chlo ar eu bro rhag bradogion
Trwy eirioledd Pedr pen porthorion
A mair oi gwyry air ai gweryddon
I'm tri Arglwydd byd boent cyfeillion
Mihangel angel ar angylion

TERFYN.

Digitized by Google

MARWNAD DAFYDD FAB LLYWELYN.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

Dygn i'n fymmud Duw ein tad
Yfprydol yfprydoedd oleuad
Dydd ym gwna yn drift drais dyfnaid
Ar llall yn llawen o'i ganiad
Rhyfedd eu rhiau rym fwynad
Rhyfeddaf o'm naf o m neirthiad
Nid rhyfedd cyd bwyf o'm rhiniad
Gynnefin ar ganu marwnad
Ceniddum hon dra bron braidd ni mywad
Urddyn Lywelyn lyw y berfeddwlad
Ceniddum hon Ruffydd rudd ei ruad
Ac ni rygant dyn dim mor irad
Canaf hon Ddafydd cynnifiad ryfu
Ni wnaethbwyd gwar llu yn llaw gaead
Ni ddodai eirif ar ra ddillad
Na gwin gryfgelo nac yfgarlad
Ni ddotto fy rheen fab rhad ei bechawd
Yn erbyn fy mrawd ddefawd ddifrad
O amlder o dir llawhir lleiddiad
Ac emys golchwys goachubiad
Na bu gyftal dyn y danad Dofydd
Ac y bu Ddafydd gyn ei ddiad
Mor rhyfedd rhac mor fu roddiad
Na roddes fy llyw y lleuad
Mor eawch ym ardawch ardwyad
Cyn ni fwy o Ddafydd yn ymddifad
Tra fu wr arwr gerddeidiad
No'r trithael haelach yd gaffad
Truan y gwnaeth Duw dwyn cariad
Cymru - ym mhlith prudd wely heb oleuad
Etifedd Gwynedd gwanar gyrchiad
Neud Duw a'i rhannws yr hael reiniad
Yfy fyw a fo henuriad
Y fy farw a gaffas farwnad
Deu fab Lywelyn lew gymynad
Diofelynt fi o feirch ffyfciad
Diofelyd Duw hwy ac eu tad
Yn y wenwledd fry yn y wenwlad
Gwlad fal cynheiliad y cynhelis
Gwledig ben perchen gwr am perchis
Gwyn efgar neud gwar ai gwerchedwis
Gwae ni oi drengi fal yr drengis
Llawer iawn oi ddawn a ddefnis attaf
Llwyr y coffaaf am coffes
Cyn angeu Dafydd cynnydd cannus
Cawfant o'r bobloedd pawb erchis
Nid dodi bareu a beris arnaf
Alaf a enwaf ym a enwis
Nid hebof ei alar car a'm cedwis
Nid heb meirch meithdew i'm hedewis
O eifeu Dafydd neud is yw meddwl
Ac neud afyrddwl oi orddewis
Nyd llew o dyired yny dedlis
Nid llawrydd Dafydd a ddiengis
Gwael yw colli hael diwael dewis
Gwae ef a gyll nef er annilys
Dilys briodawr gwynglawr Gwynedd
Dolur yw nad byw llyw arllechwedd
Dygn yw i Gymru dygnedd ei dygned
Clywed ei fyned yn ei faenfedd
Dafydd hael ei hawl gywryfledd
Deheu a gigleu a gogledd
Dyfod hyd attaw dyhedd Iwerddon
I farchogaeth Mon dirion diredd
A llu o Brydain a llwrw hybrydedd
A llu o Ffreinge ffyr ffrawdd galledd
I goron Lundain er garwedd heiyrn
Ni roddes teyrn ty o wynedd
Duw ai dug rhagon deon diwedd
Dafydd fuddugawl gedawl gyfedd
Digawn o bregeth yw difaedd hael
Heb fryd i'w gael hyd frawd gyhedd

Digitized by Google

Yſtruan ei ran rwyf marianedd
Yſdrwg heddiw lliw wedi llaryedd
Y llaw a gedwis erllynedd
Adwy yn Aber conwy cyn eu gorwedd
Wyr Brenhin Lloegr llu teyrnedd
Mab Brenhin Cymru cymraiſg fonedd
Gwr oedd a hauoedd gorfoledd gwerin
O iawn deyrnllin y brenhinedd
Callaf yw imi beth ammynedd
Colleis gwalch mawrfalch mirain orſedd
Ni rygolleis dyn dygnedd ei awydd
Ni rygollo Arglwydd rwydd anrhydedd
Ef a'm talai aur ar fy myſſedd
Nid ef a delid drwy dalwarwedd
A Dafydd dreiſrydd droſedd cyn golo
Ni bu o Gymro ei gymrodedd
Bum y gyd a hael hwylglod ryſſedd
Buarth eryr gwyr uch gwin a medd
Eu n y gyd ag ef yd gefais ei wledd
Boed y gyd a'i Dduw fo ei ddiwedd

TERFYN.

CANU MOLIANT I LYWELYN AB GRUFFUDD.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

COLOFN nef dy nerth a archaf
Celi hael ir hwyl a ddygaf
Celfyddyd ym myd rymedraf
Cyflawn dawn danfoned attaf
Ar ddull llawnoed y dywedaf
Arglwydd fal Cynddelw a gynhaliaf
Llowarch a berchis mal ydd barchaf
Llywelyn urddyn urddas hynaf
Llawenydd Cymru cymrodeddaf
Llywelyn guall arall uraf
Gwedi y tri trydydd a enwaf
Nid oes is dayar od yſſyriaf
Nac odduch daiar dyn o mynnaf
Heno a allo hyn a allaf
Dedfryd gwr goreu y barnaf
Dadfrawd gwedi a ganaf
Neud adwen i'm prifnenn prydaf
Neud i Dduw mal y dadferaf
Doethineb Selyf ſelwyd i'm naf
A thecced eidduned Adaf
A dewred yr undyn dewraf
———— ————[*Englynion ar goll.*

CYNNYDD LLYWELYN MAB GRUFFUDD.

D. BENFRAS AI CANT[1].

TRAETHWS fy nhafawd
Trwy nerth y drindawd
Traethawd om barddwawd mor ddibarha
Treiſſwr ai cymmer
Troſedd Eliffer
Trawſwalch ner muner ai mwynhaa
Llyw glyw a glywir
Llyw doeth coeth cywir

[1] Ex y Ll. C.

Digitized by Google

Llawhir ni welir ei gywalha
Llym yngrym yngryd
Llawr gorfawr gwrhyd
Llwyr y dyd ei fryd ar fryn buga
Lloegrwys i gyfgu
Lluddiwyd oi ddeutu
Lluoedd ai dyfu er ei difa
Canawon Cymry
Cuniaid ai deffry
Ceneddl ai dyly nid ymdolia
Ceinweilch cyffredin
Cynnifiaid werin
Llawer i breiddin llu ai breinia
Breiniwys gwr ai medd
Braint y teyrnedd
Breenhin Gwynedd canys gwedda
Breiniawc Lywelyn
Brenhinedd ei hyn
Brynaich a dreiffyn dros glawdd offa
Brooedd yfgafael
Bryd arddyrchafael
I brifdeg caffael hael ydd hwylia
Braifg waifg wofgorddion
Bryd gryd grym lleon
Branar bar beirddion yn Saxonia
Llawnaeth gaeth giwed
Lleith waith waredred
Llofged eu trefred am eu traha
Tyrau twn eu mur
Terfyfg eu llafur
Torfoedd difegur ai hyffiga
Teyrnfab Gruffudd
Teyrn dadannhudd
Teyrnas ddatgudd prudd y preiddia
Eurglawr Cymru fawr
Arglwyddi clodfawr
Arglwyddwas ceinfawr ai cynninia
Argledr gwaithfuddig
Arglwydd gwynfydig
Arbennig wledig a wleddycha
Cedwid unmab Mair
Ceneu cyniweir
Ceidwad y gadair gyd a gwenna
Y gwr gwrdd uchel
Ar gwaew gwaed awel
Pan el yn rhyfel nid ymgela
Lleiddiad gad gyrchu
Llafur gwr gynnu
A llu ni rhwymu yn rhyd chwima
Ar erlyd fal cynt
Ar ael y dyffrynt
Ar ail hynt gerrynt garreghofa
Trydydd hynt yddaeth
Drud fu ei arfaeth
Gwnaeth tyrau trefdraeth nad ynt trada
Pedwaredd i fro
Pennaf a gymro
Penfro oddyno rhos oddyna
Pummed Forgannwg
Parhaus gilwg
Er a wnel o ddrwg nis diwedda
Chweched i dramwy
Chwechad yn adwy
Yn aber Tawy teg efgorfa
Seithfed Gedweli
Saithgad iw llofgi
O yftrad Tywi tew ei haerfa
Wythfed hynt greulawn
I Garnewilliawn
O Geredigiawn y dug yna
Nawfed Frycheiniawg
Naw cad cyndynniawg
Fal Rhun rhuddfoawg fu ei drofa
Degfed digyffellt
Dug attaw Fuallt
Dibellt ai fflamwellt y fflammycha
Unarddeg diwraidd
Elfael fro hyfaidd
Arwraidd o flaidd ai harfeiddia
Deudegfed yn iawn
Y dug Werthryniawn
Maelienydd oi ddawn a ddug etwa
Trydeddeg hodni (dogni)
Taerwalch Eryri

Digitized by Google

Arwiſtli keri ker caer ena
Pedwaredd ar ddeg
Pan ddug ychwaneg
Dwyn Cedewing deg Duw ai nertha
Pymthegfed Powys
Pan y cynnyddwys
Pennaeth ni wyſtlwys ef a wyſtla
Unfed ar bymtheg
I faelor Saeſneg
Pan aeth ar oſteg i dir penna
Dwy ar bymtheg drwg
A wnaeth yn amlwg
Pan gerddwys ei fwg am allt fuga
Deunaw dawn oedd fwy
Dug eu harfordwy
Gwynedd uch Conwy lle y cynnydda
Un eiſiau o ugeint
Ar wynawl eu maint
A chwanegu breint ger bro Aſſa
Ugeinfed gan rad
Hendref ei hendad
Dug y berfeddwlad ac nis gwatta
Tros yr ugeinfed

O Alun drefred
Hyd waelawd Dyfed ydd ehetta
Mi yw ei bencerdd
Mawr yw ei angerdd
Mynegeis ei gerdd ffordd yd gerdda
Mwyfwy ei gythrudd
Mireinfab Gruffudd
Mae yn ei ddeurudd ddawn ni chilia
Cymmen Lywelyn
Cymyrth ei derfyn
Cymru o gylchyn a gylchyna
Gwyſtlws y dragon
Hyd ynghaer llion
Gwyſloni rwyf mon rymynycha
Yr ungwr an pair
An gweithred an gair
Can eiriawl diwair fair ferch Anna

Can cafas eurwas air a lwydda
Can gaffed hir hynt byd bod yma
Can Duw nef yn ei fawr noddfa
Ys caffo drugaredd a diwedd da
Amen.

MARWNAD RUFFUDD FAB EDNYFED.

D. BENFRAS AI CANT.

Gwyn ei fyd am gyd a geidw ei wir
Gwae ef Arglwydd nef ni ſo cywir
Ar y fynno dyn rydarwir
Ond [1] a fynno Duw dim ni ellir
Rhyfawr o bechawd a rybuchir
Rhy afnam [2] o gam a gymmerir
Rhy anynawd o beth y pregethir
Gweleis i wr a gwr a gwynir yn feith

Fyth bellach ni welir
Gwelais i ddau a dau beth a dewir
Gwelais i dri a thri ni thremygir
Ni ryweles dyn dim mor engir
A gweled y byd ynfyd enwir
Y gwr ai meddai oll y meddir
Cyngor llyw mal aergwl llawhir
Mor ddiheid hynny mor ddihir druain
Dra ſo byd ni cheffir
Gruffudd arfeu rhudd rydebygir

[1] *Neu,* wrth.
[2] Velly Ll. C.

Digitized by Google

Greid barch i Lywarch fab Elidr
Ys dinam o was ys dir ei hepcor
Ym mynwent fangor a hepcorir
Kalan Mai calon a dorrir
Cof anwar galar pa gelir
Pan ddangofer gwyr eryr eurdir
Nad y gwr o Ros a ddangoffir
Ar a fo goreu gwir y dygir
Ac a fo da nid edewir
Nog a adws Duw yny dognir ced
Hael fab Ednyfed neb ni edir
Neud rygwyn terrwyn tyrfa pabir
Neud rai am Ruffudd a ddyhuddir
Neud rhawch ei ardawch neud rbywir ei farw
Ei farwnad a glywir
A orug o ddrwg ni ddrugfernir
I Ruffudd oi fudd a faddeuir
A orug o dda oni ddywedir gau
Nid ai maddeu iddaw y meddir
Enaid hardd digardd dygyn yd gwynir
Cedwis fi ei fardd im gelwir
Cedawl Dduw ei ddawn a iolir
Caidwad nef ei nawdd ni thorrir
Ai catwo cydymddaith cywir
Cywir frenhin fry gogoned
Cyfarwydd raglwydd red[1] Riged
Cywirdad fab rhad rhifed ei wyrthiau
Ni wyrthia ryaned

[1] Reed. Ll. C.

Cof ynghar neud gwar neud gwaredred
Cyferyw[1] a mi mawr eifiwed
Cyfar a daear dygned ei achludd
Am Ruffudd digudd deigr hyd arffed
Am ddwyn gweilch terrwyn gwedi tyrred
Am ddifa rhai da ry ddigoned
Ys llawer blwyddyn yn lliwed or gwyr
Pob goreu a golled
Cefais a fynnais cyn ei fyned
Can Ruffudd o'i fudd ai foddhaed
Caffael iddaw nef iw nodded rhac drwg
Dragywydd ddymuned
Gwehenais ag ef nid gofyged
Gwahan hir a hwyr ymweled
Byddei praff heddyw y pryned oi fedd
Pei yn fyw y caffed
Enwog wr arwr aur ei dudded
Anwar ei alar a oloed
Enwir iw angeu angen drwydded
Anwas rygallas pan rygolled
Enaid hir cywir cyuwch weithred
Anant ai cwynant mwyniant mwynged
Anaw oi wallaw ry wallofed
Anhawdd yw ei ddyn ei ddiofred
Y gwr a'n prynws ni prydwerth galed
O Uffern gethern o geithiwed
A wnel iw enaid gwirnaid gwared
Amen.

[1] *Neu*, cyfarfu.

1. CANU Y LYWELYN FAB IORUERTH.

EINYAWN VAB GWGAWN AE CANT.

Kyuarch oni naf om neuawl Arglwyt
Krift keli kulwyt kwl y ditawl
Kelnyt leueryt o le gwetawl
Keluytodeu meu ny uo marwawl
Y broui pob peth o bregeth bawl
Y uoli uy ri rwyf angertawl
Ryuel diochel diochwyth hawl
Llywelyn heilyn hwylueirt wadawl

Digitized by Google

Llewenyt y dyt y detyf ae mawl
Llewychedic llafn yn llaw retuawl
Yn llat dy wrthlat y wrth lys reidyawl
Gweleis a gereis ny gar mantawl
Gwelygort lleiſſyawn llyſſoet gwetawl
Lluoet arwoloet ar weilw didawl
Llawrwyr am eryr yn ym eiryawl
Llywelyn lleyn llyw arderchawl
Lluryglas gwanas gwanan a hawl
Gwenwyn yn amwyn am dir breinyawl
powys
Ae diffwys ae glwys a glyw y hawl
Ef dynnyad yg cad eingyl urad ureuawl
Ef dande rutle rutlan is gwawl
Gweleis lywelyn eurdyn urtawl
Yn vrtas dreic was dragywytawl
Eil gweleis y dreis dros ganawl dyfyrdwy
Eny trei tramwy llanw rwy rwyd hawl
Gweleis aer am gaer oet engiryawl
Talv pwyth dyt gwyth gweith canyſcawl
Ny ryweleis neb na bo cannawl
Or dev y goreu a uo gwrawl
Mi ath arwyre ath arwyrein myuyr
Eryr yn ryuyr priſwyr prydein
Pryduawr lywelyn pryd dyn dadyein
Prydus dieſgus eſgar dilein
Eſgynnu ar llu ar lle ewein
Yſgymod goruod gorualch am brein
Yſgymyn gwerylyn gwerlid gofyein
Yſgymyt klodryt kvlwyd a llwyuein
Llutedic edmic meirch mawrthic mein
A lluoet yg gwiſgoet yn ymoſgrein
Ar llimyn ar dynn ar dv kelein
A llinon rac bron rac bro eurgrein
Tyrrua klawt offa clod yn hoffyein
A thoruoet gwynet a gwyr llundein
Kyfrann tonn a glann glaſdir gwylein
Golud mor yſkrud yſgryd nortmein
Llywelyn terwyn toryf agkyngein
Bieu'r gwyr ae goreu bacheu bychein
Priodawr mwynglawr mon glod yſgein
Areul golut pentud pentir gwychein
Gwawr deheu goreu gwyr yn dyrein
Gwenwyn a gwanar y deu gar gein
Ae lyw kyueryw kyfwyrein a thrin
A thrychyad gwerin caer uyrtyn uein
Ny ſcuis na thwr na bwr bu krein
Nac argoed na choed na chadlys drein
A rac pyrth bu ſyrth ſaeſſon ygkrein
Oet triſt maer oet claer cletyf heb
wein
A chan llv pannu pen ar digrein
A chan llaw lludwaw llann huadein
Kilgerrann achlan a chlod goeluein
A chlwyr ar dyhet mawret mirein
Yn aberteiuy tew oet urein veh benn
Yny doet perchen parchus gyurein
Oet tew peleidyr creu creynt kicurein
Calanet gorwet gortyfneſſein
Llywelyn boed hyn boed hwy dichwein
No llywarch hybarch hybar gicwein
Nyd keladwy dreic dragon gyngein
Nyd kalan kyman gwr y gymein
Hydwf yg gnif ae lif o lein
Hud el yn ryuel hyd yn ruucin
Ae raclod ae rod o riw uetgein
Hyd y dwyre heul hyd y dwyrein
Yſy my rwyt arglwyt argleidrad
Argledyr tir a gwir a gwennwlad
Yſymy or kynghor kygwaſtad
Kyweſti peri peleidrad
Yſymy ri ryuel diffreidad
Diffryd gwyr eryr ardwyad
Yſymy rwyt arglwyt erglywyad
A glywir or tir ger tanad
Yſymy glew a llew a lleityad
Yn ryuel aron orddyfynyad
Yſymy wr a weryd y rad
Y reidus galarus geilwad
Yſymy ner yn arwynn dillad
Yn arwein yſgin yſgarlad
Yſymy nut haelvut huelueityad
Ar lloegyr rwy llygrwys hep diwad

Digitized by Google

Yſymy ryterch rotyad eur melyn
Molitor ym pob gwlad
A mawrdud olud olygad
A mordaf am alaf cillyad
Yſymy run gadkun gydkam rad
Kydgaffael a hael a hwylyad
Efymy y metwl diurad
Mi itaw yn llaw yn llygad
Ny henyw o afryw afrad
Mi henwyf o henwyr y dad
Llachar uar aeruar eruynyad
Llachar uron o urydeu gwryad
Lluchyeint gweilch am walch gynniuyad
Ual lluchynt eſtrawn wynt yſtrad
Hunyt nenn perchen parchus uad
Parch aryfawr aruon angoryad
Llywelyn dreis erlyn druſſyad
Dros deheu agheu oth angad
Angor mor y mawr gymynad
Angawr llawr llurye duw am danad
Ry chyngein prydein yn dibryder
Y briodawr llawr yn llawn niuer
Llywelyn gelyn yny galwer
Y gelwir am dir am dud tymer
Llewenyt lluoet llew yn bryder
Llywyawdyr amerawdyr mor a lleuver
Y dylif kynnif kynebyker
Y dylan am lann am leiſſyeid fer
Teruyſc tonn dilyſc dyleinw aber
Dylad anwaſtad ny oſteker
Teruynt twrwf rywynt yn ryw amſer
A rialluoed lluoed llawer
Toruoet yg kyhoet yg kyflawnder
Taryaneu goleu ual y gweler
Ry molant anant anaw kymer
Ry molir y wir y orober
Y vryd yn ryd yn reid niuer
Y orofyn gwraf yny deler
Y oruod goruod glod a glywer
Y wyr am eryr ny am parer
Y warae oreu pan waraer
Y waew a oreu yn deuhanner
Dinydyr yn dyt brwydyr yn yd brouer
Dinodyng perging pargoch hydyruer
Dinas dreic vrtas eurdawn haelder
Dinac o uynac pan ouynner
Dyn yw llywelyn llywyawdyr tyner
Doeth koeth kywrennin gwin a gwener
Ar gwr ae rotes ny rann or pater
Ae roto ef gwennuro gwynn uryn veh fer

EGLYNYON A GANT DAUYD BENURAS[1].

Pawb a ddaw yr ddaear long
Pobyl vychein druhein a dreing
A vacco treul gywro trang
Yn vnawr y llawr ae llwng

Llynguawr daearawr deruyn a garaf
A gereis ych hanlyn
Neut eddwyf yn oer dyddyn
Nyd oes dim einoes yddyn

Pob dyn oer dyddyn neut eiddaw agheu
Aghyueillwr iddaw
Y veddu dayar arnaw
Y uedd or diwed y daw
Pawb a ddaw &c.

[1] *Dylaſai yr englynion hyn vod yn myſg canuau y bardd a ydynt yn terzynu yn* T. D 320.

Digitized by Google

AWDYL.

EIDDUNYANT i dyn y duyn ar voes
Y gymryt crefyd Criſtyonic groes
Anuogaun woglyd o anneirioes
Kan ny uyr ae puyll pellet anvoes
Anreit yſtyryeit ytbeit eiſſoes
O gadarn gadwent camp preſent poes
A vu oedauc doe henu nyt oes
Yn hir nynnuys Duw dynnyaul einioes

Einyoes enryded rac llu anniueir
Yn lle ernewit a wna cadeir
A geiff a gaffer yn diatneir
O gywyt a gueith a guych gellueir
Kan yttoed agheu yn agkyueir
Paub preſennaul luyth leith agkyueir
Namyn a dyuettuy o Duu a mab Meir
Nyt oed iaun i dyn dyuedyt geir

Geir garuffraeth gwaeth gweith guyth-
gyuyt
Guae yt vuynt adref ac ef y gyt
Guae a goduy Duu druy ſyberuyt
Traha ae ſyrth ym poen yn pell deincryd
Guae ny llavur lles yn y yſpryt
Yſpeit vyrr vydaul vot ym penŷt
Guae a el ygkam ygkymlegyt Kayn
Kynryveloc lygryat enbyt
Guae a vo yno diffro diffryt
Diſtaaed dolur dygyncur cymryt

Kymmeraud an Duu an diheuyd
Kanys ef an goruc ac an gueryt
Goruchel reen reol diffryt
Goludauc Argluyd goleuat byt
Gorpuyf greaudyr nef nerth y gennyt
Gobryt guelet guled yn hed ynhyt

Yn hyd yn heduch hawd buyf oe glas
Glan Mechdeyrn glein gloyw deyrnas
Guledic nef a llaur a lluyr dinas
Llary Argluyd llauer lleuyn gwanas
Gwae ni wna kynnil kyn noe leas
Kymmot ar creaudyr ae rygreas
Credun i'n Reen rybendigas
Dwfn dyfn y hunu honneit y gas
Galwaf ymeiryaul ar y wenwas
A holl gradeu nef yn eu hadas
Am eiryolo Pedyr per y euras
Ar pobloed guerin guanhed tras
Am eiryoluy ſaint Ezechias
Ar Veir vam i that y thec urdas
Am eiryoluy Meir ar y mab kuas
Nat eluyf yn llugyr yn lloc Idas
Nam gatto reen cyn deg pynnas
Yn reuin Kayn can Sathanas
Rac pobloed poen eu kyueithyas
Poet ef vyn Duu nef vo vyn Dinas

MEILIR AP GUALCHMAI AI CANT.

Digitized by Google

AWDL I DDUW A GANT MEILIR AP GWALCHMAI.

Kyvarchaf i Dduu duyuaul ueini
Kyvarchuel a del y daeoni
Kyveiru cyvreyd cyvret aṁ auyd
Kyvaruyd ym lluyd ym lluyr deithi
Traethaf arnaf ormeint ynni [1]
Arveid ym kyvreid ym kyffroi
Kyffret a lluted a llaud yoli Creaudyr
A lluyr grevyd i grynnoi
A llafur a chur a chorf torri
A chyfyau hoedyau hylau [2] heli
A chymryt y gan Duu diuyn vi [3]
A Chymro divro divrat wedi
Diureit a newid ni vei chwant a llit
Divanu preſſent [4] preſuyl gynhi
A chymrif [5] oed guell no gwall rei
Rybuchet trinet tra vu velli [6]
Pwyll am kyveiryd
Or creaudyr or cyd
Or mab or yſpryd
O'r iaunvryd vri
Or drindaud undaud undras a mi
Un tra trugared unued ovri
Undec teir perſon
Uch Archegylyon
Un donyon neiuyon
Nerth heb drenghi
Undanc uynt urthyf urth eu moli
Un duu ynt uynteu a dihcu tri [7]

Truan o annyan ynny o ampwyll
Tracharu preſſent pres gynhyuyll
Tramoet om daun duu y gymhuyll
Tremynid uy mryd ym mrad a thuyll
Trugarauc douyt
Treiha uyg keryt
Hyd na buyf heruyt
Kreuyt kertdwyll
Credaf Criſt neuoet neuet gannuyll
Cein vedyt uyn duu yn diu yſtuyll
Yſtwyll yſtyryus deus defnyt
Dirnad digymrad gymryd bedyt
Delyeſſid yeuan yeuange deduyt
Dihcu uab Duu nef yn dufyr echuyt
Achaus y dyfu
Vchel vri ym mru
Meir yr maurhav
Llu llyuenyt
Llauen uyt reen yny rihyt
Ry cherir yn hir yny heruyt
Hi yn vam uy thad
Hi yn uyry heb uad
Hi yn hollaul rad
Yn rec ouyt
Hi yn uerch uy mab y mot yſſyt
Hi yn chuaer y duu o duyuaul fyt
Hi a haut borthes lles llin yenhyt
Rac lluyth uyth bechaud priaud
prifuyt
Pryneſſid mab Duu mad gerennhyt
Krnuy goyguy gobruy gobryt
Pryderun gyſnod dyuod douyt
A dafneu oe greu ar y groguyt
Kredaſſant oe daun yn diuenyt
Deudec eboſtol dethol doethulyt

1 Traethaf ar mafor meint y ynni. Ll. D. D.
2 Hwylyaw. Ll. D. D.
3 Diwynhi. Ll. D. D.
4 Preſſent dilid. Ll. D. D.
5 A chynnif. Ll. D. D.
6 Ny belli. Ll. D. D.
7 *Dyma y diwedd mewn rhai llyvrau.*

Digitized by Google

Credun eu hyduod [1] ac nyd aduyt
Yn vndaud drindaud yn dragyuyt
Tragyuytaul Duu tra gyuanuyf
Traethaud o honaud a handenuyf
Or daun ry loueiſt ry lauaruyf
Yn affleu y geu a gyuytuyf
Ac yn rynnaut fraut fraeth yt aduyf
Yn vrdas heb dras dros a bryduyf
Am bryd ar gymryd gymraut am nuyf
Kyuarus mynnus men y kaffuyf
Ac yſſy mi Dyu a diuykuyf om druc
Oe drugaret kyn mi traghuyf
Ac am gunel peryf pan berigluyf
Perfeith ueith ouec a dec daluyf
Teilygdaud adaud adef guirin
Treithitor tra mor tra maur deruyn
Tir ry gymyrth Criſt o groes eduyn kethri
Truy am rygolli daeoni dyn
Duu am duc yno anau dremhyn
Tramuy caraduy kaerua urtyn
Deuiſſach gennhyf canys perthyn
Dyſnu diuroet no met melyn
Melys yu pechaud pan y herlyn digreid
Mor drum yr eneid yn yt eduyn
Ediuet maſuet moes am kanlyn
Ediuar auar ef nys dechryn
Ediueiryauc da Duu ae keinmyn
Ef keif kerennhyt oe fyt fechyn

Erythyolaf ren rebyt enuyn ar hynt
Haut haetuy y fuyſgynt huyl guynt goruyn
Gorfyn oe dremyn dra myr drefred
Y dreiau caret caru myned
Myn yt ymdaeth Criſt ar gein dyduet
Daear—kyn buyf abar am bo lluted
Lluytid uyg kyuyd yg cyuir gred
Yg kreuyt yn fyt yn fau ganred
Ym dytuyn om duu ym dylyed
O gaduent preſſent pres euriued
Efryt uyt dechreu
Dyn deuret dyureu
Ae diuet ef diheu
Agheu ygged
Ac nys oes gochel gochueru druyted
Guely agklaear daear duted
A guae ni or neid yn rydoded
Yn rygnaud pechaud pall gynired
Rac an tuyllau byth o beth hebred
Y golli teithi tanc afneued
Ac yſſy yni vetyc a vet guared an geu
A dodun yneu yn ymdired
Yſſef argluyt nef a nerthaed
Y diouryd guyd guedy ryred
Ac ym reen guynn guann yſtlynet uyfi
Ac ys meu erchi arch geinmyged
Kyrreiuyeint or meint meith gyhuſſed
Ry uneuthym o dym o dryc ueithred
Am trugarauc argluyt trugarhaed urthyf
A mi y urthau nam gurthoded
Am duu am diuyd arbed
Erbyn braud trindaud trined

[1] Cyfod. Ll. Coch.

Digitized by Google

AWDYL WEDDI.

Am bo gan Duu am bo trugared
Ny bo druc neued om gorvedho
Bod ar iaun am ddaun ymdiheino
Byt aun i gyt gryt gret a wellho
Bod Duu a haeduyf ruyf am rivo
Boed yn adef nef ym godefo
Bydawt nef dichleis yr ae keiſſo ryd
Brenhineid gynnyd crevyd credo
Brenhin myr a ſyr am ſynhwyro
Breinyawl yw y haul ar a holo
Breint gwlat baradwys am kynhuyſo
Brenhinyaeth gyuiu gyuir honno
O brifluyr ſynhuyr y ſynnio vymryt
Brud gyt gelvydyt am kelvydo
Keluyd ny dygret a ddywetto
Nyt celuyd coelyd ar nytchoelo
Koeluyf a ſynnuyf a ſynno kywraint
Koelaf Duw ar ſeint a breint eu bro
Criſtyawn uyf gan iaun dawn digyffro
Criſtus bwyf dawnus yn y donio
Criſtnogaeth vaeth am digaetho
Criſt Geli vy ri am rydhao
Ac ef Vrenhin nef am nodho rac guall
Y ddaun ae ddeall am diwallo
Diuallus Deus nym dyuanuo
Diduyll y buyll ae krybuyllo
Divrat y garyat yn yt garo
Dinam ogonet y ae cretto
Duu llyuyaudyr creaudyr am diduyllo
Dedveu digamued am diuedo hyd vraut
Devaut dibechaut ym a bucho
O buchiant maurvot ef am rodo
Rodyon ordywyll am diduyllo
Dedveu digamwedd am diwedo
Donyeu kyghoreu am cyghoro
Kynghorur ar ur yr ae mynno gwar
Kynghorvynt ny gar wrth ae karo
Karu ymyd ym am digaplo
Karyat ae buyllyat ym ny ballo
Car aſt dadyl dilys am deuiſo
Kerennyd Dovyd beunydd am bo

MEILIR AP GWALCHMAI.

AWDYL I DDUU.

Ordaf oed ymi reithaf ym bywyt
Caru kymklegyt ygryt grymhaf
Caryat diduyll a grybwyllaf
Cared breint camued camhaf o gywyt
Om bryt cyn gueryt y guaredaf
Caru Duu i bawp oed bybyraf
Mal y car ſeint breint breinholaf
Canys caru Duu diatveiriaf gueith
Eilueith rac cyfreith y kyvrivaf
Ef yn diwael hael haul gymhennaf
Ef yn ddigard hard y vard vydaf
Ef divradu a chadu y dangnef uchaf
Ef a oruc nef adef Adaf
Ef yn un Duw guiu yn gyuiraf
Undeb dovn digraun digreulonaf
Ef yn dri a vu ni mynnaf ei var
Ef yn drugar guâr yn hegaraf
Ef yu'r Tat ef yu'r Mat muyaf
Ef yu'r mab ef yu'r pap pennaf
Ef yn yſpryd glan gloywaf y defnyd

Digitized by Google

Ef yn rihyd ryd ni ryvedaf
Ef a gred y gret gret aduynaf
Cret argel dirgel a dirganaf
Credet baub i Duu deur naf gogonet
Cret yn eidunet a eidunaf
Cret vyvyr yftyr a yftyriaf
Cret yn heb ymgel diogelaf
Credadun yu ef yu eithaf drauſgluyd
Criſt Argluyd culuyd ac nys celaf
Credu camgyvreith ys dichweithaf
Cret dyſget reit gan yneit anaf
Cret grevyd beunyd bennaf yſgogaun
Credu y Dduu ae ddaun ys cyfiaunhaf
Crettych [1] di vi y Keli kelvydaf
Crettuyf di vy ri pan vo reittaf

MEILIR AP GUALCHMAI.

[1] *Neu*, creffych.

AWDYL MOLIANT I DDUU.

Duw Arglwyd erglyu dy volyant
Duu a roddyat a rydd kyngueinyant
Duw terwyn torvoed gogonyant
Duu nefoedd dy nodva yn geugant
Duu breinyauc a brynuys y gerant
O'r poeneu ar pechaut a wnaethant
Plant Adaf plenhigyon fuant
Yn y preffen y preffuylyaffant
Gan Dduu yn lleuver lleuychant
Llu bedydd lleuenydd a gaffant
Rac bron Meir muyaf y medyant
Guerydon guiryon vyd an guarant
A mihangel deg dygant yn ganllau
Yn cannll——divant
Crevyduyr credu ryunaethant
Yr creaudyr ac creuys i credant
Ygkein ffaut y drindaut y trigyant
Yn prydverth guerth prifgerd a ganant
Reit i minneu le luru medyant
Parhaus baraduys yu vy chuant
O eiryol mîloed a milcant o'r teulu
Parth adu ym parthant
Gabriel Raphael am rivant yn gymmen
Vygymmodi a wnaethant
Yn y dydd ym priaut ym provant
Yr Unduu nyr undaut ymgaduant
Yn rhinwedd rhadau ymrodant
Yn uaſtat vyggueſti a gatuant
Ygguynvyt rac lledvryt yn lluydyant
Teyrned teyrnulad ymdygant
Yn lleithic Duu guledic y guledychant
Un parch vy perchi a vynnant

MEILIR AP GUALCHMAI

Digitized by Google

AWDYL.

Reen riedauc ruyſc kyverthi
Rex ryngaf oth rod ruydvot voli
Riain eiryan araut traethaut teithi
Ym trugar Argluyd kuluyd Keli
Canys ef an da an doeth gweini
Duu guyl goludauc golychun di
Nat elom yn lloc yn lle kyni
Yn lluyr llu Malaen maledicti
Mat mynycha dyn duyuaul uedi
Neges yn kymmell kymrodedri
Yſſym arſuyt maur mynet iddi
Mechdeyrn caeroedd na cheryd di ſi
Kany unn vy ffordd nam ffurf erni
Ernyuyant y dyn y digoni
Ar Dduu yn gollug guall vynechi
Ae dyckuy yn gam ygkymhelri uffern
Affleu dihedd dihun grynu
Cymrodauc auyd cymradu y vri
Cymrodet vynet pan vo pont Deui
Duy reit triſtyt wed treghi
Ir a vo divro yn y divri

Meilir ap Gualchmai.

AWDYL.

Divri divroed dyhed diheu
Diſgeuyt diffyt diffaut gynreu [1]
Diphara y dda y defodeu
Cam gymmydauc cas keſſenydyl vreu
Kyntaf ae geſtung gyſtud agheu
Aghnoeth aghen eghif rageu
Rex ryſgollychuyf ruyf ryvedeu
Cyn digones Duu oe defnydyeu
Duu a digones lles a llyſteueu
Llyuyd lleveryd a llavuryeu
Llary a oruc lluyr enguyr angeu
Nym gattuy Reen yn ran vadeu
Rhodyſſyt y Duu yn an dechreu
Rod per paraduys parha goleu
Ryn paraſſai Duu heb dim eiſſeu
Yn y unaeth an gunaeth an gueithredeu
Gwac a goduy Duu dogyn berthodeu
Duu a una deuvryt phryt a ffruytheu
Diffruythuyt dacar druy garedeu dyn
Dinam vuyat a vu ac goreu

Meilir ap Gualchmai.

[1] *Neu,* gymeu.

AWDYL.

Goreu guaredret goreduyn ffau
Gobrynnu gobruy gobuyll o honau
Guerth ym rodeiſt dyn dynyaul andau
Ath rodaf gyſſul heb gas yndau
Pan vynno Duu dy divuryau
O dylleſt preſent a phreſuyl viau
Ket ath vo di golut goleu anau
Nath dynnit eldit er i adau
Na muy veru avar rhacdau
Na cheryd i Duu duyn yi eiddau

Meilir ap Gwalchmei.

Digitized by Google

AWDYL UARWNAD A GANT EINYAWN VAB GWALCHMEI Y NEST VERCH HYWEL.

Amser mei meith dyt neud ryt roti
Neud coed nad keithiw keinlliw kelli
Neud llauar adar neud gwar gweilgi
Neud gwaethrec gwanec gwynt yn edwi
Neud arueu donyeu goteu gwedi
Neud argel dawel nyd meu dewi
Endewiſy wenyc o wynnoui dir
Y am deruyn mawr meibyon Beli
Oet hydreit wychyr llyr yn llenwi
Oet hydyr am dylan gwynuan genthi
Hyll nyd oet y detyf hi hwyretyf holi
Hallt oet y dagreu digrawn heli
Ar helw bun araf vch bannyeri tonn
Tynhegyl a gerteiſy gortwſyr deiui
Keintum gert y neſt kyn noe tregi
Cant cant y molyant mal eliuri
Canaf can uetwl afyrdwl erdi
Canyad y marwnad mawr drueni
Cannwyll Caduan lann o lenn bali
Canneid y ſynnhyeid ger diſſynnhi
Gwann wargann wyry gall dyall dogni
Gwreic nyd oet un urad garyad genthi
Gweryd rut ae cut wedi tewi
Gwael neuet maenwet mynwent iti
Golo neſt goleu direidi
Golwc gwalch dwythualch o brif deithi
Gwenned gwawn ae dawn oe daeoni
Gwynet anrydet oet reid wrthi
Nyd oet fawd ry gnawd rin y genthi
Gnawd oet dal eur mal yr y moli
Ny ryvu docnach yr y docni poen
Penyd a no mwy nor meu bebdi
Neum goreu agheu agkyſnerthi
Nyd ymglyw dyn byw or byd ual mi
Ny chyueirch aghenn yawlwenn yoli
Yr neb ry barther y ryborthi
Neſt yny badawd wennwawd weini
Yt wyf pryderus ual pryderi
Pryderwawd keudawd kyſnerthi ny wnn
Nyd parabyl yw hwn ny no peri
Llenn argel iſſel yſym poeni
Llut gwen lliw aryen ar eryri
Archaf ym arglwyt culwyt keli
Nyd ef a archaf arch egregi
Arch yt wyf yn arch yn y erchi
Am archuein riein reid ymeni
Trwy diwyd eiryawl detuawl dewi
A dec kymeint ſeint ſenet ureui
Am vun a vudyt [1] y hamnodi
Ar gyſtlwn pryffwn y proffwydi
Ar gynoeth duw doeth y detholi
Ar aghyueir meir ar merthyri
Ac yny goteu gweti a dodaf
Am dodes nwyf ym adoedi
Ny bu dyn mor gu gennhyf a hi
Ny bo poen otef peder wy noti
Ny byt da gan duw y ditoli
Ny bo ditawl Neſt nef boed eiti

[1] *Neu*, vndyt.

Digitized by Google

AWDYL A GANT EINYAWN M. GWALCHMEI Y LLN, M. IORUERTH.

Yssym ut aryfrut kyfiut kedeyrn
Eftygyad kywlad kyflawn deyrn
Efgor difreidyad mad mychdeyrn
Yfgar yfgenetyl gychwetyl gychwyrn
Yfgwyd drud efgud efgyrn cliphant
Ys gnawd yn yrdant ar y erdyrn
Llywelyn llew glwys loegrwys lugyrn
Llary gryc ieitheuyc llofc y theuyrn
Twrwf torredwynt mawr mis chwefrawr chwyrn
Tud ammwyn terrwyn tir eurdeyrn
A llafnawr dyrawr diruawr y dyrn
Arwynawl gwrawl nyd gwr anchwyrn
Nyd emyth nyd llyth yn llwyth heyrn
Nyd ef yn ardwy adwy edeyrn
Cochwet calanet kelern yg kynnhor
Kyueiffor echdor aerdor eurdyrn
Eiryf drablut angut angert dinbyrn
Arbennic bennaeth mab maeth metgyrn

AWDYL A GANT EINYAWN VAB GWALCHMEI Y DUW.

Duw dewin gwertheuin gwyrtheu
Dywallaw atan rann oth radeu
Dynyaton defnytyeift yth oteu
Dynyawl dyn donyawc wyf uinnheu
Dawn yffym yn yawn yn dyn ethrylith
A thrylwyn bwylladeu
Dyn wyf glan affan offerenneu
Duw douyt rec ouyt reithleu
Dryc uab wyf yd rwyf rym goreu
Bytwn da bytwn diamheu
Kyn mablan wythran weithredeu
Kyd bwyf drwc byt drugar ditheu
Herwyt da greuyt dagreu dadolwch
Dydelwynt yn hydyr hyd vyg grutyeu
Kan oruod kymmod om kamweteu
Kyn bwyf rawd bedrawd ym plith beteu
Kyn dyuod chwerw gyfnod chwetleu
Kyn aduant puchyánt pechodeu
Duw am gad caryad y mywn caereu nef
Duw a glyw uy llef ymlluc urydyeu
Duw am gwnel gochel frawt oeruel freu
Ffrwd vffern aftrus frawtus frydyeu
Duw am gwnel om gweith goleith gwelieu
Duw am gwnel goglyd felwyd fulyeu
Duw am difero om dafareu
Duw dwc ui atad y mawrdad meu
Duw nym kerytych om keryteu
Dyt y keryter y careteu
Diwet ny byt yt na dechreu ny bu
Ny bwyf trift yth datleu
Boed ef y talwyf hael rwyf rieu
Ar lann eurdonen yr y donyeu
Can gur a dolur ar dal glinyeu
Can gymryd penyd penn elineu
Ym muchet gorwac yr geiryeu maffwet
A doeth eithyr meffur ar vyg geneu

Digitized by Google

Portheiſt yr punnoes gloes glas uereu
Pym weli keli keluytodeu
Porthwyfy boen edryt mynyt mynnheu
Parthred a myned myn yth gigleu
Penn cred vu weled dy welieu
Pan yth archyllwyd oth archolleu
Can borth egylyon gwylyon goleu
Nyd perthyn yth tad mad vy madeu
Can pereiſt douyt dyt yn veu
Nam gad y gythreul yr dy gethreu
Dy groc croes wytin vrenhin vreinhyeu
Difyrth chwechoes byd rac pyd poeneu
Ymerawdyr greawdyr oth greu bu gwaedlyd
Godlawd ny bytaf oth gyureitheu
Gwyn eu byd vyneich vywn eglwyſſeu
Eglwyſgar hygar hygadw gloeſſeu
Diwetyn werin wiryon gathleu
Dynyaton dynyon diamheu [1]
Gwae ef ae peris perygyl vradeu [2]
Pan wanpwyd yeſſu yny aſſeu
Gwedy doeth ef yr dioteu
Duc anreith vffern yny affleu
Ac wedy hynny hynn a oreu
Gwir y pregethir y pregetheu
Gweled yn myned mynwawl detfeu
Gwyl gyuarchauael na chof amheu
Goreſgynnws mab duw difyeu nef vchod
Gormot yw bychod o bechodeu
Yn vrten reen yn rann deheu
Yn wrawl kedawl kyda ſeinhyeu
Boed ef yn diben boed yn dibleu
Heli yn enlli hyd yn henlleu
Gwedy dywedwyd gan annwyd geu
A gwedy heuyd gwyd gortercheu
Gwedy kyſſynhyaw kydyaw kadeu
Gwedy dwyn goruynt wrth y goreu

[1] Diamreu. Ll. C.
[2] Angeu. Ll. C.

Gwedy gwydeu garu llu a lleeu
A lliaws achaws vcheneidieu
Gwedy cardu rwy gwedy certeu byd
Gwedy gwyd plegyd y plygeinyeu
Gwedy am daeru barnu brodyeu
Gwedy hir erlid gobrid gobreu
Gwedy gwyth [1] omet ſenet ſwyneu
Gwedy gwaſanaeth y pennaetheu
Gwedy kygauawc keigyeu y dyndid
Gwedy llid ymlid yn ymlateu
Gorpwyf y gan duw vty gwedy gwydyeu
Goruod gorffowys baradwys beu
Myn na byt dyn na hyn na yeu
Men nas trawt trallawd trallwybyr eiſſyeu
Archaf arch y duw ar doreu nef
Na dotto pedyr glocu
Ym llutyas ym adas yr meu
Ym tref tad ym caryad kereu
Mihagel am del ym dwyn adneu
Mal y duc kwyuyen llen a llyureu
Mal dyuod Eluod eluyt geleu
Mal creuyt hywyt kynnyt keneu
Meir a Seinſilin Marthin Mattheu
Marcus a lucas yonas eneu
Ar duw uy eneid kyureid kyureu
Eiryolwch ſeuwch yn ych ſwyteu
Medyr uy eiryawl Bawl pan del ym agheu
Hael meidryawl nym dehawl om vn diheu
Mi kyn bwyf araf nym bo areu
Mywn creuyt a fyt a fawd radeu
Mynnid ymeiryawl gretuawl grateu
Men yd uet duw doeth yth gyuoetheu
Myned ym gwared gwar vetylyeu
Molawd yr drindawd mal gwetieu
Menhid ym gyrreiuyeint mwynyant creiryeu Duw
A diouryd arueu
Aruod perfeith gweith goreu
Kyn gorwet y met poed meu

[1] *Neu*, gwynet

Digitized by Google

AWDYL A GANT EINYAWN VAB GWALCHMEI Y DUW.

Peryf nef pura uyg keudawd
Par yni duw parablu o honawd
Panabyl gwir pan dreithir draethawd
Per uegys pur vehs volawd
Perygyt yw y dyn y diwyrnawd
Pan no yg caret buchet bechawd
Pan del rac yessu tri llu trallawd
Pawb a daw ataw pobyl uraw yr vrawd
Pobyl byd hyfryd eu difrawd a wneir
Ar ny wnel y gardawd
Edlueiryawc da duw ae kymerawd
A dynyon gwiryon yn eu gwyrdawd
Gwerin diwerin ny dyorgrawd
Gwae ef arglwyt nef ny uo parawd
Nyd oes darogan dyn truan trawd
Or gwr an goreu mateu metdawd
Cretti y daw rac llaw yn llwrw aufawd
Vn dyt a douyt yuni ae dywawd
Y cosbir enwir y cosbawd aer gyd
Ar genedyl uedyffyawd
Ac eissyoes kyn gloes glasuet tywawd
Penydyw gwetwn yn ynn gwetdawd
Rotwn uwyd yr duw a diawd beri
Crist eli keli can uveltawd[1]

Na chysbytwn uod heb ysbytawd
Gwennwlad nef yn aduwyndawd
Gwymp edryt douyt deuawd y radeu
Ny rydraeth nep tavawd
Ragorwn greuyt a syt a fawd
Rac agheu lledrad brad bredychawd
Gwetiwn gwylwn bytwn barawd
Parth ar gwr arwr an ry warawd
Pan doeth yessu vry oe vrenhindawd
Yt oet pym hoes byd yn gyd gaethnawd
Yg gauael yg gwael yg gwaelawd uffern
Yn affleu oerwern yn erdygnawd
Ardunedic duw ardelw o honawd
A wnaf arglwyt naf nerth pob kiwdawd
Cadwn vreint deweint canys deuawd
Duw ner ny gymer gam esguffawd
Na chysgwn canwn canon arawd
Can nyd o gysgu y daw gwasgawd
Ar duw adef y nef uy llef llwyprawd
Yny edrinaw ury rac y drindawd
Y erchi ym ri rwyf vawnawd gwerthuawr
Gwrthuyn uy eneid pan ol om knawd
Boed ef y bytwyf gwedy bedhawd
Kyd ar vnduw mawr yn y vndawd

[1] *Neu*, ufulldawd.

AWDYL A GANT EINYAWN. M. GWALCHMEI Y DUW.

Adef nef neirthyad oth rad boed rwyt
Erglyw om gweti keli kulwyt
Argledyr o honaf naf nawt hywyt
Argleidryad meidryad medyr om awyt
Ar eu pechodeu puchsun arwyt crog
Ym dwyn croes yr crist ar uy ysgwyt
Agheu yr eneid aureid aurwyt
A daw am buchyaw ambechrwyt

Digitized by Google

Bychod gouyged trwyted tramgwyt
Buchet anvedret o ynvydrwyt
Beich o bechodeu nyd bychodrwyt
Bychdid [1] dall aghall aghyuarwyt
Kyn glaſſu vyg gwet kyn glaſuet gwyt
Gleſſin deyerin werin wogwyt
Kyn dyuod kyunod ny kyfnerthrwyt
Kennadeu agheu yn gyuarwyt
Kyn boed ym oerglat boed ym arglwyt
Ry dalwyf yawn yn radlawn rwyt
Kan edivarwch kyfrwyt ym yeſſu
Wedy kymynnv ym kymhenrwyt
Kyn del ar grutyeu dagreu dygwyt
Kyn gwerydre lann nyd gwaradwyt

[1] Bychydig. Ll. C.

Edwyn uyt treul dyn trugeinmlwyt
Aduyt hoetyl hitlaw rac llaw ny llwyt
Aduwyn [1] pob gorllwyn pan dy orllwyt
Aduwyn arall pall pwyllaw eilwyt
Aduwyn met a gwlet gwledic hylwyt
Aduwyn haf hirwyn kein llwyn can llwyt
Aduwyn march penhill ebrill ebrwyt
Aduwyn ym gware gwaew ac arwyt
Aduwyn uyt yſgwyd ar deur yſgwyt
Aduwyn huyſgwr gwr a gorwyt
Aduwyn gwyr terwyn taer gyuannwyt
Cad—pan uyt kedeyrn yn ymorthwyt
Aduwynach kynach kennyf boed rwyt
Keinuoli keli kalonnogrwyt

[1] Addwyn. Ll. C.

MARWNAD FADAWG AP GRUFFUDD MAELOR.

EINION WANN AI CANT.

Neud rhaid am Fadawg trengi ciwdodoedd
Gwalch cadoedd cadrfalch ri
Neud trai calon donn dug ſi
Ac neud trwydoll oi golli
O golli Madawg edgyllaeth coſion
Gwyw calon gan hiraeth
Gwawr llawr llwyddedig bennaeth
Gwae ei fro ai frodyr maeth
Maeth Madawg mynawg mynudrwydd wyrth lyw
Ac wrth lew ymorchwydd
Arf tarf terfyn ehangrwydd
Aerwr oreu pei canmlwydd
Canmlwydd ydd oedd raid ruddelwch i fod
I fad gynnhal heddwch
Gwalch bryun brenin ynialwch
Gwael nad byw byd neud amdrwch

Trwch yw'r gwr arwr ardwyad gwerin
A goreu o fab tad
Ef oedd aerllew arllwybr cad
Ef oedd arlleng pymthengwlad
Gwladoedd ni debyg glud oeddliw [1]
Ymmyd—Madawg oedd cyn heddiw
Eſgor oi dud nad ydiw
Yſgor gadw yſgwyd fradw friw
Briw galch ei rodawg o ryw tymhefil cad
Cynnoer wely diddeſtl
Gwr a wnair fal gwair fab gweſtl
Gwyr wawr yn llawr llynn Egweſtl
Diweſtl [2] ei yſgor yſcwynais nad byw
Hael or rhwy rygollais

[1] *Neu*, edliw. [2] *Neu*, Diddeſtl.

Digitized by Google

Blaidd blaengar blawdd trydar trais
Trei hoeddyl ei hoed yr borthais
Porthais alar trwm tramawr odrig gwyth
Am wawr llwyth a lleithig
Am eryr gwyr gwaith fuddig
Am ior aerddor urddedig
Arddas teyrnas teyrn arfrudd cad
Tringyrchiad tra fu fudd
Trymfryd byd bod yn achludd
Traws maws Madawg mab Gruffudd
Am fab Gruffudd lary lawch ynaid i'm ken
Nid mau wen wedd honnaid
I bob rhwyf rhwyſg orddyfnaid
Diwedd nod rhuddfedd neud rhaid

EINGION WANN I FADAWG AP GRUFFUDD.

Sef yw teyrnllyw teyrnllaw Fadawg
Par enwawg pair anaw
Teyrnedd teyrn ganllaw
Teyrnas addas iddaw
Iddaw lu ganllaw geinllyw hyfag cyrdd
Cerddorion ofynag
Rhwyf ner by archer bynnag
Nid rhyw i'm ner rhoddi nag
Dinag Loegr arac eryres amwyn
Bardd gyflwyn beirdd gyfles
Dyn a'i mawl llwyr ganmawl lles
Dawn i'm rhwyf Duw ai rhoddes
Rhoddes Duw ym llyw ŷ llafn waedlif
A'i yſgyr—yſgyrion yngnif
Rhwyd Brynaicb branes wrthgrif
Rhad o'i genniad y gennyf
Ynghynnif Madawg anghynnwys ei dorf
Ai daerfar ar Loegrwys
Rhwydd y ceidw cad am ddiffwys
Rhwydd glyw tra fo byw Bowys
Powys nen perchen parch woddef eſpyd
Ys bo Duw gydag ef
Rhwym cad yn cadw ei addef
Rhwyf byd ys hyfryd os ef

MARWNAD Y LEWELYN AB IORUERTH.

EINYAWN WANN AE CANT.

Mawr dilyw detyw am dirion vrtyn
Llywelyn llyw dragon
Goſgymon gwyth drwyth drudyon
Goſparth pybyl pobyl dynyadon
Dynyadon deon dyly am y dwyn
Dolur kwyn ae kyffry
Gwr gwrt blant hydyr uolyant hy
Gwyr vraw gwir vrenhin kymry
Kymry wawr warant yr werin nyd hawt
Nid heddwch tragorllin
Aer uyrt aryf kyrt kettennin
Aruoll brwyngoll breenhin

Digitized by Google

Brenin tir rywir ryuet yt etiw
Nad eitiaw uo wynet
Namyn ſarn drumein vein vet
Namyn ſeith druduceith droeduet

Ny met llywelyn llyw mawrgoeth wynet
Adryſſet dreis anoeth
Mab duw ac duc yw gyuoeth
Mab mam meir dinam mawr doeth

Doethon lleygyon lluduryd oes anawt
Ys einym oll y gyd
Treis duw dwyn hael o an byd
Ac wedy treis duw triſtyd

Triſtyd am ergyd mawrgerth na bu hyn
Llywelyn llyw arberth
Mab diuei difefyl y nerth
Mab diwan eiryan iorwerth

Ioruerth effillyd aruogyon y hil
Hael gynnil gynreinyon
Gwae ni wynet orchordon
Gweled llawr ar llyw mawr mon

Monwyſſyon maon mawr kynnetyf awch llyw
Awch llywyawdyr rac annetyf

Modur vur parhaus ddetyf
—— heid mur greid gretyf

Gretuawl lywelyn grym g—r ber toryf
Teruynwyd y amſer
Yſgrud uud dreic feleic fer
Yſgwn yſgwyd rwyd racter

Racter y niuer naf lledneis y hil
Hael ureenhin kemeis
Gwaew dur yn yt treul —— is
Gwan ——— gwyl ual y gweleis

Gweleis yn lawen lyw meith y deruyn
Gan lywelyn ganweith
———————— kanhymdeith
Ae lu o led y anreith

Anreithwyd mab duw dewin holl wybod
Llwybyr ehang y myddin
Am eryr gwyr goreuwin
Canllaw branhes trachwres trin

Trinhei on gwron goruawr vur drallawt
O drilliw yſgwydawr
Pan gwyddawd cad vlawd vleidgawr,
Pan golles gwyr mon gwr mawr
Mawr dilyw detyw &c.

EINYAWN WANN AE CANT Y LYWELYN AP IORUERTH.

Llywelyn gelyn golofyn plymnwyt
Lew—ar les beird e magwyt
Roi e wann yw e annwyt
A rac pob cadarn catwyt

Cadw dduw lywelyn lyw ongyr aclaw
E alon nyw heſgyr
Cedyrn llu cadarnllaw gwyr
Cadarnloes eiryoes eryr

Eryr mawr dewrwyr mae y delw y gallwn
Na byddwn a dy helw
Hard e vard vod yth arddelw
Hawd yr byt gennyt gynnelw

Hawd kynnelw uy rwyf rwyd ouec
Mordaf—rwyſc mawrdon wrth garrec
Gweilch beilch balchdawn rwydlawn rec
Gwalch gwreid teyrneid tec

Digitized by Google

Tec goryw uy llyw llauyn greulawn
ualch gwr
Ar y gar ae eſtrawn
Peryf hael o kin meruynyawn
Prud yny ddeurud y ddawn

Yth dawn gyrch gynnyrch gynneddyf
Emreis wrd
O orddwy franc a ſeis
Llyw glyw glewdrut yth weleis
Lloegyr goelkerth llwybyr draferth dreis

Treitſyaw a oruc tros deruyn ual gwr
Ar y gar ae elyn [1]
Llawch kerd mawr angerd meruyn
Llyw kat leidyat lywelyn
Llywelyn gelyn golofyn, &c.

[1] *Neu*, eſ goreu o vab dyn.

LLYMA DADOLWCH A GANT EINNIAWN WANN Y DAUYD VAP LLYWELYN.

Brenhin kywrenhin kywir yny dyt
Hael dauyt hawl i tir
Bolchlauyn lut am dut am tir
Beilch ae geilw balch y gelwir

Ry gelwir ar tir ar teiror prydein
Gwr vrtein gwrhyd por
Yn hawl chwyrn deyrn tut ior
Yn hael ehelaeth gyghor

Kyghor a rotaf y rwyf mon llawryt
Hael dauyt hil doethon
Bid lary bid lawch kertoryon
Bid lew a bid lyw dragon

Dragon vt dremrut dreic emreis val prut
Prif gynnyt keuyn yr eis
O neirthyad ner nenn lledneis
Ac o nerthoet kadoet keis

Na cheis vy yſiwg om eſtygyt vr
Yn wiryon ym plygyt
Na chaſſa vi vawr dauyt
Ny chaſſa mab duw dedwyt

Dedwyt rwyf aerglwyf eurglet arderchawc
Archaf yt yth laryet
Breinyawl hawl hylwyt orſſet
Brenhin trin trugaret

Trugarawc dauyt trieyawt om mawrdawn
Uy mardeir om tauawd
Cadeu dor cor kymhendawd
Cedawl kadw vi yth gyſgawd

O gyſgawd dauawd da yr awr y medreis
Ymadrawt a duw mawr
Diwen dy uar lachar lawr
Diueuyl vt prut priodawr

Priodawr pryduawr prydein adlam gwr
Wyt goreu o uab mam
Na char a mi meith gytkam
Ac na chred guhuted gam

Nyd cam canmawl hawl hwyl gynnyt
eirchyad
Y erchi kerennhyt
Tormennawc deifnyawc dauyt
Teu glod om dyuod ym dyt

Y dyt rwyt arglwyt argledyr gorllin llu
Y llochir pob edein
Kedawl budugawl bytin
Kadyr ryd kadw yth uryd urenhin
Brenhin kywrenhin &c.

Digitized by Google

AWDYL Y RUFFUT. M. LLYWELYN.

E. WAN AE CANT.

KET del y ruffud vud gynnan o dda
A ddyglut mor y lan
Peunoeth doeth dethol gynran
Peunyd y ryd ac y ran

Ym ran llit ogyruan llawer a archaf
A gaffaf ym naf ner
Dyn kymhen wyf ac kymher
Deu kymeint rif feithrif fer

A dan fer ny byd ac ny bu vn well
Vawr glot bell diballv
Oes ellwng bud rud rannu
Eiflillyd wrth y ffyllv

Syller e hyder hydyr raen y ongyr
Vn angert a ferlymaen
A braw gwayw gwifc haearngaen
A dreid val bleid yn y blaen

Bleinyat gat hwylgat haelonaeth a geidw
Heb gytuot bygylaeth

Ardwy llu llaw ehelaeth
Eurdeyrn medgyrn ac maeth

Ny maeth bygylaeth bu gelyn y freinc
Boet frawdus y deruyn
O haelon haelaf mab dyn
Hawl llu haeluab llywelyn

Mab llywelyn hael hawl gyua eirchyeit
Erchwyn greit grym tyrrua
Wyt rwyf cat cetwyr ddiua
Wyt rodyat rudeur afya

A gaffo fy llyw llaw fodyawc o vud
Ef a nyd gwafgárawc
Ar lles beird bwrd digudyawc
Ar llet byt boet hirhoedlawc

Hirhoedlawc ver gwas gwifc eurduddet
Hard—gnawt yw vard ouyget
Ny lleucir geir gorchalet
Ac ny llud cat woffud ket
Ket del y ruffud &c.

ENGLYNION A GANT GWGAWN BRYDYDD
I LYWELYN FAB IORWERTH.

RHUTHR a ddug fy llyw llew diarfwyd
Traws—tros Gymry y clywyd
Fal rhuthr ereyr aur yfgwyd
Cynon fab Cul fanawyd
Rhuthr a ddug fy llyw aeth tra llyr ei glod
Ei glybod bu myfyr
Rhuthr gwydd glyw gwythlawn ongyr
Llyna ruthr aruthr eryr
Rhuthr a ddug fy naf nawell yw or gwyr
Nor goreu or dilyw

Rhuthr cadarn cedeirn ddiftryw
Cad gyfamrudd lledrudd llyw
Rhuthr a ddug nid ffug erffoffawd fy llyw
Llangollen ddiwarnawd
Rhuthr didange aerdrange aerdrawd
Arf glyw a glywir hyd frawd
Rhuthr a ddug nid ffug ffwyr ddylyn
Bryneich—braw uddudd a ddychryn
Angeu goleu pob gelyn
Angad leidiad Lywelyn

Digitized by Google

AWDL FARWNAD IORWERTH FAB OWAIN.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

Chwedl am daw dolur ei gofiain
Chweddl dirfawr dirfarch gyfrwynein
Chweddl rhyhir rhyhydr ei yfgain
Chweddl agarw marw mawrfab Owain
O newydd yn neheu a dwyrain
Yn ormodd yn armes Prydain
Llaw-wag cyrdd gwedi car dilain
Llawer cof canthudd a ddichwain
Ar ol erbylu cyrdd nid coelfain ei ddwyn
Oddyma hyd Rufain
Canys marw Ior cor cywrain
Chweddl mwyfwy garw dramwy drumain
I Faig ni bu ddadwyrain
Bychan budd i fedydd a fain
Oer gywafg gywifg pridd a main
Llan dutchyd[1] am glod orwyrain
Rhwyfiadur dygenrad digain
Rhwyf Arfon Iorwerth fab Ewain

[1] *Neu*, dutclyd.

MARWNAD OWEIN GWYNEDD.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

Duw gennyf Duw peryf perffaith
Duw dofydd Duw parchrydd parchraith
Duw gwerthfawr gwerthefin gwniaith
Duw drindawd bwyf priawd prifiaith
I edmyg dinag dinas mawrfaith clod
Cleddyfrudd yn anrhaith
Cerdd farwnad i'm rhwyf om rhwylwaith
Cwbl ddigable barable ber araith
Mur gwyndyd mad gwynfyd gwyniaith
Mab Gruffudd ced fawrfudd fawrfaith
Gwae circhiaid erchi gofiymddaith
Gwae feirdd byd a bedydd oi laith
Am borthloedd miloedd mil canwaith
Am borthi galar nwy golaith
Gwedi Owein mon mor ddiobaith cyrdd
Cerddorion mor ynt gaith
Twr dygyn diganwn oi angrhaith
Tranc or ddraig ar ddragon oddaith
Gwedi bod fy naf yn nef ym mhreffent
Nid oes pryfur affaith
Gwyr Prydain ym mhryder hirfaith
Eu gweled neud gwala diffaith
Neum gorchudd gorchoddion
Neud gormail gormodd o ymddaith
Neud afrwydd neud efrydd gobaith
Neud Cymru cymriw ei chyfiaith
Cymreith gar llachar lluchryfig Arthur
Gofgordd dor am gor am gynnîg
Gwafgarei gweifgfeirch mai mawrchig
Ced hyrwydd friwlwydd frwyn dyfig
Colofn clwyf nid oedd clod fenffig
Rhac traeth caer yn aer yn arfod gweilgi
Cil gwri cil wellig
Bu y gwyr cylch llyr yn llewig
Gan ei lladd or llew gofgeiddig
Rhif trychan celain o drychion camawn

Digitized by Google

Oedd cymmaint un meſtig
Bar anwar wanar wenwynig
Bu eſtrawn i yſtrad Meurig
Gwae werin Addaf addoed mab Gruffudd
Geleurudd galar dig
Dwyn Owain fwy coelfain ceinmig
Dygant graig aerddraig ar ddruſſig
Oedd caſnar poſt trydar treiſblyg
Oedd caſtell hiriell hwyr wellig
Oedd meidrawl meddwl oedd myddig
I wan—I warad ei ddiffig
Oedd rwyf eli feirdd heirdd hirddrig
Oedd rebydd coel rydd celennig
Oedd cwyn trangc pob tra a diffig
Oedd colofn yn ofn an dyfnig
Oedd terfyn cardd oedd car deuddyblig
Oedd calon calan Nadolig

CAN I'R ARGLWYDD RYS.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

Duw rym roddwy
Rheiddun arlwy erlid cyngor
Rhodd fodd fedru
Rhif brif brydu bryddeſt ragor
Rhwych wych wenwawd
Rheg deg draethawd a draethitor
Rhod glod gleudaer
Ym mhedeiraer ym mhedeiror
Rhudd brudd breon
Rhos dros drychon alon elor
Rhygn dygn diſgyn
Rhwyſg wryſg wryſgryn woſgryn woſgor
Rhys wrys wryſiad
Rhyw lyw luchiad gad gywangor
Graid haid hygar
Grym lym lachar gwrddfar gynor
Clod gyfragod
Corf gyfarfod rhod glod gludaw
Cardd gyfarwar
Car gyfarbar gyferbyniaw
Gwanai drwy wrys
Gwanai drwy frys Rys rwyf anaw
Gwanai drwy gorf
Ynghyfaerdorf ynghyfaerdaw
Gwenydd gwrthlawr
Gwenydd aeſſawr oſſwydd gwyddaw
Gwân yn aer rain
Gwyr yn aergrain yn ergrydiaw
Gweilch yn aergrwydr
Gweilch yn aerfrwydr gweilchyn aerfraw
Coelcwydd celain
Coelfain i frain ni faith adaw
Yn llawn llunwerth
Yn lle coelferth Lloegr ddyludaw
A glyw tra glyw
A llyw tra llyw trillu rhagddaw
A thref tra thref
A llef tra llef trallan llywiaw
A barf ar farf
Ac eingl ar darf godwrf giliaw
A llyry tra llyry
A llwrw tra llwrw aerfwrw urthiaw
A llafn tra llafn
A llid tra llid tremid treiddiaw
A gwr tra gwr
A thwr tra thwr yn trachwynaw
A gwyth tra gwyth
A gwaith tra gwaith daith derfyniaw

Digitized by Google

Rhyn wyn wenwyn
Rhad tad terwyn tort ymandaw
Rhod fod falchrydd
Rhad fad fedydd—heidydd heidiaw
Rhys rhos gytfro
Rhag pyrth Penfro yn pebylliaw
Ni lefais neb
Amgylch moreb mor anhuniawg
Na thwyll na thrais
Rhag rhwyf Kemeis camp ardderchawg
Cawfant warthrudd
Gan fab Gruffudd prudd prifaerawg
Rhag twr Gwaliter
Blaidd traidd trymder tra niferawg
Rhag pumieirll taer
Oedd ef yn caer yn gadfarchawg
Un iarll Cernyw
Rhac ein aerllyw eurllaw roddawg
Ail iarll Brytteu
Rhac poft cadeu oedd cadwynawg
Trydydd iarll gwent
Trydydd torment torf gymrwynawg
Pedwerydd dig
Oedd iarll padrig rhac pedryddawg
Pumed iarll Clar
Rhag gwalch gwanar oedd gwareddawg
Lliwgoch tref Ual
Llid brid brenial braidd wafgarawg
Llan Yftyphan
Llyry byry boethfan llwrw bwrw beithiawg
Teulu ryn rys
Teulu taer wrys llys lliofawg
Teulu talfriw
Aeflawr fflamliw rhiw rhuddfoawg
Gweli gwyar
Gwely dayar gwar gorweiddiawg
Gwerin aerlyw
Gwaith gyfeilyw gwaith gyweliawg
Gwen wlad Ewain
A bro brydain a Brycheiniawg

AWDYL Y RUFFUT MAELOR. M. MADAWC.

LLYGAID GWR AE CANT.

Y SYT yn argluyt eurglet ganllau
Yffaut y gynnelu ardelu vrthau
Ys da y gampeu heb guympau yn afyrdul
Yfyaun difygul oe uygythyau
Grymus vthyr yn ruthyr yn anreithyau
Greddyf ddiletyf ddilefe urth gymrau
Gruffut eur dilut duylau egored
Guaur maelaur drefred ged gyfluytau
Goreu kyrchlam ym kyrchu attau
Kanyd hart y uart uod y urthau
Guraul yu y haul yn huylau y gryd
Gur hyfryd yr byd bod y danau
Nyd anamyl y vut heb orchutyau
Nyd etiu heb da dyn y urthau
Nyd anheirt yu ueirt uyrtoet uallau
Nyd annaud tafaud diuyd itau
Araf toruoet teruyn achubau
Aruyt coeluein brein bryneich dreiffyau
Ar oleu ys mev myuyryau y gert
Arureit angert ongyr uriuau

Digitized by Google

Ruyf kyuir ker tir Tyſſilyau
Ruythaus deus diofyn racddau
Ruyſc aerlleu tryleu yn treulyau arueu
A guyr dros uylcheu yn ualch arnau
Ruyl carrec oua cauas yndau
Raud ſaeſſon lladron yn eu lluduau
Ys dir oc uareu ddifuryau pob tur
Ys anaut i ur y arueityau
Drud a glud guladoet ymandau
Doeth a choeth kyuoeth kyſunau
Duys aerguys pouys poed eityau
Detfeu teg tygu oe eurllau
Dinam ddreig dragon eitunau
Diryad cad kedeirn ordduyau
Daun yſſyt yn ſeuyll ganthau
Duu o nef a uo nerth itau

LLYGAD GWR AE CANT Y LYWELYN.

M. GRUFFUT, M. MA. AP GR. MAELOR.

Hanbych well o bell bwyll ardderchawc
O duw yn gyntaf naf niuerawc
Heneuyt dedwyt odidawc dy bar
Aneſcor dy uar uur tormenawc
Ys byt yt arglwyt rwyt rutuoawc
Llywelyn lluyt ueirch aruawc
A chlod a goruod am geiryawc ddyffrynt
Gwrawl hawl hwyſgynt hynt hirlidyawc
A rechdyr ae wyr bynt waretawc
Yt ddreic y weun wayw kyndynnyawc
Ar drewen yn boeth genhyd beithyawc rwyf
Ac ar elſmer glwyf glud uygedawc
Rugyl eryr ongyr angert vreinyawc
Rac ulaen cad cadarn dywyſſawc
Ragod gynhoſſod kyhoetawc colofyn
Ef a dyf gorofyn hyd gaer efrawc
Mab gruffut gleiſrut glod waſgarawc
Mawrddrud afael hael o hil madawc
Mawr beir kyghyweir kynuarchawc yghad
Mawretus dy wlad rad redegawc
A mi mal athro ethrylithawc
Myfyr yw ynof cof cadeiryawc
Prydaf yn ddyfnaf ytt ddeifnyawc powys
Pryduerth dy gynnwys gennhyf nerthawc
Ys keffych ys kyffuryf enwawc
Wrth dy uot uod yn gyuoethawc
Ac yn y gorſſen gorſſawc anrydet
Trugaret gan duw trugarawc

Digitized by Google

LLYMA DEIRAWDL A GANT LLYGAT GWR Y RUFFUT UAB MADAWC.

I.

Hanbych well ruffut ueirt uut uydked
Hael cloduawr eurwawr arwymp gerted
Hyneuyt powys peues uyged hir
Perchen gwir a thir a theyrnged
Poſt prydein vrtein wrt gyhuſſed
Pennyadur llafyndur llaw egored
Pendeuic gwledic gwlad amgyfred naf
Kawſſam ny ut pennaf pan yth aned
Pan uei urwydyr eurgrwydyr aergun
dyged
Yrhod ath alon pan yth holed
A thitheuyn gwychaw pan goched dy par
Ny chaci dy eſgar eſcor lluted
Kiliaw ny uynny yr nep caled
Colofyn cad cadarnuleit lliwed
Kellennic frwythic frwythlawn gored
Kyrt—kertoryon eiduned
Ti goreu rieu rut wiſc ar lled
O gywan amws ar y ganued
Ti ureiſcaf mab dyn o dir cred a wn
Ym prifgyrch pryffwn praff dylyed
Gnawd yt dreic dragon ymddired
Grym yſgwn yſgwyd wyarlled
Dyuod a goruod a gwared ath doryf
Ath deruyn yn lledled
Gnawd yth lys lyſſeit gynnired
Gorulycheu gan valch gyfyued
A metgyrn teyrn tec haelged yn llawn
A lliaws galch doed
Llwyr y gwyr gwrawl dy weithred
Dy uod yn arglwyt eurglawr treured
Y nep ath welo wrth weled dy dawn
Y gan duw gogoned

II.

Gogonyant frwythyant fraethlew gwaewrut
Gogyflawn o dawn yw dy deurut
Gorwymp heirt dy ueirt dy uut neud
adwen
Nad ydyw y dan gut
Gorawenus dreic ar dragon prut
Gwreitrwys emreis dros dreis drablut
Gwrawl hael kedawl cad lofrut arglwyt
Vn eurglod wyd a nut
Eryr teyrnet teyrneit vt
Ar fyrt kyrt kertoryon duhut
Aer yrdang kyfrang kyfrannut
Gwryaf gorofyn lloegyr ae chythrut
Aryf toruoet teruyn heb warthrut
Aruthyr goeluein brein bryneich gyſtut
O vertun gwawr gwychuawr dy gochrut
uylchlafyn
Dy ualchlys nyd ymgut
Anwer lyw luoet dirybut
Enwawc wyr madawc uap maredut
O honawd henyw dadannut
O honaf hanpych well ruffut

III.

Dewiſſaf arglwyt didramgwyt dro
Dywyſſawc breinyawc brynn a thyno
Da gwyr dewiſſaw ae dewiſſo ef
Gwr a gynneil nef ae nerthao
Grym erdrym aerdreic yn deffro
Gretuawl hawl hwyl gynnyt pabo
Gruffut ged ddilut a dalyo powys
Gwrtuar a gynnwys vrowys vranvro
Goruolet y uyrt kyrt ae kyrcho
Goruynt chwetyl kenetyl ae canlyno

Digitized by Google

Gwr a obryn faw heb fo vn troeduet
Nyd mawr oe droſſet neb ny dreiſſyo
Rwyſc goteith pan lwyrweith loſco
Rwyf diuefyl douyt ae gatto
Ry byt urtedic a vrto uy ner
Ny chymer hyder ae adawo
Bolchlafyn lud am dud a derllyto
Balch eryr dewrwyr doryf anoſco [awr
Beilch yw y gadweilch gadarnglo mael-
Breiſclym orwytawr rotyon ymo
Cloduoraf fy naf naws a gryno
Ny byt angloduan y bann y bo
Gwiw yw clod hynod a honno tauawd
Yr aerllew parawd ae dirpero
Diſliſc wiſc waſcawdueirt ymdro
Detueu hael wrth pawb ae holo
Dileſc eurgrwydyr brwydyr bryd ar
gyffro cad
Dioual wlad a wledycho
Dinac loegyr a rac wrawl flamdo
Dewrwalch teyrneit urenhineit uro
Donnyawc yw uy llyw llafyngoch gymro
Ny dwc duw y dawn a roto

LLEMMA BYMHAWDL A GANT LLYGAD GWR Y LYWELYN VAB GRUFFUD[1].

I.

Kyuarchaf y dduw dawn oruolet
Kynnechreu donyeu dinam vawret
Kynytu canu canyd ryved dreth
O draethawd gyuannet
Y uoli uy ri rwyf arllechwet
Rutuoawc vreinyawc o urenhinet
Ryuyg ut keſſar treiſuar troſſet
Ruthyrlym grym gruffut etiuet
Rwyſc urwyſc ureiſc o ureint a dewret
Rut bareu o beri cochwet
Ryw itaw diryaw ereill diret
Rwyt galon golofyn teyrnet
Nyd wyf wr gwaclaw wrth y goclet
O arglwyt gwladlwyt glod edryſſet
Nyd newidaf naf vn awruet a nep
Aneprwyt dagneuet
Llyw yſſy ym ys amyl anrydet
Lloegyr diua o diuefyl uonhet
Llywelyn gelyn galon dachwet
Llary wledic gwynuydic gwynet
Llofrut brwydyr brydein gywryſſet
Llawhir ualch gwreitualch gorſſet
Llwry hylwyt hael arglwyt eurglet
Llew kemeis llym dreis drachywet
Lle bo cad uragad uriwgoch ryſſet
Llwyr orborth hyborth hep gymwet
Gnaws mawr draws am ardal dyhet
Gnawd itaw treityaw trwyddi beruet
Am y wir byt dir or diwet
Amgylch dyganwy mwyfwy y met
A chilyaw racddaw a chalanet creu
Ac o duch gwatneu gwaed ar darwet
Dreic aruon aruod wythlonet
Dragon diheueirch heirtveirch hartet
Ny cheif ſeis y dreis y droeduet oe vro
Nys oes o gymro y gymrodet

[1] I Lywelyn ab Iorwerth, medd. Ll. P. P.

Digitized by Google

II.

Kymrodet uy llyw lluoet beri
Nyd oes rwyf eryoes aer dyuyſgi
Kymro yw haelryw o hil Beli hir
Yn herwyt y broui
Euruut ny olut olud roti
Aeruleit arwreit o eryri
Eryr ar geinwyr gamwri dinam
Neud einym y uoli
Eurgoryf toryf tyryoet o loſki
Argae gryd greidyawl wrhydri
Arwr bar taeruar yn torri cadeu
Cadarnurwydyr yſtoui
Aer dalmithyr hylithyr haeloni
Aryf lluoet eur wiſcoet wiſci
Arwymp ner hyder hyd teiui uetyant
Ny vet nep y goſpi
Llywelyn lloegrwys ueiſtroli
Llew breinnyawl brenhinet teithi
Llary deyrn kedyrn yn cadw gweſti kyrt
Kertoryon gyflochi
Koelvein brein bryneich gyuogi
Kelennic branes berthles borthi
Kilyaw ny oruc yr caledi gawr
Gwr ehofyn y gyni
Parawd uyt metyant met beirt ym ri
Pob kyman darogan derui
O bwlffort oſgort yſgwyd gochi hydyr
Hyd eithaf kedweli
Kan gaffael yn da dra heb dregi
Gan uab duw didwyll gymodi
Ys bo y diwet dawn berchi ar nef
Ar neillaw kriſt keli

III.

Llyw yſſyn ſynnwyruawr rihyt
Lliwgoch y laſnawr aeſawr uſwyt
Llyw deifnyawc llidyawc lledled uyt y blas
Llwyr waeth yw y gas noe gerennyt
Llywelyn gelyn gal ouyt
Llwyrgyrch darogan kyman keluyt

Ny thykya rybut hael rebyt racdaw
Llaw drallaw drin wychyt
Y gwr ae rotes yn rwyf dedwyt
Ar wynet arwynawl dreuyt
Ae cadarnhao ked hywlyt yn hir
Y amdiffyn tir rac toryf oſſwyt
Nyd anwiw nyd anhof gynnyt
Neud enwawc varchawc ueirch gorewyt
Y uod yn hynod hyneuyt gymro
Ae gymry ae heluyt
Ef diueiaf naf ry wnaeth douyt
Yn y byd o bedwar deſnyt
Ef goreu rieu rec ouyt a wn
Eryr ſuawtvn aer gyfludwyt
Cad a wnaeth cadarn ymgeryt
Am gyuoeth am geſyn gelorwyt
Ny bu gad hwyllyad heuelyt gyfred
Er pan vu weithred weith ar deryt
Breiſclew mon mwynuawr wyndodyt
Brynn derwin clo byddin clodryt
Ny bu ediuar y dyt y kyrchawt
Kyrch ehofyn eſſillyt
Gwelei wawr ar wyr lluoſſyt
Ual gwr yn gwrthlat kewilyt
A welei lywelyn lewenyt dragon
Yg gymyſc aruon ac eityonyt
Nyd oet hawt llew aerulawt lluyt
Y dreiſſyaw ger drws deuvynyt
Nys plygawt mab dyn bu donyawc fyt
Nys plyko mab duw yn dragywyt

IV.

Teruyſc taerllew glew glod ganymddeith
Twryf torredwynt mawr uch mor diſteith
Taleithawc deifnawc dyfynyeith aberfraw
Terwyn anreithyaw ruthyr anoleith
Tylwyth frwyth fraethlym eu mawrweith
Teilwng blwng blaengar ual goteith
Talheithawc aruawc aerbeith dinefwr
Teilu huyſgwr yſgyuyl anreith

Digitized by Google

Telediw gad gywiw gyfyeith
Teleto balch a bylchlafyn eurweith
Talheithawc mathraual meith yw dy deruyn
Arglwyt lywelyn lyw pedeiryeith
Seuis yn ryuel diymgel deith
Rac eſtrawn geneddyl gwyn anghŷfyeith
Scuit brenin nef breinyawl gyureith
Gan eurwawr aerbeir y teir taleith

V.

Kyuarchaf y duw o dechreu molyant
Mal y gallwyf oreu
Kloduori or gwyr a geiryeu
Ym penn y pennaf a gieleu
Kynnwryf tan lluch uaran llecheu
Kyfnewid newyt las uereu
Kyuaryf wyf o rwyf rut lafneu yg gnif
Kyuoethawc kynnif kynulaen cadeu
Llywelyn nyd lleſc devodeu
Llwybyr ehang ehofyn uydd meu
Llyw yw hyd gernyw aed garnet y ueirch
Lliaws ae kyueirch kefei nyd geu
Llew gwynet gwynueith ardaleu
Llywydr pobyl powys ar deheu
Llwyrwys caer yn aer yn arueu
Lloegyr breityaw am brut anreithieu
Yn ryuel frwythlawn dawn diameu
Yn llat yn lloſgi yn torri tyreu
Yn ros a phenuro yn ryſuaeu freinge
Llwytedic y einge yn lluyteu
Hil gruffut grymus gynnetueu
Hael gyghor wrth wrth gerteu
Hylathyr y yſgwyd eſcud bareu gwrt
Hylym yn kyhwrt kyhoet waedfreu
Hylwry vwry uar gymell tretl eu
Hawlwr gwlad arall gwledic rieu
Hartet o uonet uaen gaereu dreiſdlwyn
Hirbel ual flamddwyn y flamgyrcheu
Hwyluawr dreic dragon yueteu
Heirt y ueirt yg gylch y uyrteu
Hylithyr y gweleis dyt goleu y uut
Ae uetgyrn wirodeu
Iddaw y gynnal kletyual cleu
Mal arthur waew dur y deruyneu
Gwir urenin kymry kymreiſc donyeu
Gwrawl hawl boed hwyl o deheu

DADOLWCH I LYWELYN FAB IORWERTH.

ELIDIR SAIS AI CANT.

O L. E. D.

Gnawd yr yfawdd glyw gloyw win—o fual
O fuarth buelin
Gnawd cathleu cogeu cyntefin
Gnawd y tyf tywys o egin
Gnawd y doeth cyfoeth cyfyewin
Ni nawd nid llonydd a llwyfin [1]
Hiraeth am ry wnaeth rewin
Braint brodyr gwellwyr gollewin
Broder de braw aele elin
Duw a mair a chwair yn chwerthin
Chwerthid bryd o bryder chweurin
Dothyw llew a lluchyg gorddin
Detholwalch buddugfalch byddin
Llywelyn llyerw freyenhin

[1] *Neu,* allwynin.

Y y

Llary ddefawd llyw gwyrddrawd gwydrin
Nid wyf gynnefawd gynnefin amchwyf
Ni rybum gerddennin
Edrych cyrdd cerddau Talieſſin
Edrych ni mor wyf eddein
Ry ddarfod brau gyfnod Breiddin
Ry ddywawd oi farddwawd Ferddin
Cyſſul ath roddaf oth rin wyd goreu
Gorofn tra nierin
Yftyrych pan dreiſych dros ffin
Yftwng pawb hyd ben ei ddeulin
Bydd wrth wann gyfran gywrenin
Bydd iawn llary[1] wrth gorddau iownllin
Bydd wrddrud aer ddylud ddilin
Dilein Lloegr a llwgr oi gwerin
Trugaredd ath fo oth feipin gaerwedd
O garu Duw ddewin

KYNGOGION OR DADOLWCH.

Llywelyn hyddyn haedd am par cywlad
Cyfluddion Udd keſſar

Om rhoddud rwyſg ufeliar
Da rodd dy fodd heb dy far
Dy far Lywelyn a fu fawr i drwm
Ei drymed am diddawr
Eurdreth o drymyn pob llawr
Aerdrangc gwr ieuangc gwriawr
Gwr gwraf gorſaf gwerſyll Afarwy
Ei fareu am erchyll
Aerllawdd Lloegr lluoedd erfyll
Arfrudd er cyhudd nim cyll
No cholled alaf elw freuner om tâl
Tebygach ym lawer
Heb e fieu neb neuom[1] ner
Oes wogawn[2] hwyldawn haelder
Haelaf oedd Fordaf ath fawrdad am ged
Nym gedynt arallwlad
Eryf llu arwr lleiddiad
Eryr ar gedwyr nam gad
Nam gad i wybraw eb obryn dy far
Oth fawr ehang derfyn
Glew llawr cenedl fawr Ferfyn
Glyw liwelydd Lywelyn

[1] *Neu*, iownllary.

[1] *Neu*, neuo. [2] *Neu*, gwogaw.

ENGLYNION MARWNAD EDNYFED FYCHAN A THEGWARED AP IARDDUR.

ELIDIR SAIS AI CANT.

O L. E. D.

Uwch ben bedd newydd Ednyfed y bum
Ym bu deigr hyd arffed
Cymraw Lloegr cymrwyn lliwed
Cyman ced wychran weithred
Gweithred Tegwared gynt y gweryd llawr
Llawen beird oi wynfyd
Gnawd oedd ei wayw yn waedlyd
O waedlan rhuddai wan rhyd

Rhodwyt ar gymryd oedd ar gyman llu
Llary Ednyfed fychan
Oedd Bann Gawr am ben garthan
Pan gafas aerwas eurwan
Erwan ym galar galan hyddfref ddwyn
Meu ei ddwys ddioddef
Tygiant eidduniant addef
Tegwared Ednyfed nef

Digitized by Google

Nodded nim rhodded rhag rhyſgyr arfeu
Arfod Cai a Bedwyr
Yngorofn trai trais fynyr [1]
Y gwriawr cadwawr cedwyr
Om cedwyr lary ni lawag daer
Duw a wyr eu manag
Gwreſaic [2] pybyl pobyl ofynag
Gwers y mal arall y mag

Or a fag daear hi ai dwg ai phlant
Ai phlaoedd am gorllwg
Bu ron ym am dragon drwg
Dreigioedd amlaen oedd amlwg [fedd
Oedd amlwg aerlladd cyn orllen gwydd-
Fal gwyddfid cylch gwryſgen
Glyw parchfawr amen perchen
Ai peirch Duw dofydd uch ben
Uch ben ys———

[1] *Neu,* nynyr. [2] *Neu,* gwreſain.

AWDL MARWNAD HYWEL AB ARTHEN.

ELIDIR SAIS AI CANT.

O L. E. D.

Hoed an cyferyw cyfarwydd
Yw Duw am ein diheurwydd
Hoeddl dewrwr can deryw ymgwydd
Hydr ei wir am ei waradwydd
Neud oerfedd haulonedd hylwydd
Hylawch cerdd oedd ef yngherthrwydd
Neud araf hywyl peri parodrwydd
Pur wohen diben dibechrwydd
Cyn tewi rywu tywarch glaſwydd
Gloes angeu nid anghyfarwydd
Yſpaid hir haelon yn ei orllwydd
Yſpyddawd oes barawd barthlwydd
Ys bwyf yn oed dyn dengmlwydd ag hugain
Rhag deulin fy Arglwydd

MARWNAD A GANT ELIDIR SAIS I RODRI AP OWEIN.

O L. E. D.

Da ym goreu Mair fal yn maeth culwydd
Celfyddyd waſanaeth
Colofn nef neſtig meidraeth
Meidradur llaſur pob llawnaeth
Lleha fi fy rhi yn rhyolaeth nef
Ith nodded frenhiniaeth
Bendigwa Dews dialaeth
Diwolo ei weledigaeth
Y pum torth ar pyſg paſgaduriaeth gwyr
Gorober ehelaeth
Cyfran deg ei dygiaw a wnaeth
Cyfri llu llydan o bennaeth

Digitized by Google

Cyfraithgar ni gar neginiaeth [1] cyfren
Cyfyw feint yn lywedyddiaeth
Cyfoethau fy rhen nis rhydraeth tafawd
Tan awyr ny hiraeth
Hir ydd wyf oddnwyf yn alaeth
Gwae brydain am briodoriaeth
O golli rhodri neud rhygaeth eirchiaid
Am parchai llu meddfaeth
O golled ym galled mawrwaeth
Gallas drais diredd catraeth

Rhoddiad mad ym prydoedd pan aeth
Rhoddi feirch a meirch marchogaeth
Echwng Lloegr lledgynt farwolaeth
Och Dduw a ddaw ef etwaeth
I yſtwng treiſwyr treiſwriaeth cynnygn
Ynghynif pryſſuriaeth
Dyn yn fyw ni fedd oi arfaeth
Duw a fedd oi fuddugoliaeth
Ernyw af gallaf edgyllaeth ir gwr
Am gorug hynafiaeth
Arglwydd nef nodded ddarparaeth
Argledr hwn ith arglwyddiaeth

[1] *Neu*, negyſiaeth, *neu* ueginiaeth.

ELIDR SAIS I DDUW.

O L. E. D.

Rhaid yw ym dillwng tylluedd preſſent
Canys pryſſur ei hoferedd
Rhedais o bechawd nid bychodedd
O buchiant trigiant i'm trugaredd
Trindod am dycco o'm dygnedd [1]
I'm dogn eidduned wared wiredd
Teiffordd y deuant etifedd ar Dduw
Yn y ddyfydd pawb i'r frawd gyhedd
Uchaf gwyry achaws gwirionedd
Llwry gwyrdawd cyboed rawd [2] rhinwedd
Ac ail yw priawd enw pruddedd
Tros fwyniant trigiant trugaredd
Tri da an go eu tydydd iw adaw
Edifeiriawg da Dwy nyw gommedd
Gomeddws Efa afal ddiwedd
Afar fu iw char ei chywryſſedd
O Ddofydd y traethaf trwy gyhydedd
O leſſu y traethws ioſſedd [Iſrael
Am doethdwy [3] Dafydd am dudwedd yr
Oeſrau y delwy i dangnhefedd

Dydd y parcher rhai yn rhagyrwedd
Y perchir eraill y parch argledd
Cynadl a wna Criſt wedi crogwedd
Cynnadloedd pobloedd pawb i'w orſedd
Cymhennaf yw i ddyn cyn ei ddiwedd
Cymmodi a Duw cyn mud ym medd
Cymryd oedd einym cymodlonedd cwbl
Cyn cablu o Ddw ar ein buchedd
Pechu yr digonſam o gam garedd
Am gyrwyf drindawd dy drugaredd
Meſſur a ddodir ar bob maſwedd
Moeſen ai dywawd a Duw ai medd
Goreu yw i ddyn diw ynyd peri
Periglawr ei gymryd
Canys goreu Duw diwyd
Gwared plant rhag pla a thriſſyd
Gwr darpar y dirprwy lu byd
Garawys cymmerth pwys penyd
Dirfawr fu o feddwl ympryd
Dirweſt Duw bu deugain pryd
Am Ddiw merchyr y brad dybu bryd iudas
Bredychu ein yſpryd

[1] *Neu*, diguedd.
[2] Brawd. Ll. C.
[3] *Neu*, dothyw, doethyw.

Digitized by Google

A difiau ynn dyfu ledfryd
Daly Ieſſu managu mwynglyd
Duw gwener bu crau bu creulyd
Crog ein tad an creis i gyd
Gwnawn erddaw arddewl [1] enenyd
Gwnaeth bob rhyw yn fyw oi febyd
Duw Sadwrn ys aeth ys eithyd ym medd
Maddeuaint anhyfryd
Trannoeth y goreu ail gwryd
Gwirfab Duw dangos ei fywyd
Duw Sul dwyſaf cof awr y cyfyd haul
Cyfodes oi weryd
Chweddl mawr an deffry nid ef dyffryd
Deffro Criſt celi ein celfyddyd
Culwydd an goreu ni ac an gweryd
Argleidraid fab rhad ryhyd o garchar

[1] *Neu,* arddelw.

Bu ef a gyrchws ei arfeddyd
Dug mab Duw o dân ac ergryd
O oerwern Uffern wern wechlyd [1]
O gyffro daear o gyffryd
O garchar anghlaear anghlyd
Aml ſyrthiaſant blant oi blegyd
Am greawdr ai grog yn waedlyd
Wyth brifwyd y ſydd ys enbyd
Or wyth gwyth gwaethaf ſyberwyd
Rygelwir fy naf can gan naf gennyd
Galwaf difro pob dyfryd
Ni bydd dadwoddeu dedwyddyd mab dyn
Gan fab Duw oi wynfyd
Yn oleu ys bo bu fy anwylyd [2]
Ar nef ar nawdd Duw [3] ai ddifryd

[1] *Neu,* gwecklyd.
[2] Ys bo yn anwylyd. Ll. P. P.
[3] Ar nad oedd duw. Ll. P. P.

ELIDR SAIS A GANT YR AWDL HON I DDUW.

O L. E. D.

Dir ſydd ym brofi cyd boed breuawl byd
An bedydd anianawl
Duw Iewin breyenhin breiniawl
Breiniawg wyd bro gadwyd gedawl
Llehaa fi gan llu bedyddiawl
Nam llea yn lle engiriawl
Nam goſſod om goſſeb fydawl
Yn goſſon dyniaddon dyniawl
Criſt a ddaw yn war yn wrawl dyddbrawd
Ir dirprwy preſennawl
A fo da ef gelwir dwywawl
A fo drwg a drig yn ddidawl [1]

[1] Ddhawl. Ll. C.

Yn nhaerdan affan uffernawl
Uffern dywyn [1] ddyfnas ei chanawl
Llawer un a ddaw eneidiawl yn gwaſg
Yn gwiſgoedd corphorawl
Mau ddyddwyn morwyn ymeiriawl
Mair a phedr Maria a Phawl
Meu adrawdd ymadrawdd meidrawl
Udd meidriad medrwyd o waddawl
Y gwr a oreu awyrawl ednaint
Ac adneu daearawl
Erglyw fi arglwydd canhwynawl
Erglywed gwawr nyned [2] neſawl

[1] *Neu,* ddofn.
[2] *Neu,* nyfed, fyned.

Digitized by Google

Tu y bwyf y bo dy ganmawl
Tud yſpryd an tad yſprydawl
Ir tad cyfarchaf rhwydd af fy rhen
Ac ir mab ar yſpryd gloywbryd glân
Nid trawdd im cofiau can ym cyfun
Nid rhaid yn aman llyfrau llen
I Criſt y canaf ar fraint canon
Ceinwawd om tafawd ar draethawd drwn
Llathraid fy marddair wedi merddin
Llethrid a berid o beir awen
Bar ochel uchel uch engylion
Bardd fyddaf i Dduw hyd tra fwyf ddyn
Archaf nawdd mab mair crair crededun
Creawdr ymerawdr llywiawdr llawen
Rhac oerwern gethern Uffern affan
Affleu a nodeu lle annoddun
Lleha fi Dofydd huenydd hyn
Llawer a wna Duw ir dyniadon

Rhwyf nef a daear rhac taerfar tan
Y rhwng dy ddwylaw rhac dy ddeulin
Gorugoſt wormes nith warafun
Gorfawr Dduw gorfod o Iuddewon
Am fedd Criſt creawdr cred yſangen
Ys angraiff angred yn ei gylchyn
Tros elfydd yn byd bid yn erwan
Trais Ieruſalem gan ſy ladin
Ac ail dirglais drais draw a ddygen
I'm ddigawn galar om car cadcun
Dwyn Dofydd oi du ac oi dirion
Dyfrydedd dyrawr hil mawr maelgwn
Hyd ymdeu gwynedd am ei gwynfan
Neud amddwll awyr neud hwyr hinon
Gallaf ith garaf ith gaer urdden
Gellid pob defnydd froydd frenhin
Can wyd tri nid rhaid yt amgen
Can wyt Dau pell goddeu ac un

DIWEDD.

Mae yr awdyl yn dechreu yn T. D. 352. *yn ddarn o bon, neu y gwrthwyneb.*

ELIDR SAIS A GANT YR AWDL HON I DDUW.

O L. E. D.

MAWR o wr ei ddawn a ddyfu ym rhyd
I fryd mab kwas Mair o Ieſu
Mad ganed ei fronged oi fru
Oi freiniawl ganmawl gynnyddu
Ef yn llwyr an gwyr ef an gorwu
Ef goreu gorwyrain a fu
Ef wnaeth daear cyn dywu i fron
Fry o nef i'n canwu
Ef gwnaeth haul hwylfawr lewychu
Ef gwnaeth lloer a llewych or du
Ef gwnaeth trai a llanw a llwyr feddu byd
A bydoedd wledychu
Mor gyfiawn ei ddawn ddarparu
Mor ddigwl i feddwl fynnu

Mynneſynt fradwyr fredychu Criſt
Creulonedd heb allu
Rygellynt galleu anghredu
Yngryd byd ryhyd ryfeddu
Gwnaetham nam arygam rywu
Rhyfeddoed rhyfedd ei adu
Ceiſiaw rhag culwydd celu
Plant Addaf rhag addef i bechu
Ac Efa ac ef ai gwybu
Gwybid Duw gwybod a ddarfu
Goreu ym o'm rheen rhagfeddu
I hwydd araith o brifiaith brydu
Pryd'deſtawd wawd or trindawd traethu
Cymmhennaf yw ynn cymmhennu a Duw

Digitized by Google

Diwydwr ym nerthu
Nerthoedd gwyth gweithredoedd am bu
Gwaith dedwydd yw dadolychu
Cyn cyſtwng clwyf cyfrwng claddu
Cyn gweryd gorober digu
Cyna nnaws tywaws tywarchu fyng-
hnawd
Tywarchen o bobtu
Bwyf gwas Duw cyn nom goſtegu
Gwſt angen angeu riallu
Bwyf unfod woſſod waſſau
Oe weiſion iw waſanaethu
Am dyfynno Duw ym dyfynnu nef
Ar ei nawdd ai deulu

AWDYL DDUYVAUL.

ELIDIR SAIS AI CANT.

O L. P. P.

Brenhin gogonhet breinyaul y ueithret
Ny cheit oe barthret na phlet na phla.
Pei na unel —— hei vegys y harchei
—————— rei ryvaur draha
Torri ygguahardon a chynnal lladron
A threiſſau gueinon gun nath dykya
Druc vyd or diued dirper y gamued
Druy valch oer reuued ryvic nyt da
Yſtyr di enuir heruyd a treithir
Gan dduu ny cheffir dim cynirha
Eithr guiryoned a guâr tangneved
A guir drugared val y gueda
Edrych dy vuched kyn myned ith ved
O gunaethoſt gamued na ryveda
Bot yn dir talu ger bron yr leſſu
Lle y guelo trillu y trallaut a una
Guae i'r ſaul a gredan os camued a unan
Yr tuyll nyt truan a divlanna
Ac ny medylio a ruy dirpero
Y ruyf a gaffo nyt ymgoffhâ
Cyt boet gyvanned bydaul gymmyrred
Guledd guneir enrhyded uned a una
Gueleis Lyuelyn luoed eil Mervyn
A chymry tervyn yn y tyrva
Gueleis bennaetheu guyned a deheu
Colofynnan cadeu cyd orſedſa
Gueleis uyr yn trin a meirch myſterin
A guin a guerin a guaruyva
Gueleis lioſſyd a chyved beunyd
A byt ar gynnyd gynnif guyrda
Hynny aeth heibyau mal ymchoel dylau
Mae paub yn adau oet dibarha
Ny cheiff cyvoethauc vot yn hir hoedlauc
Vuy no chynwinauc na chynhenna
Yſtyryeit pan vo rac poeneu a gro
Ba beth a geiſſo beth a gaſſa
Keiſſet pob detuyd y uled ny dervyd
Lleuenyd llonyd ffyd a ffynna
Na cheiſſet hocket truy gam gyhudet
Nef yn y thecket kan nythyckya
Pan luyr vedylier penyt pryt pryder
Pan gam edyllder over Eva
Nat oe gammoed ef yd aeth Argluyd nef
Y pren diodef edyl traha
Guae nyt mat anet bechodaul ueithret
Toſted vyd guelet goluc luyrdra
Dangos ffrouylleu ae holl archolleu
Ae gethreu ae greu ae groc a una

Digitized by Google

Hynn a unaethum i beth a unaethoſt di
Med Criſt Celi rhi reid oed yna
Bod gleindyt paraut yn erbyn Duydaut
Rac trallaut pechaut devaut diva
Guae uynt y kebydyon ar hocket dynyon
Ac camvedylyon nyt adola

Guelet eu madeu dros eu camuedeu
Yn uffern boeneu benyt gudva
A guelet mynet i nef ogonet
Y ſaul a gaffet ar gyffurf da
Y gan leuenyd y uled ni dervyd
Yn dragyuyd ryd rat gymanva
Amen.

AWDL I DUW [1].

ELIDIR SAIS AI CANT.

O L. P. P.

Er mab cyſarchaf ruydaf vy reen
Ac yr tat ar yſpryt gloyubryt glan
Nyt haud yn kofyau kan ym kyvun
Nyt reit ym ammeu llyvreu llen

Y Griſt i kanaf arureint kanon
Keinuaut om tavaut ar draethaut drun
Llathreit vy mardeir uedy Myrdin
Llethrit a berit o beir awen

Barochel uchel uuch Engylyon
Bard a vydaf i Duw tra vuyf dyn
Archaf un mab meir creir credadun
Creaudyr amheraudyr llyuyaudyr llauen

Rhac oeruern gethern Uffern aphan
Afleu anodeu lle anodun
Lleha vi Dofydd huenydd hyn
Llaur a una duu yr dynyadon

Rhuyf nev a dayar rhac taerfar tân
Y rug dy deulau rac dy deulin
Gorugoſt ormes nych warawn
Gorvaur Duu gorvod o Idewon

Am ved Criſt creaudyr nef ys aghen
Yr agkreiff agkret yn y gylchyn
Tros elwyt ynvyt yn erwan
Treis ſerfin gan Sylatin

Ac eil dirgleis treis trau a Dygen
Ym digawn galar am kar katgun
Duyn Davydd oe dud ac oe diryon
Dyvryded dirvaur hil maur Maelgun

Nyt ynteu Guyned am y guynfan
Neut amdull auyr neut huyrmon
Gallaf yth garaf yth Gaer urden
Gellit bop devnyd vroyd vrenin

Kan wyt tri nyt reit itt amgen
Kan wyt deu pell godeu ac un

II.

Reit yw ymddillung tyllwedd
Preſſent canys pryſſur y hoveredd
Redeis o bechaut nyt bychodedd
O vuchant trigyant ym trugared

Trindaut am dyeko om digued
Yn dogyn eiddunet waret wired
Teirfford y deuant etived an Duw
Yn y dyvyt pawb yr vraut gyhedd

1 Ac i goſio Angau Dafydd ap Owain Gwynedd dybygwn: ebai E. Evans.

Digitized by Google

Uchaf guyry achaus guiryonedd
Llury guyrdaut kyt boet braut rinuedd
Ar eil yu priaut enu pryded
Tros vuynyant trigyant trugared

Tri da angoreu tryded yw[1] adaw
Ediveiryawc da Duy[2] nuy gommed
Gomeduys Eva aval diwed
A warvu wychar y chywryſſed

O Davyd y traeth truy gyhyded
O Ieſſu y traethwys loſſed[3]

Am doduy Dofydd amdudued
Yr Iſrael oreſan y deluyf y dangnefed[1]

Vyd y parch rhei yn rhagyrwed
Y perchir ereill y parch Argled
Kynnadyl a wna Kriſt wedy crocwed
Kynnadloed pobloed paub yw orſed

Kymhennaf yu i ddyn y diued
Kymmodi a Duw kymmut ymed
Kymryt oed einym kymotloned
Kwbyl cyn o cablu Duw ar aubuched

Pechu yr digonaſam o gam gared
Am gyruyf drindaut drugared
Meſur o dodir ar bob maſwed
Moeſen ae dywawt a Duu ae med

1 *Neu,* ir.
2 *Neu,* Duw.
3 *Neu,* i oſſedd.

1 Am doethdwy Dafydd am duedd yr Iſrael—Oeſran y delwy i dangnhefedd.

Awdyl ar ei phen ei hun yw o riv II. *o hon yn.* Ll. E. D. *ac yn decbreu val hyn—Rhaid yw ynndillwng tylluedd preſſent—Canid dim (ym) pryſſur ei hoferedd.*

AWDYL I'R GARAWYS[1].

O L. P. P.

Goreu yw y dyn div ynyt peri
Periglaur y gymryt
Canys goreu Duw diuyd
Gwared plant rhac pla a thriſtyt

Gwr darpar y dirpruy llu byt
Garawys cymmerth pwys penyt
Dirfaur vu o vedul impryt
Dirueſt Duu bu deugeinpryt

Am Duw Merchyr brat dybu bryt Idas
Bredychu yn yſpryd

A diſieu yn dyvu leduryt
Daly Ieſſu managu muynglyt

Duu guener bu creu bu creulyt
Croc an tat an treis y gyt
Gunaun yrddau ardelu enenyt
Gwnaeth bob rhyw yn vyw oe vywyt

Duu Sadwrn ys aeth ys eithyt ymedd
Maddueint anhyvryt
Trannoeth y goreu eil guryt
Guiriaw Duu dangos y vyuyt

1 *Canlyniad yw hon o yr awdyl yn* T. D. 348. *yn* Ll. E. D.

Digitized by Google

Duw Sul duyſſaf kof aur i kyvyt heul
Kyvodes oe ueryt
Chuedyl maur an deffry nyt ef deffryt
Deffro Kriſt Keli ankelvydyt

Kuluyd an goreu ni ac an gueryt
Argleitryat vab rat ryhyt
O garchar bu ef a gyrchuys y arvedyt
Duc mab Duu o dan ac ergryt

O oerwern uſſern wern weglyd
O gyffro dacar o gyffryt
O garchar angklacar agklyt
Aml ſyrthiaſſant blant oe blegyt

An greaudyr ae groc yn waetlyt
Wyth brifuyt y ſyd ys enbyt
Orwyt guyth guaethaf ſyberwyt
Galwaf vy Naf can gannaf gennyt

Ni byd daduodeu deduydyd mab dyn
Gan vab Duw oe wynſyt
Yn oleu ys bo yn anuylyt
Ar nef ar nad oed Duu ae diffryt

E. Sais.

AWDL I DDUW 1.

O L. P. P.

Gogonaul Argluyd gogonaul
Gogonet vrenin Deuin duyaul
Differ vi vy ri ruyf yſprydaul
Deui Argluyd bu drigaul 2
Divei dat rac brat breuaul gymlegyt
Dygn enbyt benyt boen uſternawl
Donyauc didriſt griſt groes rinuedaul
Didlawt ynguaraut dyd gueneraul
Diuyt luyd aruyd ciryaul ydyttuyf
Na buyf arnaf 3 royf ruym engiryaul
Arbennic lyuyaudyr brynyaudyr breinyaul

Erbynieiſt llyuieiſt llu bedydyaul
Erbyn vi vy llyu yn lle dedvaul
Guyrtheu yr dy doſt gethreu ath dyſt gythraul
Argluyd Nef a llaur guaur guerinaul
Ardelnaf o'th nawd rac taud tanaul
Eiryf gynnuy 1 gorduy angerdaul Uffern
Oer hagyruern gethern gaethraut varuaul
Yr dy gur dolur modur meidraul
Argledyr gogonyant guarant gwraul
Erglyu dic tlaud 2 yn gnodaul erchi
Trugared itti ſy rhi reuvaul 3

E. Sais.

1 Gualchmai *a'i cant, medd rhai.*
2 Dewr arglwyd hylwyd hael budugawl. Ll. D. D.
3 Arnad. Ll. D. D.

1 Gymwy. Ll. D. D.
2 Tlawt gnawt. Ll. D. D.
3 Roduawl. Ll. D. D.

Digitized by Google

MARWNAD CEDIFOR AP GENNILLIN.

LLYWELYN FARDD AL CANT.

O L. E. D.

CEDIFOR eurgorf o Argoed pan oedd
Arf cyhoedd cyn addoed
Ynghydwedd gyfedd gyfoed
Ynghydfoes eirioes erioed
Erioed i'm dyfu dyfal dreth angau
Un diau diameth
Hoedl breyr breuawl o beth
Bron wala ei wahalieth
Gwahalieth wofgedd wafgawd prydyddion
Pryderus ywn defawd
Fy ngherdd yn ôl fy ngheudawd
Ynghaniad marwnad mor nawd
Mor nawd i'm dyfu diofaeth gofion
Y tirion oed hiraeth
Yn cwynaw braw breuolaeth
Breyr breenhin a faeth
Magyffai erfai ar ruddion trydar
Trydy ran fy nghofion
Edlid hil gwythlid gwaethlon
Edlaes maes wedi maon
Maon Meirionnydd mor ddihaidd eich bod
Heb arfod heb aerflaidd
Ac eich byd byth ar ddiwraidd
Mal y bydd beinw wedi baidd
Wedi Cedifor cad farchawg a faif
Sefid Duw gan Fadawg
Hirwalch balch bwlch ei rodawg
Hil hoedliw boed hir hoedlawg
Hoedlfyrrion haelion hil Bleddynt
Trwm arnaf eu lleteynt
Fal y deryw y deryut
Fal y derfydd gwydd rhag gwynt
Gwen yfgor Feirion Feirionydd hygar
Ai hygor gyweithydd
Hoed a'ch dwg ŷch digerydd
Haid heb fodrydaf hu fydd
Ni hu wyf lawen o lawer achaws
O achwyfon pryder
Am ynghof ynghwyn ofer
Am ynghymmwyd ynghymer
Cymmerais ei aur a'i ariant attaf
A'i atteb arddunant
Ni'm oes nawdd rhag cawdd coddiant
Nid oes neb yn y bu gant
Ni bu dygyflu digyfludd am rodd
Am rwydd fodd am rwyddfudd
Tad mad magawd gwawd gwaywrudd
Tad macth myged Maredudd
Maredudd gardd gudd gerdd gor gynnifiad
A fu dâd y dûd îor
Neud gwydd-fedd gwedî gwydd fod
Neud gweryd cyd Cedifor
Cedifor eurgorf &c.

Digitized by Google

LLYWELYN FARDD A GANT YR AWDL HON I YWAIN AP GRUFFUDD AP GWENWYNWYN.

O L. E. D.

Clod yſgain Ywain clod yſgain
Yſgwyd ddrud dylud dyliffain
Clwyf iddaw ni ddaw ni ddam wain gorofn
Cleu eofn golofn aur ei goelfain
Clud gamlan cynran ofil cynrain
Mal cludno eiddin prif gyfrin prain
Cler yſgwn llafndwn orofn Llundain lawr
Arwr mawr[1] prydfawr warant Prydain
Aer bybyr eryr dewrwyr dwyrain
Aer-gyfrwy gyfrwydd orwydd arwain
Arwydd na elwir yn elain feddiant
Arddelwawg hydd gant cwbl foliant cain
Erddrym ced wychrym cadoedd achwrain
Urddud ni blygud yn awr blygain
Wrth ofwy arlwy eurlain teyrnedd
Eurgledd gwr gywedd gwyar gywain
Mab Gruffudd didyb Udd dadiain
Myfyr nad didraul molawd didrain
Wyr Gwenwynwyn wyn a wna rhain gorpheu[2]

[1] *Neu*, wawr.
[2] *Neu*, gorphen.

Bleiddau y gogen[1] ain ei gigwain
Ef Nudd ced ddiludd cedyrn ddilain
Eur-frenhin cywrennin cywrain
Ef ddeddfau gorau goradain cenedl
Pan ddoeth cychwedl am lwyth Cichwain
Rhyſſwr parch perchen march archfain
Rhyſedd balch cyflymwalch celain
Rhwyſg eurgor cyngor yn y cyngain ddawn
Rhydd alaf ddigrawn alon ddigrain
Rhi rhuddbar cyfar cyfwyrain
Ryn ddiorddin Brynaich ran orddawn brain
Rhifir i ddewrllwrw rhyfel ddarllain gledd
Rheufedd nid rhyfedd hyd yn Rhufain
Rhif pybyr eryr arwyrain
Rhwyf difradw rhwym achadw mechain
Rhybudd drud ardud golud gwylain blaid
Mal y daid i'n rhaid yn rhyd angain
Rybo Duw rebydd ddadwyrain
Rhy garawr daerwawr darywain
Rhwydd ynni roddi main ei anwyd
Clwyd yſgwyd clod yſgain
Clodyſgain ywain &c.

[1] *Neu*, gogeu.

Digitized by Google

LLYMA ENGLYN A GANT LLYWELYN VARDD CYWRYD

I OWAIN VYCHAN AP MAD. AP MAREDD

AM DYBIAW ARNAW ORDDERCHU EI WRAIG.

O L. E. D.

OS hŷn fyddaf naf neirthiad
No thi Fechain ri roddiad
Arfaeth yw gennyf arfau gyrchiad deuryd
Dodi dwfr ith farwnad
Yna dodes Ywain ei anfodd ar Lywelyn fardd ac y cant yntau yr englynion Dadolwch hyn.
Ni hepgoraf fy rhwyf hyd Rufain ygwys
Goreu gwas ym Mhrydain
Na dal nad elwyf Fechain
Er delw aur deulu Ywain
Teulu Ywain lain lonyddwch i'm cerdd
I'm cynnelw yd fyddwch
Diriaid ni hawdd baid heddwch
Dedwydd a gar dadolwch
Caraf neirthiad naf a nertho fy null
I'm dillwng arallfro
Ni wna draig dragon wylo
Ni wnaeth drwg ai diwycco
O dywedais drwg o dramgwydd synwyr
Oawyr ymawydd
Dywedaf o'm diwydrwydd
Difwyn ei far i'm harglwydd
Galwaf Dduw arglwydd am arglais Ywain
Llyw coelfain Coblingdrais
Heddwch ym am a genais
Heidding Fair fal y haeddais
O haeddais ai clais ai clwyfiant rhyfedd
Ai rhyfel am peiriant
Haeddaf om cerdd cyrreifiant
Gnawd i hael haeddu moliant

Moliant a ddyly aur ddilydd roddiawg
Hil Madawg medel glyw
Hael Merfyniawn leifiawn lyw
Had heb ladrad heb ledryw
Ni bu yn lledrad ar lledryddion wyr
Yr orwydd ar Saefon
Yngharnial meirch marchogion
Yngharneddau tau teon
Neud tau or barau a berydd ymplaid
I'm plygu heb ddefnydd
Ai Cardd ai Cerdd o newydd
Ai cabl ai cwbl garennydd
Cerennydd ydydd y daeth Mair yn wyry
I wared a'm an pair
Archaf ytt atteb diwair
Eryr ongyr er ungair
Eryr arbennig ar ben aneirw wyd
Neur orwyd neu wyr meirw
Bydd lary wrth lannerch y ceirw
Bid dy lid wrth lys Demteirw [1]
Na littia wrthyf wrth adrodd dy glod
Dy gleddyf o drithawdd
Na'm gwrthfyn wrtheb anhawdd
Nawdd Duw yn eich cylch calchdoed
Ywain—circhion Cain eich Canred
Erchwch ym pair can air ced
Archafi udd naf nodded
Archaf i'r goreu ungwr nid ofer

[1] *Neu,* deinteirw.

Digitized by Google

Cyfrwng nef ac elfydd
Caranfael [1] hael hefelydd
Carannawg walch carennydd
Cerennydd fy Rhwy nid rhawch ei erchi
Gnawd gan rhi rhwydd ardawch
Gwaed gan lu ar lafn dwynwch
Gwae a gawdd llew ac nyw llawch
Llochiad gwlad hygad bydd hygar wrthyf
Nai'n gwrtheb yn anwar
Am rhodd fedd feiddiad trydar
Am rhodd fawr fawr fodd na'm rhodd far
Os bar hir efgar hwyr efgor a fyn
Hebawg brynn a bronddor
Ni hebaf gan ei hebgor
Ni hepgyr gleifiad glas for
Ni hepgoraf &c.

[1] Caranfael oedd fab i Gynddylan mab Cyndrwyn o Lys-tynwennan yn Mhowys.

AWDWL A GANT LLYWELYN VARD Y LYWELYN VAB IORUERTH.

O L. D. D.

Handid uyg gyftlwn nas gwn nas gwys
O veirt yfpydeid yfpeid yfpys
Handwyf huawdyl was a wys yn llys
Val ymarwar llut a lleuelys
Handid uy arglwyt kyfrwyt kyfrwys
O ryw diamryw diamryuys
Handwyf mor ehofyn diofyn dilys
Or nennbren a deily y deu yftlys
Handoet dy achoet o vchelwrys
O echen lawen wrth lef a gwys
Handoetud or llin ar llyfyn emys
Kyuarwyt uy llaw yn eu llewys
Handoet im om kert nyd cart vegys
Nyd dawn angyflawn nac angyflys
Handyuyt eryr clwyd clod enwerys
Rieu diamheu diamebys
Handythuagwyd peuyr yn penn erchwys
Yn oreu keneu kynon vegys
Handym veirt heirtyon haelon hwylurys
Am hil ywein mawr mae ae dengys
Handwyd lywelyn lwrw ddiechrys
O lary uab cafnar llachar lluchvrys

ARWYREIN OWEIN.

LLEWELYN VARD AE CANT.

O L. D. D.

Ardemyl gwir ar tir ardwyreaf
Ardymyl gwyr eryr yt yth uarnaf
Ardwyad cadeir cadyr yth welaf heno
Arwreit gymro gymradw mordaf
Arwred a wed aweinydaf
Arwyrein ywein a gein ganaf
Arwymp vyn traiferth
Ar uy ner uy nerth

Digitized by Google

Ar orwydawd berth yd ymborthaf
Ar porthloed toruoed achoed vchaf
Ar pyrth agoret trwydet treidaf
Treideis a gereis ae [1] garaf heuyd
Hawd y vyt y pryt a bryderaf
Hawd y bo balch gymro a gymrofaf
Hawd bwyf heb uy rwyf ny rybydaf
Yſſit im cniwet aeiniwaf wrthaw
Y liwaw rac llaw rys llauaſſaf
A heno hynny ny gyffroaf
Nys kerydo duw nys kerydaf
N. keryd a ryuyd ny ryuedaf y uot
O gyfanot clot yr clut alaf
O gouynnir pwy py ryd vwyhaf
O ſſaffun as gun nas guaedaf
Saffet attaf ys daw attaf y dawn
Ot wyf anuodlawn bodlawn vydaf
Bydinawc varchawc ueirch anaraf
Bod duw a gaffwy a goffaaf
Twryf torof traeth llychwr milwr molaf
Mal yth rygeiſeis yd yth geiſaf
Na chredet pen ket kadarn gyhudet
Credet y tecket y dywedaf
Credadun gatkun orun wraf
Cret ve geir om peir perit attaf
Parawt vyn traethawt nys gnawt traethaf hebot
Trethtumot troſglot trawſglwyd vwyhaf
Dothwyf eithyr gwyned a ryued pa ham
Heb digoni cam heb nam arnaf
Dygyrcheis i powys pennes teckaf
Ar uadawc mynawc mynyt caraf
A mi neud ethyw llyw glyw glewhaf
Yn rin hael uron urenhin or llin llaryaf
Eſgor dor durdor diar
Yſgwn cwdedyw ny uu cwdaf
Dothwyf attat uat a gatwaf

[1] *Neu*, ac; ac a?

Y gyrchu kyghor goror gwraf
Py arglwyd gwlatlwyd y gwedychaf idaw
Pa le dros anaw yd aſſwynaf
O chaffaf dewis hyt y guaſſaaf
A dewiſeis gynt a dewiſſaf
Y gwr a dewiſir or teir geir taf
Hyt yn y gartref yn trin penhaf
As dewiſſo duw y diweiriaf or gwyr
Eryr porth wygyr wychyr uchaf
Eryri getwi gat olyſcaf
Eryres ormes trachwres trechaf
Eryueis dy win oth wen adaf diwed
Eryuaf dy ved dy uod a wnaf
Eryuant anant
O eur o aryant
Yth lys les milcant
Yd ant yd af
Dragon dreic wyned
Dragon o uonhed
Ar hed ar dyhed
Nyth gomedaf
Mi a uum genhwch can awch barnaf
Ar tir deheubarth diheubyrth naf
Mi a uum genhwch
Ny haedeth i hedwch
Ynyt uydei trwch
Ny bei trechaf
Pan uu gyfaruot ymodrydaf
A lluoed lloegrwys pwys diffwyſſaf
Or ſawl y doethant
Seithmil a ſeith cant
Syrthyaſant cnwſſant
Anant anaf
Hanpych guell anaw pell guellwell yth wnaf
Hanpwyf gwell inheu nyth amheuaf
Ny bo guaeth eu ran y rei eithaf oth lyw
Nor rei ar deryw or toryf neſſaf
Ath wyr yth orchymynaf
Yr haeluron vchot vchaf

Digitized by Google

CANU Y GADUAN.

LLYWELYN VART AE CANT.

O L. D. D.

GWERTHRUIN dewin duw ym gwared
Gwerthuawr briodawr gwawr gwaredred
Wrth y uot ym rwyf am roted awen
Awdyl dec dygheduen amgen ym gred
Am gyrwyf caru canu kanred
Can am rotes uy reen rec eituned
Kan am ryt douyt dogyn nothaed ym ran
Y uoli caduan kedwyr noted
Kedwis gwir y dir ae deyrnged
Kedwis gwr arwr arwymp drefred
Kedwis duw vrtas
Yn wr ac yn was
Y uab Eneas
Eurwas uyged
Kedwir nenn vab gwenn a vad weled
Kadwent nerthnawd nerth[1] am kanherthed
Poed kanhorthwy duw ym dyhuted annyan
Envyſc dyſc ditan wahan weithred
Y wueuthur llafur ny bo lluted
Myn na lleueis treis traſglwy uyned
Myn na lleueir dyn dwyn eiſhywed or llann
Ger glann glas dylann oe dylyed
Myn na lleueſſir dir oe daered
Men y llauaſſaf oes darymred
Teir allawr gwyrthuawr gwyrtheu glywed
Yſſy rwg mor a gorwyt a gwrt lanwed
Allawr veir or peir hygreir hygred
Allawr bedyr yw vedyr ydyrvolhed
Ar drydet allawr a anlloued o nef
Gwynn y uyd y thref gan y thrwyted
Gwynn y uyd a uyt o nothaed
Men y tric gwledic gwlad ednywed
Gwyn y uyd y uryd a vawrhaed yndi
Ual eglwys dewi y digoned
Eglwys gadyr gaduan gan gynweled
Eglwys wenn wyngalch wynhaed
Eglwys fyt a chreuyt a chred a chymun
Ual wrth duw eu hun y dyrlunhyed
Llunywys y dews dewiſedryd itaw
Pan doeth o lydaw ar lydu bedyt
Bendigedic uab ny uaeth keryt
Ys bendico duw dwywawl weinyt
Bendith nawrat nef yny drefyt
Bendigedic uro ureint gynnhewyt
Bendigeid a deith oe gyweithyt
Pan doeth yr kyuoeth beunoeth beunyt
Pan dyfu chwant ſyllu ar eſſillyt
Ymber aber menwenver vcher echwyt
Vchel wawd yw honn y veiryonnyt
Vcheluart ae pryd uegys prydyt
Vchelwlad gaduan myn yd gyduyt
Breſſwyl vchel euegyl nwyl[1] ouyt
Ar vagyl uerth werthuawr wyrtheu newyt
A llut yr gelyn lat y gilyt
Ae harglwyt gwladlwyr gwlad lewenyt
A wna y notua yn da diwenyt
Eil oſuran gyfan aeſwan oſwyt
Aeſſawr hael orwawr ar hawl oruyt
Ae habad rotyad rad ry dyryt
Attann rydyrrann oe lann lluoſſyt
Ry dylyf kynnyf kan uot douyt
Rod gynuan voruran rwyſc dydaudyt[2]

[1] *Neu*, uerthnawd uerth.

[1] *Neu*, uwyl.
[2] *Neu*, dydan dyt.

Digitized by Google

Ry goruc duw dev heuenyt oe ffleid
Effeirieid hyneid hynaws yſſyt
Ny deffryd y uot a dan glodryt
Dyffrynt diledkynt di ledkreuyt
A chadw croc ached a choydyt
Achor mor ae aruor a goruynyt
Mor elw uy ghynnelw yghyuor lliaws
Yn llwybyr maws achaws vchel dymhor
Vchelloc yw honn rac bronn breiſc yor
Vchellann gaduan ger glann glaſuor
Ny chollir oe thir nac oe thewdor
Annhet: troeduet yr dyhet dihawt hepcor
Ny lleueis nep treis tros y yſgor
Ny chymwyll nep twyll tyllu y dor
Ny chymu rwyf llu allaw gyghor ygawr
Ny chymyrth aeſſawryr vn eiſgyor
Na cham leueryt ar lid echdor
Ny chablwyd yſgwyd ar yſgwyt yor
Ny chablaf uy naf yny achor uaran
Bangeibyr gadw gaduan uegys bangor
Y chreiryeu ban-gleu bann glyhwitor
Y chert y chynrein y mein marmor
Y gwyrthyeu goleu gwelhator beunyt
Y gwerthuawr edryt edrychator
Y gorthir y gwir yny goror
Y chlod y haruod yny haruor
Mor yawn yw om dawn ac om dirnad
Dedwyt goffau douyt om newyt nad
Can rotes ym rann ueirch cann kynwad
Can am coffawys pan rannws rad
Koffav yeſſu yſſy bwyllad ym bann
A moli caduan gan y gannyad
Molawd a dyrllyt kedwidyt cad
Yawn yw moli ri a uo rotyad
Moladwy vn duw vn diffynyad yſſyt
Y meiryonnyt ryt rot gygwaſtad
Molidor y chor ae chelyfrad
Ae chert ac chedwyr ae llyr ae llad
Ae llann ger dylan ger glan dylad heuyd
Llwytyd y gweryd ae hyd ae had
Llwytyd gwir a thir yn y threfad
Llwytyd gwlet a met a menet [1] mad
Llwytid pob amhyd a phob amad yndi
Llwytid ym uoli uilwyr neirthyad
Llutedic uyghert yghynrabad
Lluvydon a berthon parth ac attad
Llawen duw douyt dyt yd gaffad caduann
Agored y wann y wenn aghad
Ef goreu gwyrtheu wrth y gennad
Dillwg tan yman y mewn dillad
Ef warawd ball a gwall a gwad
Bendigaw gwynnyr ae wyr ae wlad
Ef a wnaeth y uaeth ual ygnad adef
Ef gymerth nef dros dref y dad
Deu wr a volaf ual ym kennyad douyt
Deu dec deu dedwyt deu ryt rotyad
Deu doeth yghyuoeth yghyuaenad
Deu gu deu gyueith deu wyn ueithad [2]
Deu a wna gwyrtheu yr goleuad racdud
Deu dilut y but yr bot eirchyad
Deu gefynderw oetynt ny verwynt urad
Caduan y gadw llan ef a lleudad
Kadyr y keidw kaduan glann glas weilgi
Kadyruab eneas gwanas gweti
Kadyruryn yw tywyn nyd yawn tewi ac ef
Kadyr adef nef eil y athreui
Kadyr ydy kedwis ger diſſynny
Kadret a llaryet a llary roti
Kadyr hwyſgynt oruynt oruyrthi tewdor
Kadyr yſgor aruor arnot [3] yndi
Aruetyd yw ym bryd prydu iti
Aruaethwn dyffwn dyffrynt dyui
Ar a vynnwy duw nyd egrygi itaw
Arucitaw treitaw trac eryri
Aruaeth ehelaeth wrth y holi

[1] *Neu*, menet.
[2] *Neu*, neithad.
[3] *Neu*, aruot.

Digitized by Google

Arueu o deheu bareu beri
Arwyn oe drwyted kyn noe dreghi ydoet
Yn cadw rac kyhoet anlloet enlli
Vnllogawd yſſyt herwyt heli
Lleudad a chaduan yny chedwi
Llyre werhydre wrhydri lliaws
Hydraws hydreit maws a mynogi
Yſſyt lann landec y menegi
Y meiryonnyt wlad mad y moli
Molaf duw vchaf archaf weti itaw
A threitaw kyn taw a chyn tewi
A threitlan gaduan gadyr a threui
A threitle haelon haelach no thri
A threuyt herwyt herwyr wrthi nyd moes
Ac nyd oes eiſſyoes eiſſyeu yndi
Namyn heirt a beirt a bartoni
Namyn het a met y mewn lleſtri
Namyn hawt amrawt yn ymroti a bart
A gwyr hart heb gart heb galedi
Ac eurgrawn a dawn a daeoni
Ac eurgreir kyweir kywiw a hi
Ac angert a chert a cheinyedi llawen
Ac amgen yw yn llenn a llann dewi
Ac am gylch y chlawt y chlas gofri
Ac amgyrn o dyrn adurn weſti
Ac amgant lliant yn llenwi aber
Ac amſer goſper goſbarth weini
Gwenifyad ny[1] nad am rad am rann
Gwenniueid oc bleid keinyeid kaduan
Kedwyr o du myr o du morlann
Vchel yn cadw eu ryuel nyd ymgelan
Deon meiryonnyt eluyt eiluann
Daw gantut eu but parth ac attann
Dewiſſeis uyghert yghynuaran kynnif
O dv llanw a llif a llef dylann
Dewrwr a uolaf a uolant veirt byd
Dewrwyr a weryd penyd pob gwann
Donnyawc bedrydawc o bedrydan
Donnyeu diamheu detueu ieuann
Ytra uo ef yn nef yny wengan gadeir
Yn ben ban lleueir yn beir eiryann
Cadwedic uygwawd yw logawd lann
Cedwid duw dewrdoeth cyuoeth caduan

[1] *Neu*, vy.

ARWYDDION CYN DYDDBRAWD.

LLYWELYN FARDD AI CANT.

O'L. E. D.

Gwyn gwarandaw di ar ſynhwyr
A draetha y llyfrau mor llwyr
Gwyrthau golau gweilhator dyrchafael
mor hyd awyr
Morudd meidrawl ei ddefawd
Oblegid Duw ai dywawd
Maint yr arwyddion a ſydd punthegfed
dydd cyn dydd brawd
Y pedwerydd dydd ar ddeg
Yd gyrch mor mawr attreg
Yn nyfnder daiar dremynt
Fal nas cyrraedd gwynt gwaneg
Trydydd ar ddeg trwy deithi
Mawr uthredd gweled gweilgi
Pryd pan eler i'w ſylli
Nad ym men yd fu yd fi
Deuddegfed dydd Duw digawn
Anifeiliaid mor mawr ddawn
Y daw pob pyſg o'i odeb
Hyd ar wyneb yr eigiawn

Digitized by Google

Undegfed dydd certh ceugant
Creaduriau yd grynant
Rhac ofn diliw diarchar
Adar daiar dirweſtant
Degfed dydd herwydd anian
Ni aill dyniaddon diddan
Mor ddiffaith ni's ryddiffawdd rhag maint ffrawdd ffrydiau tân
Nawfed wedi degfed daw
Duw ei hun yn ei luniaw
Ufeliar tân drwy yſgyr ergyr or ſŷr yn ſyrthiaw
Wythfed dydd dybydd dyar
Deddfau diau diarchar
Dygn ddangos aros erfyn
Fal yd gryn dyn a daear
Seithfed dydd dydd darogan
Main mwyaf oll a holldan
Gwyrthau Duw a ddangoſan
Rhag arynaig brawd briwan
Arwyddon chwerw chweched dydd
Y daw gwaed or gwellt ar gwydd
A'n Arglwydd ein argledrydd
An rhoddes ni cred a bedydd
Pumhed dydd elfydd aflwydd
Rhyfel nid argel arglwydd
Pan fo briwa brwynan [1]
Eglwyſau diau digwydd
Pedwerydd dydd drwy driſtyd
Arnaid anifeiliaid byd
Yngwylltoedd cyhoedd cerddant
Can gwddant nad ant i gyd
Trydydd dydd drueni
Rhag arynaig brawd braw fi
A rygollo pawb o gar
Ar wyneb daear Dyfi
Eildydd cyn no dydd dilyw
Pobloedd driſt Criſt a'i cennyw
Yngwylloedd cyhoedd cerddant
Can gwddant na byddant byw
Undydd Doſydd dybydd oll
Pobloedd plant Addaf o bell
A mud a drud a drythyll
Yn llwyr yn eu llawn ddeall

[1] *Neu,* brwynau.

CANUAU BLEDDYN VARDD.

MARWNAD Y TRI MEIB GRUFFUT UAB LLYWELYN.

BLEDDYN UART AE CANT.

O L. D. D.

Neud amſer gaeaf gwelwaf gweilgi
Gweilgig moradar hwyluar heli
Neud arllen aryen eryri weithyon
Neud vchel gwenndonn gwyndir enlli
Neud wyf hoed fwyſwy drwy dreueni
Neud wyf hoen hyboen heb arglwyti
Trywyr a golleis tri dyledogyon
Brodoryon haelon o hil rodri

Digitized by Google

Ry draws fuam oll kyn eu kolli
Rydriſt yn gwnaeth criſt croes oleuni
Ry drwm fu eu bar am beri lluoet
Y gynhal toruoet teruyn hotni
Gwyr hoedlwydyr gwyr hydyr eu gwrhydri
Gwyr hydreit gwreit am uro geri
Gwyr kyrchyad yg kad yg galedi blwng
Ny edynt yſtwng yſtrad Tywi
Ywein uab gruffut uut uynogi
Awytawc uarchawc ueirch ddigronni
Eryr fraw ny ddaw yw ddaeoni neb
Am glod ac wyneb gwynet lochi
Llas gwr ge——nt hynt haelyoni
Llywyawdyr llv kymry hy y henwi
Llywelyn teruyn toryf gymelri ualch
Llafyngoch yg galch yg caer fili
Dauyt glod gynnyt gyn y dreghi
Deuodeu dryſtan daryan dorri
Dyurydet gwynet gwae ni ry allad
Gwalch ffyſcyad rotyad rut a phali
Gwaed raeadyr baladyr o lin Beli
Gwaewddur ual arthur wrth gaer uenlli
Gwawr aruthyr gwychruthyr am gochi eurglet
Pan oet gwyr gwynet tuet teiui
Dreigyeu rwyc arueu yn ragori
Dragon ddieitil uil uanyeri
Drwc yn gwnaeth hiraeth hir dewi trywyr
Uegys meibyon llyr llwyrglod ynni
Y dduw yt archaf naf eu noti
Eir egored rotuyged ri
Y gwbyl or ſeinhyeu y gybi ureinyawl
Y hael yſprydawl dedduawl dewi
Y ueir uawr gadeir gadyr y gweddi
Yr gwyr a wnaethbwyd yn broffwydi
Ym plwyf mad gwaſtad gweſti kynr——rfeint
Ym plith hartureint ſaint ſenet ureui

EGLYNYON A GANT BLEDYN VARD Y DAUID AP GRUFFUT AP LLEWEL.

O L. D. D.

VY arglwyt cludlwyt clod adas vchel
Och uab duw dy leas
Am eurdawn mawrdygyn y llas
Am arddelw tec am vrddas

Am vrddas adas eiddunvryd kymry
Doeth kymraw a thriſtyd
Am ddauyt dyt dihyfryd
Ap Gruffut grym gythrut gryd

Och am ryd eſbyd oeſbaen dagreu rwy
Ry duc lliw vyg gruddyeu
Och veith och vyth hyd angheu
Och veir am y mawreir meu

Meu rac dolur cur kyr vy mron rac dic
Dygy adnabod [1] weithyon
Yt hyll goual vyg callon
Val yt hyll tec erchyll tonn

Oer donn yg allon angheluyt oet ym
Eryr llym llvoſſyt
Aros clybod dyuod dyt
Eur golofyn diofyn dauyt

Kyn no llat dauyt deuawd einawn yrth
Nerthawclym mervynnyawn

[1] *Neu,* Dygyn atnabod.

Digitized by Google

Oevreiſc neirch maeth fraeth frwythlawn
Ae wiſcoet ym dotoet dawn

Arwymp dawn kyfyawn oeraf kofyon vyt
Llat dauyt llyw deon
Eur differch rydderch roddyon
Aruaeth llyr aryf mawrwyr mon

Gwae von ac aruon goruod kolli rwyf
Rwyſc angert eliuri

Gwayw gwaed fyſcyad gad gyni
Gwawr deifnyawc rutuoauc ri

Llat vy ri ymi mawr o dramgwyt hwnn
Hynn am dwc yn ebrwyt
Llyw dragon llym roddyon rwyt
Lleityad argleidrad,[1] arglwyt
Vy arglwyt cludlwyt &c.

[1] *Neu,* argleitrad.

MARWNAD DD AP G. AP LL.

BLEDYN VARD AE CANT.

O L. D. D.

Duw dy nawd rac tawd tan llachar vffern
Yny may kethern kaeth ywr karchar
Yny may trallawt berw barawt bar
Yny may perued dygned dayar
Yny may mawrway marwar kylleſtric
Yny may godric dic dilauar
Colleis a gereis o gar ac arglwyd
Erglyw ew tramgwyd trymgwyn anwar
Colleis chwech tyyrn kedyrn kytvar
Chwech eryr ketwyr kadyr eu darpar
Llewelyn ay blant blayngar vrodoryon
Ay haylyon wyryon oer eu galar
Diwethaf ym bu buduawr waſgar
Dd. glot derllyd arllwybyr caſnar
Dewr o was ban llas yn llaſſar arueu
Val e llas llecheu is llechyſgar
Eſgutuab Gruffud barawt rud bar
Yſgwn y dryllywyt yſgwyt eſgar
Yſgor digyuor dic auar obeith
Oyſgawd e orrlleith gweith gwyth-
longar

Gwr heird e uilueird uolyant kynnar
Gwr harddeddyf ddileddf ar dal branar
Gwr a wnayth a gwayw gwyar yn cochi
Vch aberteiui ri ryuelgar
Gwr gwrd yn ymhwrd emys lluchuar
Gwr gorddin nas byw llyw lluoſgar
Gwr bolch y daryan dayr var yg kyni
Gwr balch yn holi ſeri ſathar
Gwr beilch e ayrweilch arwymp drydar
Gwr bwlch nat ydiw gwayw briw
brwydyrgar
Gwr a wnayth adaw adar ar gynrein
Val kicvrein ywein awyd ddaffar
Gwr val kadwallawn dawn diarchar
Llawhir oed ddauyd lluoed auar
Gwr oed anyſgavyn yſgar ae ganlit
Gwr am gwnayth edlit gouit gouar
Gwr a gynnheil nef gwir oddef[1] gwar
Gwawr gwerthuawr gwrthaw boet
trugar

[1] *Neu,* addef.

Digitized by Google

EGLYNNYON A GANT BLEDYN HEUYT Y OWEIN VAB GRUFFUT[1].

O L. D. D.

Dothyw am Oweyn doethwawr oe gollet
Gnawt gollwng deigyr hyd[2] lawr
Aer gymrud vud vyddinawr
Oer gymraw ar gymry vawr

Mawr a driftyd byd[3] bot hir orchud oer
Ar ywein vap gruffut
Nef neud ethyw llyw llafynrud
Ner niver naw haelder nud

Gwell no nud am vud vu'r llyw a gollet
Ergyllaeth am dothyw
Gwawr gwayw dur dolur dilyw
Gwael neut bed gwae vi nat byw

Nyt byw gwalch trawſualch treis anoddef rwy
Ry duc duw oe gartref
Arddelw keyn fyrd kyrd kyflef
Vrddedic wledic wlat nef

Gwlat nef oe addef edyw frwythlawn ddreic
O dragon mervynyawn
Glew lew o lin Gadwallawn
Glyw lyw ganyt byw ba wnawn

Noc a wnaeth agheu aghyffret avael
Am ddwyn hael wael weithret
Ny weles uolud am get
Ny weleis dreis gyn drymet

Trwm golli arglwyd oerglad weryt yw
Tramgwyd llyw llawch eſpyt
Trimut aerwalch valch vawrvryt
Trymaf treis vwyaf tros vyt

Yr byd[1] ys triftyt treiſddwyn damwein dreic
Drwc a chwedyl y arwein
Eryr cat breiſc borthyat brein
Aerwalch awydvalch ywein
Dothyw &c.

1 Ys ef Ywain goch ap Gr ap Lln.
2 *Neu,* hyt.
3 *Neu,* o driftyt byt.

1 *Neu,* byt.

LLYMA AWDYL UARWNAD A GANT BLETYNT UART Y EWEIN GOCH. M. GRUFFUT. M. LLYWELYN.

O L. D. D.

Aghall o dyall yt ym yndaw
Aghwbyl vu yn pwyll am yn twyllaw
Yg draa eua a vu vraw y dyn
Aual bu dechryn dechreu arnaw

Agheu pob rieu diheu y daw
Egyrth ry gymyrth y gam racdaw
Aghof gwr hebof heibyaw nyd etiw
Aghadyr yw uy myw uy mod hebdaw

Digitized by Google

Am ywein gyfyrgein gyuyrglod itaw
Am aerwalch haelualch hawt yw wylaw
Am eryr kedwyr kyduraw meruynyawn
Mor digllawn digrawn deigyr yn ſyrthyaw
Am deyrn eurgyrn aergwn lithyaw
Am deyrnwawr llawr llu vytinaw
Am dihiruut prut yn preityaw gormes
Teyrnlles branhes bryneich ſyrthyaw
Hil gruffut waew rut rotuawr eurllaw
Haeluab llywelyn llyw Aberfraw
Hil yoruerth cannerth kein wallaw reuuet
Hil ywein gwynet haelon gwynaw
Hil gwrawl breinhyawl brenhin manaw
Hil madawc uodawc nyd[1] eitunaw

Hil maredut draws hawt droſtaw ledkynt
Hil eduynt bletynt bleit ymwryaw
Hirgwyn yſſym dwyn urwyn vreutwydaw
Hirgawt nyd anhawt im ym danaw
Hir dewrllew traglew yn treiglaw yſgwyd
Hirwaew vn annwyd ar hwn nynhyaw
Hiraeth am gwalaeth gweled arnaw flwng
Hirhebrwg echwg och or cutyaw
Hir darpar galar heb gilyaw yſſyt
Hir defnyt a uyt oe uetylyaw
Hirdetyf gynnetyf gynn noe orthaw
Heirt oet y uilueirt uolyant itaw
Hart ywein virein var lluchyaw yg cad
Haeluab rad y tad ae duc attaw

[1] *Neu,* uyd.

LLYMA AWDYL UARWNAD A GANT BLEDDYN VART Y LYWELYN VAB GRUFFUT. M. LLYWELYN.

O L. D. D.

Crist vawr arglwyt rwyt rad a archaf
Criſt uab duw didwyll hanbwyll honaf
Criſt ddetuawl cedawl cadarnaf arddelw
A porthes y ddelw ddolur ddyknaf
A perthyn am ddyn a ddywedaf
A bortho gouid bid bwyllokaf
A uo gnaws achaws vchaf y vetyant
Y vetwl bid leihaf
Criſt a ddoeth yr byd rac bod adaf
Ae bobyl yn vffern gethern gaethaf
Y amlenwi nef amgylch naf vchel
A golles angel angheluytaf
Kolles kymry vawr gwawr gwreitaf
Gwreitlafyn eſgud gloewddrud glewaf

Gwreitlyw nyd byw ba wnaf oe golled
Gwreitlew hyged rotged rwytaf
Gwr a las droſom gwr oet droſſaf
Gwr oet dros gymry hy y henwaf
Gwrawl lywelyn gwraf o gymro
Gwr ny garei ffo yr fort neſſaf
Gwr gwrt yn kyrchu llu lledeithaf
Gwr gwyrtliw bebyll gweriſyll gorſſaf
Gwreituab gruffut ddigraffaf am rec
Yn deddyfeu mawrdec nut a mordaf
Gwr gwaewrut gwr prut uegys priaf
Gwr gwiw yn vrenhin vyddin valchaf
Gwr hylwyt y glod gwr haelaf am dreul
Hyd yd gertei yr heul yr hwyl bellaf

Digitized by Google

Gwr dic y ddiſtryw llyw llyſſeitaf
Gwr dygyn y alar kar kywiraf
Gwr kywirgoeth doeth detholaf o uon
Hyd yg caer llion y lle teccaf
Gwr vu lywelyn ger teruyn taf
Gwawr kyhoet wiſgoet waſgaroccaf
Gwr oet arbennic bennaf o uilwyr
Hyd ym porth wegyr eryr araf
Y gwr a gymyrth eghyrth yghaf
Agheu dros bymhoes drymloes dromhaf
A gymeto uy rwyf rywoccaf vonhet
Yn rann trugaret vawret vwyhaf

LLYMA AWDYL A GANT BLEDYN VARD Y RYS AM MAREDUD AP RYS.

O L. D. D.

Ardwyreap naf neirthyat tyyrnet
Tyyrnvud llaw rodyat
Tyyrnas addas iddaw boed mat
Tyyrndrut ordrut wrd beleidrat
Tyyrnwawr trawſuawr tros yſtrat tywy
Tyyrnwyr lochi gweſti gwaſtat
Tyyrnwr uilwr ual eliwlat
Tyyrneid luchynt hynt e hendat
Teyrn yn heyrn yn hard wiſgat balch
Teyrnwalch ygkalch ygkylch gorwlat
Ar wymp emys rys ros achubyat
Ayruab maredud rud e ruat
Aruaeth ehelaeth hwyl gyrchyat brwydrin
Eryr caer vyrddin vyddin veiddyat
Aruot peredur drymgur dromgat
Aruawc ab eurawc[1] cadyr uarchawc cat
Aryf prydein yſgein yſgarlat waſgar
Yſgwyt tan llachar ear kynnifyat
Eſgut waew weith i wir[1] ovynnyat
Yſgwn baladyr cadyr cadarn leidyat
Yſgauyn oed gennyf yſgarat pob dyn
Wrth hwn llewelyn llyw beruedwlat
Yſgor kor kymry diffreityat
Aeſgur val Arthur erthyſt ladyat
Yſbydd gnawt berthwawt barth ac atat rys
Om tavawt yſbys oeſbell garyat
Ys bo dy orffen gymhen geimhyat
Ys bych neuawl hawl hwyl oleuat
Yn ran drugared yn rat y drindawt
Yn ryd oth bechawt ddeuawt ddiurat
Dewrddreic deheubarth warth wrthotyat
Dawn adlam dinam duw am danat

[1] *Neu,* efrawc.

[1] *Neu,* ron.

Digitized by Google

MARWNAT DD AP GRUFFUD AP O. AP MADAWG AP MAREDUD.

BLEDYN VARD AE CANT.

O L. D. D.

Duw a ddwc ataw bud waelaw byt
Deduawl vreyenhin dewin diwyt
Dewrddreic edeirnyawn gadernyt frwyth-lawn
Doethwalch o leiſſyawn dawn dileturyt
Dd ab gruffud grym gythrud gryt
Vab ywein [1] virein vawr ſyberwyt
Vab madawc vynawc venwyt diorchud
Vab maredud vud valch e ddetryt
Gwr rybu dd diveuyl blegyt
Gwrawl y verroes einyoes ennhyt
Gwr hyvriw e wayw gwr hyuryt e vyw
Gwreid eurllyw glyw glew oe vebyt
Gwr goleu e arveu airgreu ergryt

Gwr gelyn e ddyn e ddiovryt
Gwr golut eſgut oyſgyt byddinawr
Yſgwn yſgwydawr buduawr beddyt
Gwr balch yn eurgalch ayrgwn waytlyt
Gwr bwlch y eurgled yn arueddyt
Gwr bolch y daryan dewr wryt bedwyr
Gwr beilch e uilwyr eryr ayrvryt
Gwr hygyrch e lys eſbys yſbyt
Gwr hyget hygar car card oglyt
Gwr am gwnayth hirayth hirhyt ys rynnawd
Gwr hawd e adrawd kawd am kyuyt
Y dduw yd archaf naf nym enhyt
Llehav dd yn lle diwyt
Lle may'r vn ar tri twy anwylyt mat
Lle may'r mab ar tat ar tec yſbryt

[1] Ywein Brogeintum ydoedd hwn

MARWNAD ORONWY AB EDNYUET.

BLEDYN VARD AE CANT.

O L. D. D

Kolli goronwy gwr diemyth vu
Gorofyn llu llatyn dilyth
Llew hael or llin wehelyth
Llawir uyd dorvydir vyth [1]

Byth am walch rwydvalch ryndoeth
Treis galar—bu traws golofyn kyuoeth

Arwr dwr eryr ddewrdoeth
Eurwawr karueddvawr koeth

Dewrgoeth lluyduawr yn llu arallwlad
Dinydyr gad gynydv
Dinas eſbyd gyd gyrchu
Dinac ——— uain vanac vu

[1] *Neu,* Llawir ni orfyddir vyth.

Digitized by Google

Bu aruthyr gwythruthyr yn nyd gweith-
ret trin
Traws haeluab ednyued
Byd wir bud gywir am get
Bu gwawr hygyrch lawr hyget

Kedawl oronwy kat uorgymlawd hard
Kard wahard kerd wahawd
Kas kabyl kwbyldoeth ymadrawd
Keiſſyaw bot hebdaw nyt hawd

Nyt hawd am yn kawd kan aeth oe dymyr
Non damwein yſſywaeth
Hyt vrawt herw ddevawt hiraeth
Hoet vraw damweiniaw dim waeth

Gwaethwaeth yn tragwnaeth treghi mur
kiwdawt
Traws uar gwenwynwar gwae ni
Treis pobl trift pawb oe golli
Kolli Goronw &c.

MARWNAD HOWEL AP GORONW.

BLEDYN VART AE CANT.

O L. D. D.

Rym goreu agheu anghen ordwy dreis
Am draws uab goronwy
Rym dirwaen duw rym dirwy
Rym dirwnaeth rann hiraeth rwy

Pwy y roddei vor a orwu e glod
Ym pob gwlad yrywu
Rinveirch rytveith eu kyrchu
Rut val nut rotvawr vut vu

Hylithyr vu y lu lawer rec dy uyw
Hwylva glyw glod redec
Hylwyt wawr llawr llary oſtec
Hil doethyon hael tiryon tec

Tec yd gauas gwas gwayw hynod amlaen
Dec amlwc y ganuod
Llyw glyw gleif aneſgymod
Llew llavyngroch kledyfgoch clod

Arwymp glod oruod aryf kyhoet hywerth
Vu hywel oe pobloet
Eryr tiruawr aryf toruoet
Aer yſgwn eur yſgwyd oet

Oet gleifruthyr aruthyr aryf ryuel oet hael
Oet hwyluawr glod vchel
Oet glew oet llew kyn llenn gel
Oet glwys digart hart hywel

Gwar hywel vchel och or grwnn y mae
Nyd vy mot nas gwelwn
Gwawr gwreitualch gwalch gwaewdwnn
Gwae wynet hir orwet hwnn

Hwn oet draws gyghaws ac angeu ae dvc
Dic am gwnaeth ac eiſſeu
Hwyl cad cletyf gyrchyad cleu
Hael gwrawl or hil goreu
Rym goreu agheu &c.

Digitized by Google

EGLYNYON A GANT BLEDDYN VARD Y RUFFUT AP IORUERTH AP MAREDUD O VON.

O L. D. D.

Gro a gut deurut dewrwas gwael y varw
Yn y vawrglod gaffael
Grym erddrym aerddreic auael
Gruffut hil maredut hael

Ar hael gruffut cut can drauod angheu
Yng achweddyl y glybod
Gwayw gwrt ragor yn goruod
Gwawr dragon gwae uon y uod

Bod heb walch keinvalch kynhebyc dryſtan
Ayr gynnwann eur gynnyc
Detholew glew glod edmyc
Doeth y lwyth hwva pla plyc

Oet plyc dwyn terrwyn yny tyrrei bobyl
O bob man ay kyrchei

Oet dilyuyn eur a dalei
Oet dilut but myn y bei

Myn y bei ayr uab ioruerth yn ryuel
Kyn ryuawr drygyruerth
Oet kadarn dreic benn eic berth
Oet ked gynnyt kad gannerth

Cad gannerth mawr werth mor wae ym digiwyd
Nym gad deigyr y warae
Gryd eſbyd oeſbell warchae
Gruffut y maengut y mae

Lle y mae argae ar gymro dinam
Detyf dunawd ap pabo
Llavyn llidyawgddur kur kyffro
Llew prut neud llawn prit a gro
Gro a gut deurut &c.

MARWNAD A GANT BLETYNT VART Y DAUYT BENURAS.

O L. D. D.

Mar gwyrda gwynet gwae ni yr eiſſywed
Yſſywaeth yn treghi
Pob deu pobyl dygyn eu colli
Pob awr poen dramawr pob dri

Oet tringar an car cof newyt an peir
Perygyl hiraeth peunyt

Oet cwyn dwyn difefyl dauyt
Oet coeth gwr a doeth y dyt

Tra vu ddyt davyt difefyl ddylif cad
Oet cadarn y gynnif
Oet kedawl oet cadyr yg gnif
Oet koeth digrawn doeth digrif

Digitized by Google

Tros nad digrif ym am was hael difei
Hwyl ddifefyl gyweithas
Trift wyf treis Duw ry gallas
Traws dauyt lawryt ry las

Llas vnmab llywarch llew afael yn reid
Llary deleid honneid hael
Car coeth doeth dygyn y allael
Cywir nas gwelir ys gwael

Mor wael myned hael hwyl gyffro galar
Yn rwym gwely manro
Llawr gwerthvawr llan ae gortho
Gadawc gadarn vreinyawc vro

Em bro dewddwr gwr gwrt yn argae trin
Trift achwetyl heb warae
Vthyr gwynuan chwerw herw hirwae
Eithyr gwynet ymet y mae
Mae gwyrda gwynet &c.

MARWYSGAWN BLEDYN VARD E HUN AE CANT.

O L. D. D.

Erbyn vi vy ri rwyf bedydyawl
Erbarch vchelfeint breint brenhinyawl
Erbynneift keuciſt kyuawl eneideu
Yr agheu gethreu y gan gythrawl
Erbynyat pym oes o groes greuawl
Arbennic wledic wlad gynveithyawl
Arlwyd dat nam gat gyllefrigawl dan
Yny may poethuan peth uffernawl
Yny may mawrway heb ymeiryawl
Yny may mawrwall eneit marwawl
Yny may kynigyn yn kanmawl kelwyd

Yny may peunyd poen angerddawl
Kyn mynet or byd bryd breuddwydawl
Kein vynwent brouent bro gorfforawl
Kyn maynved diwed bwyf dwywawl gyffes
Kyn nom goddiwes bwyf gweddiawl
Kan gwneuthoſt veithrin brenhin breinyawl
Kan gwneir yr dy eir veir vuddugawl
Gwna dan gof yrof eiryawl ym dangnef
Yn teyrnas nef naf yſprydawl

MARWNAD HYWEL. M. MADAWC.

LLYGAD GWR AE CANT[1].

O L. D. D.

Gware ui duw or diruawr golled
Ry golleiſy[2] nym gellir gwared

Gwannder y lawer eilywed tramgwyt
Ry doeth am arglwyt eurglawr trefred

Gwalch gwrawl gwrhyd gwalhafed[1]
Gweilch oet veilch yny valch gerdded

[1] Dylafai yr awdyl hon vod gyda chanuau eneill y bardd, yn dechreu T. D. 340.

[2] Yr golleis. Ll. P. P.

[1] Gwahaved. Ll. P. P.

Digitized by Google

Gwyr golofyn ehofyn pan ehaget fort
Am drefgort drwy galed
Gwac yr byd bod heb y hawtged
Gwael dwyn hael hwylvawr y weithred
Galar yw gennyfy gweled ar lachar
Golwc agklaear daear duted
Hywel am[1] madawc ny mad dodcd
Y mywn mynwes llawr mygyr wawr myged
Hir yw byth bellach belled bod hebdaw
Hiraethlawn gymraw gymrwyn goted
Hydoryf kylch y goryf gwrymfeirch ar lled
Hydyr glodryt gynnyt gynulaen lliwed
Hygyrch oet y lys les trwyted oy fut
Ae uetgyrn kyfyved
Arwyt teg am rec ban riued gant feint
Breint brenhin gogoned
Ar deheu mab duw bo y dyghed ef
Drwy gaffael porth nef yn agored
Aghall yw y dyn ny del y gred
Ar y gwr goreu a aned
Agheu yn[2] edev yn noted racdaw
Trwy benn an treiſſyaw yw an triſted

Triſt yn gorug Criſt kred nyd ymchwel
Treis dirgwyn ac nyd treis dirgel
Am draws walch aerualch oeruel y golli
Nyd ryuet ochi yn yawn vchel
Neud etiw[1] ynofy cof kyuarchwel
Am lyw cletyfrut heb gut heb gel
Neud meu y eiſſeu neud iſſel uy mryd
Yw ueirtyon oet clyd clod diargel
Neud aelaw kwynaw neud kynhawel
O uerrwyn hyd uawr hirddywel
Am yr dwyn terrwyn twryf uuel am riw
Ae bar oet gwaedliw ual gwaed awel
Och am rwyf aer glwyf eurglet echel
Och am diliw mawr nym dawr ken del
Och am arglwyt rwyt rutuedel vtkyrn
Och am wawr kedyrn cad diogel
Och yr uyned gwr gwrtlew ryuel
Och ueith byth bellach ny dychwel
Och pa wneir och ueir och uihagel
Och hyd attad duw yr dwyn hywel
Eryr gwyr gwarant heb ochel
Ar wiryonet yawn dawn ytymdel
Erbynnyed arbennig agel
Yn barchuſſaf naf ar nef yt el

[1] Vab. Ll. P. P.
[2] Ni'n gedy, *neu* nynedeu.

[1] Ytyv. Ll. P. P.

MARWNAD RUFFUT VAB KYNAN.

GRUFFUT AP GWRGENEU AE CANT.

O L. D. D.

Gwr a gynneil y lloer yny llawnwet
A genniw pob tra trwydi beruet
Oe gannyad oe rad oe rinwet yn llawch
Llewychedic heul yny gynted
Ac ynteu an dwc on diwet
Oe dyg ——— trigyant yn drugaret

Edry ant trachwant trachywet an knawd
Yt yn knyny daear yn y diwet
Drwg yw ynn dryked an buchet
Eil drwc yn kyflwc an kyflyet
Trydyt twyll herwyt kymwyll camwet
Pedweryt rewyt pymhed ryuet

Digitized by Google

Chweched am galed amgelet am eur
A mireinwch byd ae anrydet
Seithued bwrw gwythlwrw gweithlonet
Geir ſyberw a berw yny beruet
Wythued yw llat a llafneu cochwet
Kelein a chathyl brein ar y bronnwet
Nawued yn ryred nyd yn anryuet
Lleidyr na all edrych criſt yn y grocwet
Decued anwaraed yw anwaret anwar
Dall uydar kynn tylluet
Dreic anhuenyt herwyt haeret
Hiruod heb gymod yny gamwet
Duw a uynn dyuod yw orſet
Hydyr a llaw nyd llai yw omet
Dadwyrein o uein o uet an dylyt
Y an diburyaw o an camwet
Treiſſwr yw agheu ar bob troſſet
Trameint nyd kywreint an kywryſſet

O Ruffut gwaewrut goruolet ym ken
Am kynnygyws eur a meirch hywet
Hil kynan erwan etwydet
Hael y wan hil ywein gwynet
Hil madawc hydyr uynawc vonhet
Mwynnyant kert nyd cart y diwet
Kyuetach uorach uawret oruchel
Or achwet oreu o deyrnet
Neum bu oe agad mwyndyad met
Ny bu oeſdlawd beirt oe yſtlynet
Yſgereis a gwr nyd yw goruolet
Yſgar byw a marw gatw argywet
Am arglwyt diwyd am diwet yſgar
An yſgafyn a wr y vreuolet
Ny byt kyuoed pawb pymcan mlynet
Noc y bu gyuyg gwlyd teilyg gwlet
Ny bo kyuyg duw ym kyuet yg kyuawr
Synnhwyr vawr Senet

GRUFFUT VAB GWRGENEU A GANT YR EGLYNYON HYN OE GEDYMEITHON.

O L. D. D.

Marw merwyd hirwlyd am hirwlych
Dagreu—digrawn ynt a mynych
Nyt heneint gwr ae gwrthrych
Nyt hyn oes dyn noc oes drych

Yſtyrywn kwynwn ketwyr aruoll naf
Ny ad duw yghyuyrgoll
Marw myrd mawred kyrd kardgoll
Marw merwyd meirw uydwn oll

Pell yw o Bowys pwyll argel y dyn
Y ddial gwaet auel

Gwaelawt ty tywawt tawel
Gwely rud gwilim ryuel

Gweleis le am de am danaw heddiw
Hawd y gallaf wylaw
Rudued werthuawr wed wrthaw
Ac edenawc y danaw

Kanys marw mawred a grym
Griffri y treghi oed trwm
Marw vyd einawn dawn dinam
O dyna ny byd da dim

Digitized by Google

PHYLIP PRYDYD A GANT YR AWDWL HON Y RYS GRYC.

O L. D. D.

GWELEIS Rys yn llys eiſſidlo
Gelurud gelyn yn alluro
Hyuoluawc hael mynawc hawd bo
Glot edmyc kymhengryc kymro
Dragonllyw lluoed anwoſgo
Dreic vnbyn a vynn a vynho
Hir y wir y wr dra ſauo
Hydyr y dreis y dreth o benuro
Gwalch gwylwalch golut anghryno
Gwawd uyuyr gwawr gwhyr gortho
Enw y uard y uarn a welho
Kediuor kadeiryawc artho

Baran llew yn lluryc eurdo
Brenhin beird breinyawl a ganho
Gorwenn tonn tued porth gwydno
Garw y llenn a grann wenn y gro
Gnawt rygwyd rygeis ny allo
Gnaws gaeaf alaf yng godo
Teleis y ueirch y uarchawc mwydno
Teilwng yng talv an rodho
Ys ymi vd lwyſrud kas a gro
Fyddyawc fodyawc y ymdro
Hael hir lew hir llew hir llwydho
Hil catuan kynan vab iago

LLYMA KYGORYON DADOLWCH A GANT PHYLIP PRYDYT Y RYS GRYC GWEDY SORRI WRTHAW AM BRYDU Y NEB NAMYN ITAW EF.

O L. D. D.

PA geſſidy ui uodrydaf kreugar
Kroewgoch gwaew oth adaf
Pa ham veirt adlam vleit naf
Pa gam a geſeiſty arnaf

Mi ath ſum borthwr borthyad riallu
Ny ellir y ddiwad
Pan oet lyw kyhoet lew cad
Ym pob riw ryuel arnad

Arnaf kymeraf kymhennrys atteb
Hyd attaw yny lys
Myned dylyed dilys
A mawrglod ym arglwyt rys

Ar dy uawluar par pymllyg nam gwartha
Nam gwrthod yn dduruyg
Eryr llewyr llaw bergyng
Erreityeiſty ehang o yng

Rys uyg loegyr weſtyng lary weſti toruoet
Taryan yſtrad tywi
Rac dy uar kar kert lochi
Mal gwiryon gwared dduw ui

Ys yng yn yſtwng yſtic vara rys
Rutuoawc cadurua
Ys anlys im ddim da
Os am carwys am caſſa

Digitized by Google

Nam caffa pwylla pyllyawc eduynt rys
Y rwng ros ac eppynt
Bart vum itt trimud tremynt
A chedymddeith kanweith kynt

Kyntaf achubaf echel ureint rac bar
Hil cafnar cas wytheint
Nawt duw mawr dengwawr deweint
Gyda nawt naw mil o feint

Synnya di roti rwyf gwawr carannawc
Kerennhyt yth gertawr

Ryffia kyrt kalan yonawr
Rys rut bar rwyfc moruar mawr

Mawr fwy y credaf no chreir fed
Neirthvad—echel kad ked adneir
Gwr yffy ym kadw ym kadeir
Gwn itaw goreuraw geir

O dywedeify eir ar wekrei heb porth
Parth eurgolofyn kymry
Diwygaf honnaf hynny
Difwyn a gymer duw ury
Pa geffee dy &c.

EGLYNYON Y RYS IEUANGC.

PHYLIPP PRYDYD AE CANT.

O L. D. D.

Rys rwyfc chuel ryuel rwyf naf deyrn
Rwym kedyrn cat worffaf
Eithryat brat bron eilyaffaf
Eithyr kenyt kynelw ny wnaf

Ys gwneuthum ytt glot glut rwyf gawr ygwrys
Gwawt vrys rys rwyfc ddiryawr
Llyw ior llew tewder tutwawr
Llawer echaws tat maws mawr

Mawr yw ym dreic wawr fawr faw fwyr fyfcyat
Fyfclew cat ket wallaw
Bot addef nef yn eiddiaw
Ar byt achlan y danaw

Dan Rys vab greifwrys grufut yfgwytwyrd
Oes ket kyrd kard wofgud
Llwrw llwyrglot wawt rot wotrud
Llyry drauyn llawer llauyn lletrud

Lletrud parvrys rys rwyfc hiryell yn aer
Yn arueu agkyfbell
Hawl toryf teyrnvro gadell
Hydyr auael hael hanbych gwell

Hanbych gwell hyd bell bellawc lluchurys cat
Kedernyt enwerys
Aryfrud prud prydein ynys
Eryr aer glwyf arglwyd Rys
Rys rwyfc &c.

Digitized by Google

AWDWL A GANT PHYLIP PRYDYD YN LLYS YR ARGLWYD RYS IEUANC YN LLAN PADARN VAWR

PAN VU AMRYSSON YRYGTHAW A BEIRD YSBYDEIT PWY GYNTAF O HONYNT A DELEI A CHERD DDUW NADOLYC.

O L. D. D.

BU dioual ny bu diofit
Gan golofyn kymry camp ddiodit
Pan wu yn ryuel gat chwel chwerwlit
Myny adeigei neb ar y newit
Peunyd yn rwyddryt ym rodit anoeth
Peunoeth a rygoeth ym anregit
Ac yn llys hil tewdwr tec ym hurdit
ynaeth [1]
Ac attoeth etwaeth nam gwnaeth wneit
Pei achwir volawt
Y dylwet foſſawt
Dyrllydwn i wirawt
Kyn bydwn i ermit
Moladwy uleidriw nym rodey brit
Mawr y afael hael hawd y erlit
Ny thraethaf i gelwyd nyd ef gelwit
Hwn cledyf yſgwnn twnn twyll y gwndit
Diſſeirch meirch a ſeirch oſſeddrit borfor
Diachor yſgor yſgwyt turnit
Kadyr wychawc varchawc mynawc
mwynlit
Kat elling ener wener wenit
Kadeir vaelgwn hir a huberit y veird
Ac nyt yr goueird yt gyuerchit *
Ac am y gadeir honno heddiw bei heiddit
Bod ſe ynt herwyd gwir a breynt yd
ymbrouit
Bydynt derwyddyon prydyon prydein
Nes gwaew yn adein nyt attygit
A bei gwnawn or dawn a dadenit
Penkerd o digerd ny ddigonit
A bei ef gennyſy yd gennelwit
Atvyddaf naf arnaf y dorvyddit
Euduſſwny uot rys rwyſc ddiednit
Tra vei dywawl duw yny dwyodit
Ar y llenn valchwen ny vylchit y breint
Yd yſgarawd heneint ac yeuegtit
Rwng y prenn frwydlawn
Ar tair prif ffynnawn
Nyt oed ar hirgrawn
Yd ymborthit
Yn hyrgan vann vawr y rydit
Yn hyngaer glaer yn yt glywit
Yn heyrn adef yn nheyrnas nef
Gwr ys yn godef y goreilit
Kywot dy was aſſaf eſſill ervit vawr lawr
Gnawt o ſynwyr vawr varn drybelit
Ae kymraw treidaw tra mynyd gwidawl
Myny ret redyawl o elenit
Ae gwallus yghof yghyuyrdelit
Ae gwaeth mynac nac noc eddewit
Kigleu y doroff ath toroff a thwryf
yſgwydawr
Nos galan ionor mwynwawr medwit
Ac ambyrth clot walgar llyry daear
divriſc
Llawer march a gwiſc weſgerit
Wedy cat dramawr agawr d—mit
A chyuaruot pybyl penn yn eruit

[1] *Neu*, y uaeth.

Digitized by Google

Rac me vei kyued kyuedach hedyrn
Rac bronn eurdeyrn kyrn a genit
Bann ket ban rodet pan rodit eur coeth
Pan vei parabyl doeth a dywettit
Pan vei ankwyn med yn medwit yn llys
Ym hadawffei rys nam diddolit

AMRYSSON PH PRYDYD AR GOVEIRD YSPYDEIT.

O L. D. D.

Arglwyd nef a llaör maör a ryued
Val y keiffyr cam o bop kamöed
Andaöt ud göayörud göaör teyrned
Y goueird ar beird yn kyörytfed
Yr pan vu elffin yghyörytfed vaelgön
Neus porthes peppröN pell dyfryded
Llauar merinnyeu göynnyeu göraged
Llaöer chöedel anoeth a doeth öyned
Kyny deley hönn o achened
Geuveird aghyfröys y beryf ae henryded
O gönaeth golydan gyflauan diryeit
Bit ar y eneit yr enöired
Taraö kadöaladyr colofyn elyflu
Gör oed yn gallu y dyualied
Ac eifloes ciffoes yny dygned
Divreinyaö daön duö nyd dyn ae med
Mor dygaon y mae digymroded
Wedy penkeyrdeth kymry yghamryffed
O byd arglöyd göir göyned dyöyffaöc
Ellillyd madaöc ryöyaöc reuved
Lleöelyn lleö göaör clotvaör cleddyfir
Pell yd etmygir y atchöedled
Gör ny uarn kamvarn kadarn yt ved
Gör a vyd y enö yn edryffed
Gör biheu tretheu trathued llundein
Ditfeithdir prydein ae chyvanhed
Gör yn llöyr a öyr fynnöyr fened feint
Gör a öys y vreint o vrenhined
Goreu yö gennyfy goröed neuadaör
Llyö llöyth Teödör maör göaör göaradret
Kynnedyf yö kennyf y k—derganed
Kanu kerd am borth am byrth neufed
Hengerd talyeffin y teyrned elvyd
Hi a vu neöyd naö feith mlyned
Ac onym agheu y aghenved daear
Kyn anöar kyfar kyflauared
Ny dervyd aöen y ar daröed treul
Tra vo lloer a heul ar y rodöed
Ac onyt trech kelöyd na göiryoned
Neu darvot daön duö yn y diöed
Ys my a veflaör or gygheuffed
Göeryt yr göagveird y göaghoffed

Digitized by Google

AWDWL VARWNAD Y RYS IEUANC.

PHYLIP PRYDYD AE CANT.

O L. D. D.

GORUCHEL arglwyd goreythoylaf
Goruedawt vyn tauawt gwawt a ganaf
Goroyr vyng callon goruch atdaf llys
Goruc angheu rys anghen arnaf
Gorwlychawt vyng rwydeu om dracgeu mynych
Neud val drych gwrthrych gwrth a welaf
Neud ethyw glyw gloew orſaf byddin
Hoedyl egin vrenhin hoet a borthaf
Gwenwynvar gwanar kerdgar kyrd vyget
Gwae ui oe vynet vyn nas gwelaf
Gwedy mab gruffud gwaewrud gurhaf
Yſgwnn vyng hyſtlwnn ny wnn py wnaf
Och hyt attat ti duw a dotaf yn dde
O welet vy lle ar llet eithyaf

CANUAU Y PRYDYDD BYCHAN.

MARWNAD RYS IEUANC Y PRYDYT B. AE CANT[1].

O L. D. D.

COLLED gwr arwr aruawc chwyrn yg cad
Yg cadarnwiſc heyrn
Mur toryf aerdoryf eurdeyrn
Mygyr bennaeth mab maeth metgyrn

Mab metgyrn teyrn tawel ut mwynuawr
Kyn maenuet y orchut
Mab mad mygyr lleityad llauynrut
Brwyſc breinyawl gretuawl gruffut

Mab gruffut llauynrut lluoet ros gyrcheid
Rys gyrchyad tra moroet
Gwrt am deruyn amhyl doruoet
Gwr bytin gwawr bytinoet

Bytinoet hartoet dyt y hyrtei rys
Kiwdawd ros o hanei
Lleith kynnygyn kynnetyf gwalchmei
Llew gawr yſgwyduawr ys gwnei

Ys gwnai Rys ar urys arlwy gwlet branhes
Kyn prynu tangnhefet
Par tridryll gwerſyll gorſſet
Penn clod kyn noc vod yw vet

Y met argyuet nyd gouyged teith
Doeth y ueirt oe vyned
Am yſgwyt gawr vawr vur ked
Am yſgwyd vriwdoll golled
Colled gwr arwr &c

[1] Rhŷs Ieuanc a fu farw yn y Flwyddyn 1222 ac a gladded yn Yſtradfflur.

Digitized by Google

EGLYNYON A GANT Y PRYDYT BYCHAN Y VAREDUT VAB YWEIN.

O L. D. D.

Maredut aeſtromrut troch
Par awchlym wych lith gwyach
Eurwawr llew yg gawr llauyndrwch
Aerwalch eiryf ny theiryf ny theich

Ny thechei ner fer frawtus
Mab ywein bro goeluein brys
Gwychyrlym dreic eil meic myguras
Gwychwlad o gad a gedwis

Cadw varedut cadyr eurdoryf
Cadoet gyman cad gynnwryf
Bolch glet yn dewret yn eiryf
Balch glod ac aruod ac aryf

Aryfrut balch teyrnwalch tec
Eurvro gadw gadarn dinac
Armes ros bla ddangos blyc
Aeruleit gwreit ae goruc

Goruc fy llyw llew amgoed
Gwyar am aer drydar draed
Oeſawc varchawc veirch gydneid
Aes valchliw rut eurvriw rwyd

Rwyd yſgwyd yſgwn eurwlet
Ruthyr rynn ny geis rann o vot
Rugyl yawn y dawn yny dyt
Rutbar vawruar varedut
Marcdut aeſtromrut &c.

EGLYNYON A GANT Y P. B. Y VAREDUT VAB YWEIN.

O L. D. D.

Maredut ut prut praſiu
Keſcis nyd kyfyg dy vro
Gwledic doeth kynoeth kyfi
Gwlad roc diofyn colofyn kymry

Kymry varedut kymer
Kymreiſc walch balch bennadur
Dreic vnbynn aervyn arwr
Drud llaw eſgud lluoſgar

Car gymhell treitbell trethoet
Mab ywein mawrdwryf arraet

Llyw glyw glew yn ymorchwyt
Llwytdud llew gwrtrud gwreit

Gwr yw uy llyw gorllawen
Gwyr a gar gwawr trydar trin
Gwrt yn ryuel ae elyn
Gwrth gas wrth y gaſſogyon

Digaſſawc franc frawt anvot
Dugoſt vawrdoſt uaredut
Diffeith pob gwlad gad gynnyt
Dewr gyuran ae chyfannet

Digitized by Google

Kyuannet walch dy ualchgorn
Ar tir ynyal dywalwern
Eurboſt cad aerbyſt kedyrn
Eryr cadyr dewrwyr kadarn

Kadarn kedeirn gywryſſet
Y keidw glew gwlad yr anuot
Bolchlauyn yn aer daer deryt
Balchgoeth uawrdoeth varedut
Maredut vt prut &c.

EGLYNYON A GANT Y PRYDYT BYCHAN Y VAREDUT M. YWEIN.

O L. D. D.

Oesuyrr dy alon aeſuriw varedut
Trawſualch ut treiſwlad wiw
Pwyll mab vthyr rwyf aruthyr riw
Pwyllawc par dryllyawc drilliw

Yn lliw gwyar bar beir vetu prydein
Hil ywein hawl fynnu
Pob gwlad barawd gad gyrchu
A diuarn ae gadarnllu

Yn llu yth weled yn llithyaw branhes
A bryneich yn cwytaw
Llyw dragon llafneu dreiclyaw
Llew chwybyr o lwybyr dy law

Llaw ar bar anwar enwawc varedut
Dreic rwytuut rutuoawc
Kynnyt blas dy digaſſawc
Kynnwalch muner ner nerthawc

Ym neirthyawc breinhyawc brenhin gwyr toruoet
Teruyſc lloegyr y gelwir
Kymreiſc wyſtlon a wyſtlir
Kymry ae dyry roc dir

Roc dir y rotir rwyf goſyneic prut
Maredut mawrvut meic
Ardwy llu lloegyr eryneic
Eurdretheu dreithyeu ym dreic

Dreic agkynnwys dwys nyd oes ath veito
Yth uytyn diarlloes
Ath gynnhwan gad veityad voes
Ath gynnhar wlad yth gynnhoes
Oeſuyrr dy alon &c.

EGLYNYON A GANT Y PRYDYT BYCHAN Y UAREDUT. M. YWEIN.

O L. D. D

Gwalch yſſym amyl y niuer
Gwalch eurgalch aergun gyuor
Gwalch dewrualch o lin dewdwr
Ac am walch dewrualch dewrwyr

Gwyr rif ſyr yſſyt yn y gad
Gwrthrut varedut vur gryd
Twn y bar dreic anwar drud
Didwn y eir ual creir cred

Digitized by Google

Cred pan aeth dreic hydyrfraeth hy
Yr goten goteith bennuro
Oet amhyl am amlaen deulu
Heyrn traws teyrn trosti

Trosti yr treisdwyn gwendud
Aeth mab ywein prein prisglod
Ny bu ie ar lawr dyued
Ny bei sathyr gan y seithgad

Cadyr uab ywein cadyrualch gwlet
Kedeyrn wostwg rugylvlwg ryt
Dysiys brwydyr bryd ar ymlat
Difraw y law ar lafyn rut

Llafynrut uaredut llyw drinc
Llew ny ad lloegyr yny wnc
Nys arueit aerulawt frawt freinc
Nys geill seis na threis na thranc

Tranc ar bob franc frawtus gylch
Gwnaeth uy llyw llew ysgwydvwlch
Meic kyhaual aryal aerweilch
Mut mwynsut mygyr gwaerut gwalch
Gwalch ysiym &c.

EGLYNYON A GANT Y PRYDYT BYCHAN Y VAREDUT VAB YWEIN.

O L. D. D.

Kyrch a duc uy llyw llew gwyth
Kad.vt uaredut valch deith
Oet aerdreic penn eic pann aeth
Oet agro pennuro pan doeth

Doeth brut varedut [*Englynion ar goll.*

MARWNAD UAREDUT. M. YWEIN.

Y PRYDYT BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

AM varedut vut vawrged
Gwae y genetyl gwawr gogoned
Doeth oe gyuoeth coeth kerted gwenyndro
Gwenwyndrwm a gollied

Colled llyw llew huysgwr
Maredut mur dineswr
Dunawd gynnesawd gynniswr ar ros
O lin rys ab Tewdwr

Digitized by Google

O dewdwr aeth gwr gwrtlaw hir bolch-
lauyn
Balchwlad dreic bu kywir
Maredut men na welir
Mygyrdrud gwae y dud ae dir

Tiriawc rywawc ros wrthrych uu uy
rwyf
Rwyfc ywein urych
Vn oe deruyn doryf lewych
Yfpys yfpadaden ddinbych

Dinbych y kyrchws kyrch diatrec prut
Gwalch gwawdvut rwytvut rec

Hwyl diwyl dyfyndref faefnec
Hael awyt hil ywein dec

Oet tec rwyf rwyfc oliffer
Oet cleu darpar clod dirper
Oet glew maredut oet gloewner efgud
Yn yfgwyd deu hanner

Oet deu hanner ber bar gwythrut yn
llaw
Gwr ual llew digythrut
Oet erwan gwaew preitwan prut
Aruoll mawrgoll maredut
Am varedut vut &c.

ENGLYNYON A GANT Y PRYDYT BYCHAN Y YWEIN UAB GRUFFUT UAB RYS.

O L. D. D.

Ywein rutlein rot edmyc
Ged yfgein gad ddiyfgoc
Teyrnet leith dudueith dec
Teyrnas dinas dinac

Dinac ywein rutlein lafyn
Doeth id yth wlad leityad leifyn
Trethoet tros uoroet uar dwfyn
Treul ked rwyf dyfed rac dy ofyn

Diofnawc uarchawc ueirch fraeth
Yw hwn ut gwaedwn gwawdueith
Lloegyr diftryw cadarnllyw coeth
Llid anwar llew gwrtuar gwyth

Angwyth lew arglwyt gwythuawr
Ywein borthyad brein bronddor

Dragon a volafy naf ner
Dreic ddiogel y gelwir

Gelwir hwn llu gyftlwn llyw
Lloegyr gyrchyad cad ced aelaw
Teruyfc eingyl eghyrth pob glew
Teruyn gadw taryan vradw vriw

Briw ragod ragor anvedyr
Bradw yfcwyd hud blymnwyd hydyr
Aergleis glwyf rwyf rut beleidyr
Arglwyt gwawd rwyt gwaed raeadyr

Raeadyr gwaed am draed am drwyn
Ryw rac uy llyw llew aryein
Rwym bryneich branhes terrwyn
Rwyf gawr awytuawr ywein

Digitized by Google

MARWNAD Y EWEIN. M. GRUFFUT.

Y P. BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

Gwr kymrwyn y dwyn gwawr kymry neud marw
Ywein prein neud prit wely
Aruod uygyr aerwalch hydyr hy [s]

Vy hy arglwyt rwyt rut glet ry golleis
Rym gellir lledurydet
Vy llyw oet vur glyw a gwlet
Vy naf poed nef y diwet

Oe diwet vaenuet uwynuawr aruaeth hydyr
Hidyl uyt deigr o hiraeth
Ardelw dyued ged gyduaeth
Aerdreic oet benn eic ban aeth

Ban aeth gwawr gwinuaeth gwenwyn a golled
A golleis oe adwyn
Doeth y ueirt byd y gyd gwyn
Diua gwalch tyrua terrwyn

Oet terrwyn ywein tyrua rec eurvut
Kyn oervet gyhydrec

Oet amhyl oet amlwc goftec
Metgyrn am gylch teyrn tec

Oet tec eurboft rec rwyf adas prydein
Traws ywein treis leas
Oet aergwyn oet oergwyn was
Oet eurgoryf toryf teyrnas

Teyrnllv y law teyrned alar
Gwawr gwanar gwin a med
Teyrnllew glew gloew voned
Teyrnllyw nyd byw neud bed

Neud bed dewrwalch gwlet daear dywarchen
Nem [t] gorchwy rwy trugar
Nyd am llud am uud y var
Nym llwyd goleurwyd galar

Meu alar llachar mur traeth llychwr gwychyr
Llew gwychddrud dineuwr
Mwyth doryf dervyn ehachdwr
Meith blas yn was ac yn wr
Gwr kymrwyn y dwyn &c.

[s] *Neu,* hydw vab hy.

[t] *Neu,* neur.

MARWNAD Y RYS GRYC.

Y PRYDYT BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

Llawer deigyr hydyruer ar hynt
Hityl am rys ryffua mynwent
Llyw dinefwr gwr gwychblant
Llew trin ae brenhin ae breint

Breinyawc rys brenhin kyuoeth
Brein borthyad cad kanhymdeith
Neud ethol walch weilch hydwyth
Neud ethym am dreic neud aeth

Digitized by Google

Athwyf ym brwyn gwyn geithyw
Ethym heb vt llauynrut llew
Aeth rys uab rys ros breityaw
Yw diwet uanuet vyniw

Ger myniw llyw llew hawrfort
Y gweleisy rys ros ymhwrt
Teyrnwawr yg gad uawr uyrt
Teyrn yn heyrn yn hart

Hart llys rys ros geithiwed
Rwyf llu tra vu y vywyd
Balchgryc barabyl bolchglet drud
Bar dwys aghynnwys yg gad

Cad gyrchyad llauyndrochyad llew
Vu rys rugylvar rutbar riw
Eryr deyrn loew eurgyrn lyw
Creir oet y luoet y law

MARWNAD Y VORGANT. M. RYS.

Y PRYDYT BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

Morgant achvre cant mor echrys myned
Llyw llwytged llwrw na wys
Oet argledyr gwir dir dilys
Ar eurglawr yr arglwyt rys

Mab rys eurboſt llys aerbeir yn arueu
Duc angheu dygyn o eir
Ae law oet lw ym pob kyfeir
Fal kyuun grededun greir

Creir nyd amharchei creulawn y volch-lauyn
Ae valchlys yg carawn
Rwyf blwng rwyt yſtwng eſtrawn
Rot digraff rotyon digrawn

Digrawn ar uyg grut dagreu am vorgant
Neum kynwant clwyſyant cleu

Hael enwawc hoetyl uradawc vreu
Hydyr nenn kyn aghen agheu

Duc agheu rieu rwyf ehagdwr llu
Llurycwalch dinefwr
Llew tir teyrnuro dewdwr
Llaw etgud llwybyr gwrtrud gwr

Gwr glew oet vorgant gwrt glet gogoned
O genetyl teyrnet
Gwawr llawr lluotlawc vonhet
Gwalch kein aerualch kyn oeruet

Oer ym daw treiſuraw tros diuant dragon
Ar pob dreic ys ramant
Erwan dolur mur milcant
Aruoll mawrgwyt goll morgant
Morgant achvre cant &c.

Digitized by Google

MARWNAD KYNAN VAB HYWEL.

Y P. BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

Dyfed llwyr y gwyr gwrhyd frawt kyfyrdann
Marw kynan kynhwan cawt
Dawn degwlad cad vleinyad vlawt
Dwyn yn llyw duw ryn llatawt

Llwyr yn llatawt cawt kwyn uetu galar
Gelyn lloegyr a daryu
Bod gwr arall yn gallu
Ym adolwyn ae deulu

Teuluoet kyhoet kwynyant eu heurglawr
Eu harglwyt collaſſant
Dwys ym bryd beirt byd ba wnant
Diſgyr gwyr am eu gwarant

Gwarant gymry blant bla diochel mawr
Marw kynan vab hywel
Kein wlad nef boed ef yt el
Cannos gwnaeth yn ros ryuel

Ryuelnaf troſſaf wyf treiſdic oe goll
Gallwys beleidr yſſic
Brein lithyaw breinyawl leithic
Mur gwladoet marw an gwledic

Gwledic mwyn uawr kwyn kynan kyrch breityau
Preityad lloegyr ae phoethuan
An llyw aer aryf taer ual tan
Llew gretuawl llawer grituan

Grituan uarw kynan kynnyt ſeithuc bla
Plygu lloegyr a oruc
Dragon gyrchyad gad gaduc
Vu duw an dreic ny a duc

Duc agheu yr goreu goruc coted bron
Peir rotyon par ruted
Pennyal beirt llawr keinwawr ked
Pennyadur dewrvur dyued
Dyfed llwyr y gwyr &c.

MARWNAD RYS VOEL A SAMSUN. M. MEURYC.

Y P. B. AE CANT.

O L. D. D.

E am rys uab rys ryuyc ny dalywn
Aeth ſamſwn blyngrwn blyc
Mur llauyndur lluoet edmyc
Mwyndud llawr mab mawr meuryc

Kyn plyc vab meuryc mawr anoſbarth llys
Kolli rys rwyſtud barth
Colled rwy ym rwyf diwarth
Coll mawr ar wawr llawr llannarth

Digitized by Google

Gwalch o barth llannarth llawagor yſgwn
Oet ſamſwn kyſtlwn cor
A gwalch rwyt eurvalch ragor
Hydwyth cadarnllwyth caduor

Cadarn an diuarn kyd a mateu rys
Cadwalch llys lles kerteu
Cwyn dwyn deifnyawc oe dechreu
Cof meith anghyfreith angheu

Agheu ry diheu egy— ſeithuc pla
Plant adaf ry amuc

Hityl deigyr diuryd am goruc
Hoetyl ureu hydyr a deu a duc

Oe dwyn kynnetyf brwyn kwynaſſam
Samſwn—llyw llauyndwn llew dinam
Collyſſant oll coll kyflam
Cenetloet eu kein adlam

Adlam gweilch dinam gwychlys
Kyn yſtwyll—can yſtyn meirch dilys
Anwar yn aer urwydyrdaer urys
Enwawc rutbar votawc rys
E am rys &c.

MARWNAD RYS UAB LLYWELYN.

Y P. B. AE CANT.

O L. D. D.

Ducoſt rys ar urys oe vro
Dic ym oe dwyn gwyn gyfle
Da y dewiſſeiſty hwnnw
Yth uytin griſt urenhin vry

Wrth dduw vry vreyenhin coeth
Rys —yl urys ureiſcuawr dylwyth
Llawer kertawr gwawr gwawdueith
Ar uar am dy uarwolaeth

Marw rys dreic enwerys drud
Am gwnaeth drwy hiraeth driſtyd
Rwg gedymddeith cludueith clod
Am arglwyt mawrglwyf golled

Colleiſy rys colled nym peiſc
Vab llywelyn llew aerffyſc
Gwr am parchei parch dileſc
Ac am rotei rut eurwiſc

Gwiſcawc varchawc veirch hywet
Oet rys rwyſc llew yn ymlat
A drud geir dreic gwynnyonyt
A diſtein gwawr prydein prut

Prut alar am rys nym roeſy hoen
Prifwalch cadarn haearngaen
Chwetyl oer y euruab ywein
Ae gyfoeth a doeth oe dwyn
Ducoſt rys ar urys &c.

Digitized by Google

MARWNAD MADAWC MON.

Y PRYDYT BYCHAN AE CANT.

O L. D. D.

Madawc mon mal kynnifywr
Bu gwletawc oe nerthawc ner
Ae daeran ae duerlew bar
Bu briw ger bron y eryr

Oe eryr bu oer golled
Dwyn madawc dreic vodawc drud
Oe dy digart hart hyuryd
Oe wayw nyd oet waeth y glod

Oet cloduawr cludueirt otef
Madawg mon kein rotyon cof
Oet tauawd coeth doeth digrif
Ar lles pob neges oe naf

Kyd ae naf cadarn yg grym
Madawc leif aerduryawc lem
Oet pargoch yn aes droch drom
Oet glew lew o lwyth y cam

Llwyth y cam keimyeid dinydyr
Ae colles colled anvedyr
Llary vadawc brif enwawc brwydyr
Llew gwrthgloch burgoch baladyr

Oet briw baladyr cadyr cadcun
Oet brwyfc y rwyfc rwyd gelyn
Pefr drafn par eurllafn aerlladd
Pann Môn am ddraig Penmynydd
Pen cenedl pen aig Gwynedd

YR UN GWR. I DUDUR[1].

O L. E. D.

Doeth i blaid eirchiaid erchyll
Hir annerch a hwyr ynnill
Brwydr gwirlafn trev Caftell
Brwyn a dogn gwyn oi dygn goll
Rhagorawl pob rhyw giried
Oedd fy Arglwydd Udd fawrglod
Traws ofyn tir treifyfiad
Tra fefis cyn trais ofid

Gwae fi lorf eurgorf gwawr aergur cyfarf
Gwayw didarf gwiw Dudur
Gwafgu llew gwas glew gleifddur
Gwaifg haearngaen ym maen mur
Aml uch grann o'i hynt Fangor
I'm didyr deigr am Dudur
Aelaw ynof ei alar
Elyn gryd Alun gryfder

1 *Canlyniad yr awdyl ragvlaenol yw hon yn* Ll. L. M.

Digitized by Google

YR UN I DUDUR PAN OEDD GLAF.

O L. E. D.

Claf yw nêr nifer nefawl aur anaw
O Ronwy rwyfg Greidiawl
Caer ar aer car arwrawl
Cedyrn oftwng deilwng dawl
Cadw hyfryd iechyd Echel greddfawl cân
Ucheldad mâd meidrawl
Er dy donn fron frenhinawl
A'th boen gulwydd hylwydd hawl
A'th greuloes ath groes ath grog freiniawl râd
Yftyr raid ath ganmawl
Canhorthwy Fair fy eiriawl
Canwyll hardd ath farth ath fawl
Cadarn uchaf naf cêd nefawl arglwydd
Erglyw llef negefawl
Am lorf corf ciwdawd gwawd gwawl
Am lew gawr am le gwrawl

Oth hireint [1] eurfraint aerfrad arynaig
O Ronwy frwydr gyrchiad
Nid oes na berth nerth neirthiad
Na hydr fudd na rhudd yn rhâd
Na pen na pherchen na pharchiad ar fardd
Rhoift i feirdd dy ddillad
Na chyngaws bwyll echyngiad
Na chyngor mydr ragor mâd
Tra fych naf yn glaf gloyw guniad hoywlorf
Hywlych grudd a llygad
Traws ein gawr gwynllawr gwinllad
Trofedd gwledig orfedd gwlad
Och fi eryr gwyr gwriad pennadur
Fod poen Edyrn arnad
Iechyd a hyd hoedl gariad
Athraw nefawl goeth doeth dad

Och wael drymglwyf rhwyf rhodiad budd fawredd
Byddaf farw am danad
Och wifgoedd gwymp ath wifgad
Oth wafgawd ni fu wawd wâd
Dyfod dewr arfod aerfawr ffyfgiad trin
Mewn trift ofal gwaffad
Mur dur dewr darpar car cad
Mair a wyr mawr a irad
Oth hirhaint hoyw fraint nid hyfryd yr un
Oronwy lafn creulyd
Oth air ath arf gedernyd
Ath glod faith nith ddaw gwaith gwyd
Oth wengred giried gwryd annirgel
Yn aergad ddihewyd
Ath ddawn ath ddinam lendyd
Ath ofeg ath brifdeg bryd
Och ner fod gwander Echel Gwyndyd traws
Ni'm gwnêl treis diofryd
Erglyw Grift fy mawr driftyd
Arglwydd grym am eurgledd gryd
Rhen rhwy folaf naf nefawl wryd gwir
Gwared boen a chlefyd
Rhad yfbys budd rhaid efpyd
Rhudd baladr ger rhaiadr rhyd
Rhyfedd yw fy myw fy myd am harglwydd
A mawrglwyf i'th blegyd
Rhaith rhuthr brwydr aergrwydr ergryd
Rhywiawg difradawg dy fryd
Rhyhael eurgrair Mair mawredd lendyd hydr
Ath ro hoedl ac iechyd
Rhi rheufedd rhuddgledd rhoddglyd
Rhi rhwyfg heirdd rheufedd beirdd byd

[1] Hirhaint.

Digitized by Google

Os claf Modur mur mawredd garannawg
Goronwy grair gorſedd
Gwiw enaid beirdd gwae wynedd
Gwawr gwindai ni haeddai hedd
Na wna ddig tremmyg trwm ledfrydedd
Fair
Er dy fawr drugaredd
Am gar am giried rheuſedd
Am gain edmig wledig wledd
Ucheneidiau mau och na medd fy mryd
Haint fy mrawd cyfannedd
Uchel ddar Echel ddewredd
Iechyd i'w weddeiddbryd wedd
Anhyfryd ir byd bod anhunedd clwyf
Ar fy rhwyf nid rhyfedd
Arf golofn eirf ymgeledd
Eryr teyrn meddw-gyrn medd
Oer yw hirfod clod clo rhyſedd
Gwendorf
Mewn gwander yn gorwedd
Eurllyw o haelion fonedd
Aerllew balch glew bolch ei gledd
Och fi Arglwydd rhwydd rhwyſg natur
ywain
Awydd dewrder Arthur
Nad yſtyr Mair dy doſtur
Ath glefyd frwydr fawrfryd fur
Iechyd wrth fy mryd fy mrawd eglur
ddawn
Y gan Dduw bennadur
Ath ddêl oth haint ath ddolur
Ath ddileddf anawdd gawdd gur
Arwyrain madlain modur aur anaw
Oronwy fab Tudur
Arfod air pair paredur
Arf yn ing aer ddirfing ddur

TERFYN.

Yna canlyn Awdl i Dduw gan yr un gwr—yſef—Lleddf ddeddf ddoeth eurgoeth &c.

GRUFFUDD AP MAREDUDD I DUDUR FAB GORONWY.

O L. E. D.

Llew glew gleiflym grym gryd fflemmychu
Llorf corf cad ceimiad camon [1] daſgu
Llaryeiddwalch gelrfalch gorfu abrwyſgldyrf
Llyry byrffyrf briwgyrf bragad fylchu
Llid prid prif yngnif yngnaws cyrchu
Llyw glyw glwyd yſgwyd eſgar bylu
Llyr ofn aer frwyſgddofn ar freiſgddu
fronndor
Llawch feirdd iôr angor Eingl dachweddu
Llwyr ddarogan bran i'm brawd y cu
Fab Dyfnwal arial gal ddigelu
Llwyddiant rhuthr llin uthr aeth lle bu
ffrolo
Llafn gelyngno clo clod cynnu
Llun Rhun gun Gwynedd fedd feneſtru
Llyr gedwiſg eryr gad waſgaru

[1] *Neu,* cammawn.

Digitized by Google

Lluniaf wawd tafawd er tyfu ym byd
Lluniaeth dihewyd bryd o brydu
Luch fflamddur Dudur dadl ddiblygu
Llachar dar bar berth fawrnerth farnu
Llachau glod oleu yn glew dalu gwaith
Pan fai wyarllaith pun faith fathru
Lleiddiad digiliad galon grynu
Llaw rodded nodded Nudd gyftadlu
Lliwrudd wayw diludd wiw deulu ffyrnfael
Llawrudd hael diwael Duw iw adu
Lladwin wrawl grair borthair barthu
Llyd wawt wawr byrddwawr[1] beirdd gartrefu
Llawn gyflawn hoywddawn llwrw haeddu om brawd
Ni wnaeth trindawd ffawd ffordd iw gablu
Tarian lwyth Tewdwr gwr iw garu
Tremyniad faeth gad feithgant alltu
Twr gwr gwrdd blaid greid grym car cu yn gadoedd
Tarw ar arw aeroedd dorfoedd darfu
Tryftan hir am dir yn ymdaeru
Traws maws mawrddrud clud clod ennynnu
Terfyfg llew dewrddyfg llid arddu gatgun
Tarf cun rhwyf Alun yn rhyfelu

[1] *Neu*, byrthwawr.

Trachwerw ferw fawrdorf lorf corf coethlu
Trychiad bryd gryd grwydr frwydr fredychu
Troches goelfain brain uch bru gwyarllif
Trech yngnif no rhif y rhiallu
Tryfer cad neirthiad nerthawg allu
Trefn heilrwyfg huailrifg heiyrnblu
Treiglawdd clud ddattawdd clod hyd ddeutu afn
Trafn llu egr ai liflafn Lloegr elyflu
Treigl om bronn annerch ferch difyrchu
Traglew llew lleiddiad gad gymmynu
Taerlaif gwyargnaif gwayw irgnu gwaedlin
Twrf tarf tan chwefrin drin dremynu
Trwy frys oi lys lwys ddwys ddeifyfu
Trwy frawd y geudawd trwy ffawd fynnu
Trwy lithiaw branes trwy lethu Northmein
Trwy lathr arwyrain gain ganhiadu
Trwy rad mawr gwawr gwaifg i'n braifg brynu
Trwy rodd trwy fodd foes trwy oes Iefu
Trwy aur borthair Mair maethlu Mihangel
Pawl Pedr Gradifel y del oi du

YR UNGWR I DUDUR NEU RONWY MEDD Y DR. DAVIES F'ALLAI MAI I YWAIN GLANDWFRDWY.

O L. E. D.

Llachau Gwynedd llyw dwyorfedd llew diarfwyd
Llucheden bar wrth aer yfgar Arthur yfgwyd
Llafn trafn treigliad deo cynheiliad deucan haelwyd
Llwybr gryd bryd brwyfg lliaws gedrwyfg lleas gadrwyd

Digitized by Google

Llyr oſgorddion wythlaith galon nithlyth gilywyd
Lluryg frwydr-chwant o'th ddewrfeddiant ni'th orfeiddiwyd
Llioſawg drafn ergryd lym lafn aergreu blymlwyd
Lluniaiſt orfod o lewder clod hyd loywder clwyd
Lloegr ddeifr goddi arawn ynni Urien anwyd
Llorf corf canwledd eiſlath ddurgledd aeſlwyth ddorglwyd
Llyw llym grym gryd o'th ddewr blegyd ni'th hir blygwyd
Llew llyw orllin milwr dorch trin mal aerdwrch trwyd
Gwnaethoſt yn aer catgun eurfaer coet-gwn irfwyd
Llithiaiſt ath ron aer feryſon ar fore fwyd
Gwnawn glod yntau oth draws gampau n'ith drais gwympwyd
Gwas yngarthan a thrwm ogan ni thremygwyd
Gwayw gwaith liwed hyloyw giried haelyw gorwyd
Gweilging ongyr yt teg eryr etto geiriwyd
Gwaywawr trymffyſg mal o'th eurddyſg mal i'th urddwyd
Gwerſyll porthfrain o'th arwyrain i'th oreurwyd
Gorſafwr trin dewrdwrf Cunin durdarf Cunwyd
Fy ngwalch balch berth da oth fawrnerth doe ith farnwyd
Fy ngwelygordd coed-dur oſgordd cad taer yſgwyd
Fy mhôr llawged tirion drefred tarian dryfrwyd
Fy nghydymaith aeſawr eurfraith oeſwr aerfrwyd
Fy nghariad gwrdd cymmen agwrdd cain a wnegwyd
Fy nghyfwyrain fy nghâr durllain fy ngharw dewrllwyd
Fy nghorf torf taer fy nraig yn aer fy nragon wyd

TERFYN.

GRUFFUDD FAB MAREDUDD I ORONWY FAB TUDUR.

O L. E. D.

CYFARCHAF i'm naf nefawl rinwedd
Cyfarch parch parawd ffawd ffyddlawnwedd
Canmawl fy rhiau modd-wleddau mêdd
Ceinmug rhoddfudd rhudd Rhun gymrodedd
Cyfun Oronwy rhwy rhwyſg mawredd
Cofiawdr ffrwythlawn ddawn ddinam falchedd
Cyfarf arf eurgrair gair gorfoledd
Cyfiawn frawd tafawd deifr gyfryſedd

Digitized by Google

Cyfiawn frawd tafawd deifr gyfryfedd
Cadarn farn feirniad gwenwlad gwinwledd
Cadernid Gwrlais aerglais eurgledd
Cedyrn wyfg gyrddfrwyfg gwrddfrwydr dachwedd
Cadarnfab Tudur mur marannedd
Cyftal Nudd am fudd fedd gorhoffedd
Cyftegwr byddin drin drachywedd
Caftell gawr clodfawr cludfalch fonedd
Cyftwg brwydr aergrwydr eurgrain gorfedd [gwyledd
Canwyll pwyll ddidwyll am ddadl
Canllaw llioſydd mewn dydd dygnedd
Cannrwyfg tonn erfid llid llawfrodedd
Cynrhain brain breiddfawr gawr goruthredd
Cedawl yw fy llyw llaw ddiommedd
Cadr wryd Gwyndyd gwendorf gyfedd
Cyd fryd frwydrglwyf rhwyf Rhuon ddewredd
Ciwdawd ffawd ffyniant farant fawredd
Ciried ced cadrblas gwanas gwnedd
Car dor ior eurwyrdd cyrdd cynnadledd
Car dar dewrfryd gryd greidiawl ddewredd
Corf torf llorf lliaws o draws drofedd
Cynnadlfa anant borthiant berthedd
Cenedlfawr eryr gwyr gwirionedd
Colofn llwyth Cynwrig ryfig reufedd
Coelfain byd efbyd yfb gynnadledd
Cydles plaid cynhaid rhaid anrhydedd
Coeth lwybr cad fragad friwgur gochwedd
Cynnydd aur rofwydd cain ei ryfedd
Cannwyll cerddorion clod Fôn a fedd
Parch meddfawr aerwawr eurwalch cenedloedd
Cain adlam caer wengalch
Parawd lorf torf tariandalch
Pair gwaed ddafn par bylchlafn balch
Rhwyddwalch arf cyfarf cofau beirdd Prydain
Rydd arwyrain cain Cai ddefodau
Rhodd ehofn ddïofn ddehau ciwdodoedd
Regoedd cenedloedd au cynnadlau
Rhydderch ganmawl hawl i wyliau ymgyhwrdd
Rhun agwrdd ymwrdd aml laddfäau
Rhyfig urddedig ar ddadlau milcant
Rholant un ffyniant barant beiriau
Rhyfawr giried ced cadau yftyngiad
Rhyfig cariad mad modur gwleddau
Rhyfalch aerwawr gawr goreu ith fernir
Rhi cywir llawhir llyw brynn byrddau
Rhuawn hynt lluchynt rwyfg llachau
Rhyfwr rwyfg Tewdwr tydi biau
Rhysfa clod orfod arfau dân llachar
Rhyfedd Ul Cefar par peryglon
Rhagoraift Ronwy ragorau amlder
Rhag balchder nifer fy naf hyglau
Rhagor rhugl aerfor eirf ddoniau llathrfrwyfg
Rhag llif llafur dwyfg uch rhwyfg rhydiau
Rhwydd wawr cynnyddfawr cynneddfau diwag
Rhwyf cyrdd fyrdd feirddfag ddinag ddoniau
Rhyhael aerllew glew gleifiau cann weli
Rhuthr ynni Beli beleidr gwaed ffrau
Rhyhydr ffyrfder ner nerth gwydneu yn gawr
Rhwol gofgordd fawr gwawr gwirodau
Rhwyl giwdawd parawd parau Llychlyn ddur
Rhwyf natur aerfur erfid brwydrau
Rhyfelgad neirthiad nerthau Cadwaladr
Rhudd baladr oefgadr yfgwyd ddrylliau
Rhugl ffoffawd wawd riau ardderchawg
Rhywiawg ddigwympawg dda ei gampau
Rhuthr ddychryn gelyn golau gyhydreg
Rhyfgyr môr-waneg îor teg yw'r tau
Tau ——— fonedd o faint cenedloedd
Twr cadoedd cadr ith wnaint

Digitized by Google

Cymryd gwr cymrawd geraint
Cymro braiſg Cymry ai braint

Breiniawl Oronwy bryd cyd cad ardwy
Brys lys les ofwy rhwy rhwyf Eudaf
Brawd eurwawd aerwawr bryd gryd gwrhyd gawr
Brad cad ced waywawr dramawr dromaf
Brwydr lorf corf cadfyrdd braiſg gwaiſgawd wyrdd
Brwyſg rwyſg rwyf myrdd cyrdd cerdd waeſaf
Beirdd heirdd hardd ddatcan budd rudd ruth oſbran
Bodd rodd rod fflamdan darian daeraf
Dadiain gain gyngor didarf arf Ector
Difreg reg ragor dor derwynnaf
Didawl fawl foliant dadl frwyſg rwyſg Rolant
Dedwydd cynnydd cant gwarant gwraf
Dawn llawn llaweh meddgyrn doethboſt coſt cedyrn
Deddf chweg deg deyrn gwiwchwyrn gwychaf
Dewrwr twr torfoedd dar car cenedloedd
Dor cor ciwdodoedd achoedd uchaf
Aerlud ddrud ddragon erfid llid Llion
Eryr mwynwyr Môn roddion rwyddaf
Eilnerth gerth gedawl eurddraig Maig meidrawl
Erddrym grym greddfawl hawl hael adaf
Eur air pair penrhaith aerwymp tymp pobtaith
Aergorf lorf Loegrlaith gwaith gwythlonaf
Eurgledd rhyfedd rhad arglwydd rhwydd rhoddiad
Aerglais trais trom gâd mad modrydaf
Crair gair gorwyrain creuddafn llafn llithfrain
Cedlorf corf cynrain cain cyfiawnaf
Cyfarch parch parthryw cyfarf gloywarf glyw
Colofn eofn yw llyw llawenaf
Cedawl hawl heiliaw coſtwin drin dreiddiaw
Cant anant anaw aelaw alaf
Ciried oeſged wyſg corf torf llorf llifdwyſg
Car par parawdwyſg rwyſg rywioccaf
Nod clod cleddyfal naws maws moes Dyfnwal
Ner ffer ffyrf arial mawrdal mordaf
Nawdffawd ffyddlonrwydd Nudd budd boed canmlwydd
Nerth berth certh cedrwydd hylwydd haelaf
Neud mael hael hynod a nudd prudd prifnod
A nen pen pob clod orfod arfaf
Nis arwedd gwedd gwawd angerdd cerdd ceudawd
Nis traeth maeth meithfrawd fafawd hyd Tâf
Gwr twr tormennawg unrhwyſg brwyſg breiniawg
Am llyw rhyw rhywiawg niferawg naf
Naf a wîr folaf orfoledd ceudawd
Ni char cadw na gommedd
Ner nerth clod ffraeth modd faith mêdd
Nen urddas gwanas Gwynedd
Gwynedd amgeledd fêdd feneſtri
Gwanas ciwdodoedd rwydd wiſgoedd ri
Gwr addwyn terrwyn yn torri aergad
Gawr fleiniad feiddiad waſtad weſti
Goreu yw fy llyw llafn rhuddweli
Gwarant hawl anant o haelioni
Goruthr fryd ennyd ynni llawrodded
Gwawr clodred llawged Lloegr folochi
Gwâr wrth wâr hygar hoyw gerdd hoffi
Gwrdd wrth wrdd ymwrdd aml ddaioni
Gwr wrth wr milwr mal Elifri lewgorf
Helmdew glew ——— gleifiau gochi

Digitized by Google

Gwir fydd iddaw glod hynod henwi
Gwrdd digrawn oi ddawn ai ddaioni
Gorwyn ffawd tafawd ger Teifi gylchwy
Goronwy ardwy aerdorf fengi
Gwryd bryd gryd greddf dileddf doli
Gwrawl hawl hwyl Nudd budd rudd roddi
Gwrdd ffyniant Rolant yn rheoli cad
Gwrdd ffyfgiad rhoddiad rhudd a phali
Gwayw ddur bar aefbar efpyd lochi
Gwiwddoeth farn cadarn cedeyrn ddofi
Gwaed raiadr baladr gwiwder Beli hir
Gwalch cywir llawir llawer borthi
Grymmus diwael hael hwyl didroffi
Greir torf corf ciwdawd gwafgawd gwifgi
Gwr greddfawl gwrawl yn egori gryd
Fal rhyfelfryd gwyd gwynt ar dderi
Gwaith fy naf balchaf rywioccaf ri
Gwneuthur brwydr doftur bradwyr dofti
Gwychr ddyfg fal terfyfg taerfor gweilgi gann
Gwenyg fann am lann yn ymlenwi
Gwafgarawdd alaf braint uchaf bri
Gwafgawd cyrdd i fyrdd o farddoni
Gwafgawd braifg cydwaifg cydwedd Benlli gawr
Gwr clodfawr yngawr yngwrhydri
Gofgordd falch eurwalch aerwŷr gofpi
Gofgorddion Cynon yngreddf cyni
Gwaifg arglwydd culwydd celi cyn addef
Gwaefaf aur dangnef nef iw noddi
Nawdd Crift arglwydd rhwydd rhwyfg gwyr hael addfwyn
Ar hylwydd fab Tudyr
Neirthiad ffawd llwyr cymrawd Llyr
Nerthawl arwrawl eryr

TERFYN.

G. M. D. I ORONWY PAN OEDD GLAF.

O L. E. D.

GWAE fi fod arfod arfaeth goddi par
Mewn haint perygl borthi
Gwae fyrdd gwae gyrdd gerdd lochi
Gwae anheirdd gwae feirdd gwae fi
Dod wared lyw cred crair pumweli nef
I naf clod haelioni
Aur golau orau geli
Ardderchawg drugarawg dri
Armes fu rodres Rhodri ar wynedd
Oronwy gad gofpi
Arwymp ei fudd rudd roddi
Eryr gwaifg aruthr fraifg fri
Aros trymglwyf rwyf ryfig Benlli gawr
Eurwawr mawr mur cyni
Aer baladr arfau Beli
Arf gwinwledd Gwynedd gwae ni
Os gwan glew anian gloyw ynni Rhyddderch
Roddiad gwyrdd a phali
Mur dur dar dewrfrwyfg rwyfg ri
Mirain Nudd Mair iw noddi
Boed hir hoedl fraifg vaifg gwafgawd cenedloedd
Cain adlam noeth a thlawd
Arf ddeufin araf ddefawd
Ail Rolant uthr ffyniant ffawd
Os claf ner dewrder awdurdawd mordaf
Mawrdeg bwyll gymmendawd

Digitized by Google

Och rhag gofal mal molawd
Am eryr mawrfudd Nudd nawd
Uchaf geli tri wyd trindawd arglwydd
Erglyw feirdd bydyſſawd
Am achub clwyf nwyf nychdawd
Am iechyd i'm bryd a'm brawd
Eurwawr cywir gwir gwarawd Oronwy
Aur enaid ei giwdawd
Argae gawr ergyd gwawr gwawd
Aergad bair eurged barawd

Hoyw-gyfarch erbarch aer bar Goronwy
Garannawg glew digar
Hylithr ei wyrdd cyrdd cerddgar
Hawl fynawg ddwyrëawg ddar
Hoedl hawſder i'm ner yn oer eſgar drom
Un dremyn Ul Ceſſar
Hydr neidiad gwengad gwingar
Hoywdeg wawr hygoſt fawr far
Hir ym cyfyd bryd brwydrgar echwynwr
Uchenaid anghlauar

Herwydd gofal anhalar
Hiraint hwyl Geraint hael gâr
Hoyw Oronwy rwy rywiawg farddair
beilch
Bwlch greulyd wyar bair
O'i gedawl fudd a'i gadair
A'i ged oi giried a gair
Haint a'th glwyf fy rhwyf ail rwyſg
Gwair fab Gweſtl
Gwaſtad drin digyngrair
Gwared gwir lawgred loywgreir
Gwyry eurwawr gwirion fawr Fair
Dod ym mrwydrwawr gawr gwraf
Oronwy
Aeradwy aur adaf
Gwir iechyd Griſt goruchaf
Gwâr yſprydawl nefawl nâf
Mael hael hail fuail oi fwyaf doſtur
Ai ddolur ydd wylaf
Meddgyrn mawr deyrn Mordaf
Maith fod mur y glod mor glaf

TERFYN.

MARWNAD ORONWY FYCHAN A FODDODD.

G. M. D. AI CANT.

O L. E. D.

NI chlyw na chalon na chluſt
Ni thraeth tafawd tromfrawd triſt
Murn dig a mab Mair yn dyſt
Mawr far no marw dar mor doſt
Llawer o nifer anafu Gwynedd
O'i ddirfedd a ddarfu
Ai arfau ymrwydr a orfu
A wyr ddrwg llwyr am ddraig llu
Bu dygn bid ogylch dolur
Am fleiniad gwengad gwingar

Boddi draig bleiddiad ragor
Baedd yn aer byddin eryr
Llawer och ior llawhir oedd
Llwrw galar am flaengar flaidd
A gwae a thrymgwyn a gwaedd
A hidl ddeigr oi hoedl ddigwydd
Rhyfedd ym fyw llyw llawged
Gan gyfar o gwyn gofid
Aros chwedl iawn irad
Yn ôl ior ynial wryd

Digitized by Google

Echaws bod clod clo marmor
Ochl brwydr-waith ail Beredur
Fehwng dan ais trais trahir
Ochrog helm och rhag galar
Chwedl maith gaith gyfrange trange trai
Chwerw trift ym maengift y mae
Ior torf corf coeth a ddoeth ddoe
Ar Wynedd am Oronwy
Triftawyd beirdd tros daear
O farw ffrwythlonaf eryr
Tromgad fugail ail Ector
Tramgwydd brwydr trymgawdd bryder
Trefnodd ynof cof cofl dra girad dig
A beir deigr ar lygad
Trafn aer dorf trefn ei eurdad
Trahiraeth farw cydfaeth câd
Cawdd am gorthrymmawdd no thramwy galar
Am golofn Dindaethwy
Mau gofion am Oronwy
Mab Mair ni wnaeth hiraeth hwy
Penyd oer poenau a dig
Plaid genedl Gymry fu'r plyg
Pell Grift farn drift a furn drwg
Pallu o'r pwll du pwyll deg
Pan ddoeth poen ddethol ofid
Tramgwydd am arglwydd mawrglod
Ys aml ar bobl a fommed
Yn Lloegr am ei hun llygad
Doeth am ddraig mil hil hiriell
Dygn dramgwydd deugwyn drymgoll
Dibwl y gorug dubwll
Am orchudd llew ymerchyll
Nim try hoen rhag poen pennydd
Marw eryr Penmynydd
N'im treigl gwên o lawenydd
Neu'm trig nawd dig nôs a dydd
Caiff ef yn nef naf ofgordd
Llawenydd eglur mur myrdd
A hiraeth gwr medd-faeth gwrdd
A fydd a'i farw-ddydd iw fardd
Gwelais yn gwyngor gwiwlethr
Erfai helm arfau hoywlathr
Gronwy ddidarf arf aruthr
Gryd gyrchiad oefgad yfgwthr
Aerllafn dau finiawg eur llythr
Irllawn fy neigr o'i oerliithr
Rhoed yn ael rhodiwn alar
Menai mewn rhwym bedd mynor
Gwas glwyfdewr mewn gwifg lafdur
Gwaith uwch gorwydd braifg breichir
Gwiw ei lafn gwayw Olifer
Gwawd hydr o lin gwaed Tewdwr
Dygn oedd roi poft coft canrodd
Diriai Ffrainge mewn deiw a phridd
Car glyw llyw llŷs Benmynydd
Cor brodyr troednoeth a'i cudd
Corf ced eurllorf câd aerlladd
Cwyn trais wenwyn tros Wynedd
Dod fab Mair lle ni wnair nag
O blas ni ddel arnaw blyg
Hwyl oth wlad hoywlwyth wledig
Heliwr gryd hael ior ygrôg
Hwyl ddoèth a roi hail a ddug
Helm ddur hil i Dudur deg
Drud fu dawl rhuthr mawl Maelgwn
Neddair dyfr yr anoddyn
Aruthr gedernyd Aron
Arial milwr gorph Urien
Ar llwybr rhyfel frwydr orllin
Ar llew dewr eurlliw darian
Dioer bu or iawn a llawn llid
Diwraidd draig mewn dewredd drud
Dieidd graig da oedd ei gred
Dewr a grym yn diriaw gryd
Duriol gledd dirwol glod
Dar ymlaengar ymlyngad

TERPYN.

Digitized by Google

G. M. D. I S^R. HOWEL AP GRUFFUDDD. MARWNAD. O L. E. D.

Gwelais lewddoeth hael gwiwlys wleddau
Ai loywfeirdd yn cael ei alafau
Yn rhefnant winllys yn'rhefnau clodfawr
Tra ydoedd ein gwawr cyn trai oedau
A chynadlu beirdd a chain odlau
A chenedloedd yſp oi chynadlau
A chwyn udlef wyf och yn nadleu lid
A chael a fynnid a choelfeiniau
A gwyr ieuaing beileh a gwaryau
A gwir awdur beirdd a gwirodau
A gwargwmpas clod mewn gwir gampau
Nudd
Ar ail eurfudd eiriol arfau
A rhoddi yn ymwng rhuddion emrhau
A rhwydd orchwylion Rhydderch heiliau
A rheieidr o win ynghylch rhiau hydr
Mewn aur a gwydr muner gwawdau
A chyrdd adeiniawg a cherdd dannau
Uch y neuadd deg a chynneddfau
A chain addwyn-walch a chynneddfau
heirdd
A chyfeddach beirdd och oi faddau
Echwyn yw a dyf a chwyn a dau
Ochain Edyrn bron ucheneidiau
Achos galar iôr ni chwſg goleu gnif
Llefain annigrif llif yn nagrau
Uchel roddaf wyf achul ruddiau
Och ar ddayar haf uch eurddyau
Achwyn girad fu och un goreu Iôn
Echwng hoywrym Môn a chynghorau
Echyngawdd deigr bardd uch uch ei
enau
Och anawdd yn ddig gyd a chwynau
Echyngawdd ym boen a cheingiau
hiraeth
Och yngod a wnaeth anwych angau
Iawn alarus wyf ynial oriau
Un oleurwydd triſt yn noluriau
Am oleufryd cadw aml lyfrau da
Am eiriau Beda mawrwybodau
Am giried a mawl am gar nid mau
Am gariad Gwynedd am ragorau
Am guddiaw Howel i'm goddau tram-
gwydd
Am gwyddaw farglwydd rhoi gwaedd
fawr glau
Trafaeliawdd fy mryd trwy ofalau
Treiaw buarth clod un tri biau
Trwm o ddolur fydd tra meddyliau car
Am lyw ac eurddar amlwg urddau
Tri mwy yw'r goglais tra mawr giglau
Tri phenyd galar rhac tra phoenau
No chwerw alaeth bron gan chwarelau duſ
Trymfryd ar lafur tromfrwydr lifiau
Trech y llidiawdd hon tra cholledau
Trwy hanner y fron er traheiniaw
No dryganian fflam y dŵy gynnau derw
O gymmell hirerw gain alloriau
Triſt y gorug Duw trawſdeg eiriau
Tros lawr daear Môn treiſlwyr diau
Trefn hyglod y doeth trafn hyglau nid
byw
Trwm eryſſedd yw tri mwy'r eiſiau
Can aeth amlwg iôr cain ei themlau
Lwys gyfoeth mab Mair liaws gofau
Gwae ddaear Wynedd gweddiau gydfod
Gwiw fynnai pob clod a gwae finnau
Er gwyar grog Leyn ar gwayw irgrau
An rhaid brynawdd yn rhad a breiniau
Ath ddiwarthaf daith a'th hoyw wyrthiau
grair

Digitized by Google

O ragor pwyll Mair iôr yr eigiau
Dwg heb lyfiant Duw deg ei blaſau
Wyr i Dewdwr mawr aur ei deidiau
Uniawn rydid nef anian radau llwyr
O glod a ſynwyr gwlad y ſeiniau

G. M. D. I HYWEL AP GRUFF. AP TUDUR. MARWNAD.

O L. E. D.

Gwisgawdd bedd eurgledd aerglo lluryglas
Yn llawr eglwys Feuno
Gwr duriawl rod clod Clydno
Gwae ei ryw na bai fyw efo
Irllawn oedd farw trwy oerllid
Orllwyn deigr orllin dwygad
Aerddar glew eurddor y glod
Urddawl ail Greidiawl ael gryd
Mâb am gwnaeth alaeth ddolur
Mair fawrgoeth os marw f'eurgar
Mau lefain am Olifer
Yn rhwygaw brwydr yn rhagor
Llywiwr hyfrydwch llawen
Pei byw llyw llid mab Alun
Drud y dial ar alon
Draig brwydr rhag drwg o Brydin
Aml am eryr gŵyr gwaywrudd ar dromgad
O dramgwydd Mab Gruffudd
Uchel goſt achul gyſtudd
Och a llef groch a llif grudd
Cad arnam oerwall cedernyd Cymry
Farw Cymro hael cerdd glyd
Treiſdwyn ior Tryſtan ŵryd
Traws yngawr trais fawr tros fyd
Achaws dwyn llorf corf canmil
I'r ddaear gynt ar ddëol
Echwng is fy mron achul
Och hywyllt am wych Hywel
Gwae fi farw rhi Rhun oſgordd
Gwerin garw Gwair o angerdd
Gwawr trin a roes gwin a gwyrdd
Gwalch urddawl balch arddelw bardd
Neud hiraeth oergaeth argel mynor
Myned balch-ddrud Hywel
Nattur un galon ottiel
Naf oedd ddewr i nef ydd êl
Ni bu falch haelwalch heilwin awdurdawd
No marw dewrder Elffin
Na thrais na gwaedd baedd byddin
Na thrangc aerddraig brwydr a thrin
Gwae fi Howel na'th welaf
Yn fyw llyw llew cadarngryf
Gwnaed Criſt triſt treiſdwyn ewyn cof
Gwawr nerth ymhlith gwerin nef
Clwyf trymgwyn treiſdwyn trifted f'uchenaid
Och wynedd o'r golled
Trin cynnefin cynyfed
Clodfawr yn nydd gawr Nudd ged
Och farw rhyw fawl garw rhyfelgar aeſawr
Echeidw llawr gwawr gwaywdaer
Eurddwrn rif myrdd cyrdd cerdd glaer
Urddawl Arthuriawl wrth aer
Cwbl fu cain deulu cyn diloyw ddaear
Prudd yſgar pridd oſgoyw
Clo cadau aer-gran ir-groyw

Digitized by Google

Clo clod rhyfel Hywel hoyw
Corf Gwynedd cyn bedd cain baingc orchaead
Ennyngad uniawngaingc
Brwyſg-lym lafn eurdrafn aerdraingc
Brwydr drom a wnaeth ar ffraeth Ffraingc
Llorf didwyll Llyr bwyll llawr bedd a'i cynnwys
Canwyll gwlad a gorſedd
Llyw yn rhaid llaw anrhydedd
Llew oedd ddewr glew a'i ddur glêdd

TERFYN.

GRUFF. AP MARED. I RONWY FYCHAN AP TUDUR.

O L. E. D.

NEUD triſt im gwnaeth Criſt croes dangnhefedd
Neud tros ofid llid a lledfrydedd
Neud rhyfawr golled nid rhyfedd am clwyf
Neum try yn hynwyf tra anhunedd
Neud trymfryd penyd poen ddifäedd
O gyfrangc trangc trafn llafn llawfrodedd
Neud tromfrawd tafawd am etifedd llew
Erfai cychwyrn glew arfau cochwedd
Neud truan i'm gwân gwayw irllonedd
Neud trahir maddeu glew lachau gledd
Neud amlwg i'm dwg dygnedd galarfrwyn
A feirw orwyllt gŵyn oi farw orwedd
Neud trwm hepgor lor dor y dewredd
Neud trom anrhaith faith gwaith gwythlonedd
Neud trais trawflorf o ael tiredd Meig
Myned eurfalch ddraig mewn daearfedd
Neud braidd yw ym fyw o'i farw dudwedd
Neud braw ein treiſiaw am ein troſedd
Neud bron don yw hon o'i hannedd a dry
Am golofn Cymry a'i hamgeledd
Neud breuawl chwedl toſt farw coſt canwledd
Neud brwyn cwyn cân-myrdd am gyrdd Gwynedd
Neud breuddwyd arſwyd orſedd gynheilliad
Am lawhir ynad loyw wirionedd
Ni'm daeth na gwyngen na gwên na gwêdd
O'i ddyfrys angau dan lifddyfredd
Ni'm daw eithr wylaw uthr ddialedd chwedl
Dros firain genedl am draws fawredd
Neud hiraeth am gwnaeth gaeth gynnrygedd
Neud herwydd tramgwydd tromgad gydwedd
Neud tra Edyrn chwyrn chwerwedd gwenwynig
Afreolus ddig o'i farwoledd
Neud bu am nad byw llyw llaweredd
Golled fu doſtur mur maranedd
Er pan las gwanas Gwynedd berfeddnod
Hydr deyrn a'i glod hyd ar duedd
Cynhebyg fyddai ni haeddai hêdd

Digitized by Google

Twrw torredwynt graen am gaen gogledd
Cymrwd mawrair glod cymrawd muredd daer
Ynghymynad aer ynghyminedd
Cwyn golau yw'r mau mi ai harwedd
Treiaw Goronwy trafn mordwy medd
Côf garw o'i lwyr farw ei alarfedd oedd
A bair filoedd heb orfoledd
Cynnydd ewybr oedd cyn noi ddyedd
Cölofn ofgorddfawr llawr arllechwedd
Cadflaidd teyrnaidd teyrnedd ener
Eurlliw ei faner o ieirll fonedd
Compod clôd cludfeirdd o heirdd harddedd
Cwympai grau angau Eingl galanedd
Cein dduriawl ei bar uch cynddaredd gryd
Yngwyth gerwin fryd yngwaith garwedd
Corf ior dor durgrwydr frwydr ddifrodedd
Corf torf llorf lleiddiad o'r wlâd i'r wlêdd
Cun Reged unllid mewn cynrygedd blin
Cariad rhyfel trin ciried rheufedd
Cwyraint oedd ei fraint fraifg anmynedd
Cywair oedd ei air aur gymyrredd
Cywir oedd ei wir o wiw ryfedd beilch
O genedlawg weilch oi gynnadledd
Cefais alaeth hir enwir anwedd
A galar dar doeth coeth cyfannedd
Ac udwaedd dan fron ac adwedd trifiyd
A bylchu fy mryd o farw balchedd
Cefas râs urddas eurddawn fuchedd
Cennyw ddewin nef cyn noi ddiwedd
Caffo gariad rhâd anrhydedd allu
Un rhagorawl fu yn nrhugaredd
Amen.

G. M. D. I WENHWYFAR O FON. MARWNAD.

O L. E. D.

Haul Wynedd neud bedd nid byw unbennes
Heb ynnill ei chyfryw
Henw gorhoffder a dderyw
Hoen lloer hun oer heno yw
Dygn ymyrraedd gwaedd bu gwael ymylchlawr
Tros mwyalchliw ddwyael
Dyn aur a fu'n dwyn urael
Deune haulwedd heil-fedd hael
Gwifgawdd llun cain main maendo
Gwafgrwym llawr ar ol gweifgra
Gwâr ddeuludd hoen gwawr ddwyre
Gwydn oedd ym hir fyw gwedy
Adeilwyd bedd gwedd gwiwder
F'enaid i'th gylch o fynor
Adeilawdd cof dy alar
I'm calon ddilon ddolur
Treigl i'r galon hon hoen geirw creignaint glwys
Gloes alar ofeiliaint
Tros orwyr deg traws Eraint
Trifiyd bryd brwyn mwy no maint
Gwaith blwng oedd echwng och Wenhwyfar deg
Dygn ynof dy alar
Glwyfaf corph dan bridd glafar
Gloes fawr llawr llann dwf gwann gwâr
Gwn feinwas a las o loes hiraeth mawr
Marw eur-ganwyll Bentraeth
Gwan yn ol gwenwyn alaeth
Gwawn wedd gwin a medd a'i maeth

Digitized by Google

Ni roed ymryd bryd bronllech
Oerllawr dygn eurlloer degwch
Ar ail cwyn ar ôl can-och
Erddrym deigr ar ddrem degach
Triſtyd a'm cyfyd cofion llef a deigr
Am degwch try chantref
Can aeth i wlad tad tanguef
A'm curiawdd ar nawdd iôr nef
Echwng gwehlloer oedd oer ddoe
Ymaengiſt fawrdriſt farwdrai
Aml gwedd yn ymylau gwae
Am ddyn doeth Ddindaethwy
Llawer dyn hydr elyn hoed
Lliw bas ewinblas wenblaid
Am fun dawel uchelwaed
O drais Duw a driſtawyd
Lle bu ra a gwyrdd lle bu rudd a glas
Neud gloes angau gyſtudd
Lle bu aur am ei deurudd
Lle bu borphor cor ai cudd
Gwiſgwyd haul gwindraul ger gwyndraeth Cyrchell
Mewn carchar glasfedd caeth
Gwae ef i gain nef gan aeth
Ai carawdd rhac dig hiraeth
Gwae fi lwyſgrair Mair mawr i'm cyffry deigr
Am eurdegwch Cymry
Myned mewn argel wely
Meinir dwf is mynor dy
Un a thri cyfyn uthr y cyfyd
Gwayw trwy'r alarfron hon ar ei hyd
Ymachludd hoen grudd hun gryd a'm dychryn
Am falchliw ewyn glaſddwfr rhyn rhyd
Och hir dir diffwys rhac pwys penyd
O'i dyfrys ferhoedl ai diofryd
Och aros un-nos ennyd ai maddau
Angau bun olau bu anwylyd
Och ffer ner nawradd neum lladd lledfryd
Galar Gwenhwyfar gwn gwyn hefyd
Achos goglais trais triſtyd o farwddydd
Fy Chwaer glaer glodrydd ni'm bydd bywyd
Pan aeth mau hiraeth herwydd trymfryd
I glaer gaer Gybi fro rhi rhoddglyd
Llun difreg priſdeg yn ôl pryd gwennwawr
Llawer llef a gawr uch llawr lleuryd
Llawer och ym och aml ddihewyd
Llawer deigr uch grann ger glann glaſryd
Llawer arraedd gwaedd nid gwyd ei chwynaw
A llafar wylaw llif oreilyd
Ni'm dawr o hoen gwawr yn hun gweryd
Is glaſgor mynor manon ei phryd
Cwyn yw can deryw ni'm deiryd gortho
Canlliw aur gwenfro can ni bo byd
Porthwyd fy nyn llwyd mewn llawr anglyd
Porth iddi fo Mair ddiwair ddiwyd
Poen dof pefr eurgof ergyd galar chwerw
Rhoi yn rhwym irdderw lliw berw baſryd
Pallawdd i'm ddiſgwyl am hwyl hyfryd
Pwyll nid mau oi dwyn gwyn gymhlegyd
Pall arael ydoedd cyn pell wryd gro
Dan ruddglo maendo meindwrf cerddglyd
Gwedi lloer Gymry lliw eiry gymryd
Bod bun yn hun hir gwir na'm gweryd
Rhyfel diargel a ergyd ym yw
Rhyfedd gan a'm clyw fy myw fy myd
Er dy goron ddrain gain gedernyd
Ath ddolur fab Mair uch crair creulyd
Erbyn gymmen wenn wynfyd enrhydedd
I'r wlodd a'r fuchedd ddiafiechyd
Neud afiechyd bryd a bryderir
Neud wyf achul hoen poen am perchir
Neud afar galar ni rygelir
Neud ofer hyder am hoedl drahir
Ni'm doeth llewenydd eithr dydd dyhir
Am fun deg ei llun lliw nif gorthir

Digitized by Google

Neud trwm farw rhiain gain a gwynir
Neud trom anrhaith faith fyth nas gwelir
Teg oedd cyn diwedd daearfedd dir
Y tal dan aur mal am ael meinir
Lluniaidd a gweddaidd gwiwddyn llawhir
Oedd hoen blaen gwelwgaen gweilging ſaphir
Diwair oedd a doeth deddf goeth gywir
Hael o fewn urael yn euraw gwir
Trefnawdd hon arnawdd cawdd nyw cuddir
Troi'r iyrchell ymhell a gymhwyllir
Trafynidr toſt gwingoſt gwengaer bapir
Trefnad oedd irad a ddidorir
Truan yw gweled trwydded trahir
Trefnadau angau angen ys dir
Lle bu cyn pallu pwyll a hoffir
Sirig a ſyndal mal y molir
Lle bu fflwch degwch deigr a wylir
A phorphor a rhudd neud grudd grodir
Rhyfedd yw o'm byw mewn byd enwir
Rhyfel dygn ar gam pam ym poenir
Ar ôl dirwyol ym dirwyir
A ddirfawr gerais gwenwyndrais gwir
Gwae ddig boenedig a benydir
Gwae angall fal dall a rydwyllir
Gwenhwyfar wylwar a elwir
I drugaredd Duw draw a gerir
A minnau hyd tra fwyf clwyf a'm clywir
Yn rhyfaddaw hon ni ryfeddir
Hithau hoen gwendon lon don am dir
Ei gloywdwf euraid a glodforir

Uchenaid fan
Gelain deir-ran
Galon dorri
Am wenhwyfar
Gwn drais galar
Gan draws guli

Am deg ei gwedd a haul wynedd a haelioni
Am ddiweirdeb am loerwyneb aml rieni
Bardd hardd hirddyſg eurglyd addyſg ar glod iddi
Bum i'w chanmawl fy nedwydd hawl fenaid oedd hi
Gwae ef ym myd o fewn penyd a fai'n poeni
Yn ôl bun deg hoen morwaneg henw mawr weini
Mygr win-defeirn miloedd a feirn mal ydd wyf fi
Oedd grudd gwrel cain a thawel cyn n'oi thewi
Oedd ddrem deccaf cannaid adaf cyn noi dodi
Ym mhell ddyfn fedd i dreiaw gwedd o dra gweiddi
Nid oedd bwyllfas i ddihunwas ddoe ei henwi
Nid oedd anwiw fath em eiliw fyth ei moli
Nid oedd ryfedd a chlud fawredd ei chlodfori
Och o'r gyfrangc gweled oerdrangc gwiliaw derdri
Och o'r golled am ail Luned em oleuni
Och o'r trymfryd a llwyr driſtyd fod llawr drofli
Gwnaethoſt ath was fawr alanas Fair oleuni
Gwiſgo riein is glaſwe fain ys gloeſwae fi
Gorchudd hoen blaen gorlliw gwelwgaen garllaw gweilgi
Gwaneg loywder gwynfrig aber gwenfro Gybi
Gwae a roddes ac ai colles bryd eiry celli
Arnai gariad o dro girad mau dra gewri
Mawr Dduw dwyfawl Mair ith eiriawl a'r merthyri

Digitized by Google

Er dy gyſtudd ath hir gythrudd ath ddur gethri
Arail bryd nyf aur eir-gleddyf ior arglwyddi

Dwg hon ith wlad ettonn oth rad wyt un a thri

TERFYN MARWNAD GWENHWYFAR.

GRUFFUDD AP MAREDUDD I FERCH.

O L. E. D.

MAU ddogn gur Arthur o orthir Prydain
I'r dyn prifdeg llawhir
Arwydd ei chlòd a eurir
Eiry hoen am ferch Arwy hir
Eiliaf o'm iaith gwaith gwenglod
I liw Geirw o loyw gariad
Oleune dyfr neu Luned
Elynes gwedd ail Enid
Rhoddais gariad gwad gwydn ym doeth hirglwyf
Ar ddyn hwyr glaer bwyll ddoeth
Olew boen alaw beunoeth
Ail fflur a dyf cur-dwf coeth
Cerais ddrem gwalch falch fanwyl
Myn faerym fant a Seirioel
Ynghaer deg Angharad ail
Liw eiry caen law eurawg hael
Rhyfeddawd ceudawd cadarn yw llifiant
I'm nwyfiant glwyfiant glyw
Gloywddrem riain arglwyddryw
Glud hud hun am fun ym fyw
O gariad eigr deg eirian
A chariad glwysferch Urien
Echwynawdd bardd ar harddlun
Uchenaid Uthr a Chynon
Hylithr nwyfiant i'w hawlwr
Haul y geilw hael ei gwyl war
O Bowys gyfoeth bowyr
A Gwynedd ni ogenir

Nid oes liw heddiw haeddaiſt gampau dyfr
Difai bwyll ddefodau
Cymryd a'r tawelbryd tau
Cymawd eigr came degau
Eigr eurfoes einioes anwyd diheurwydd
Dihareb a draethwyd
Na roddir ferch llawir lwyd
Gwlad i fud gloywdwf ydwyd
Megeiſt boen i'm hoen henw merch a'm dihun
Ieirll anhun eiry llannerch
Mau drennydd medru annerch
Madws oedd bum mud o ferch
Lliw geirw rhyd o bryd a wnaeth brâd i'm gne
Gnawd ferchawg ymlyniad
Lladd gŵr ydyw lleddf gariad
Lloer y glòd haul llawr ei gwlad
Ni chwſg drem hoen gem gyfwlch
Am wawr gain tŵr main manfylch
Ni chaf hun am fun em falch
Ni chair y fun oi chaer folch
Trawſdaer ferchawl fryd Tryſtan
Ar Efyllt-wedd a roefwn
Priawd olwg pryd Elen
Luddawg ferch loyw eiddun
Magawdd i'm hwyrnawdd hirnwyf dy gariad

Digitized by Google

Teg orhoen tonn am rwyf
Megaiſt ym boen hoen hunglwyf
Megais gwayw dan ais gwydn wyf
Hael ddidaer wenglaer haul winglawr Môn
Hoywliw manod Ionawr
Hun am lludd dewrnudd [1] dyrawr
Hoen ton ogledd wynedd wawr

TERFYN.

[1] *Neu*, dewruudd, *neu* deurudd.

G. M. D. I FERCH,

O L. E. D,

MOLAF gain riain o ryw arglwyddi
Arglwyddes ſy hoedl yw
Mawl hirglod mil ai herglyw
Mau hoen a nwyf tra fwyf fyw
Ith ſoli fraiſg waiſg wandwf
A thywyn haul ni thawaf
Tra ſo hoen ewyn llyn llif
Fy enaid yn fyw ynof
Ni wnaf cyd bwyf nwyf nawtal
Tewi a chlod dyn tawel
Ni maddau bryd na meddwl
Ganmawl gwawr wyth ugein mil
Molaf ferch falch ddoeth goeth gain
Tra fwynt i gyd traul bryd brwyn
Yr enaid uchenaid chwaen
I'r corph oer mewn cur a phoen
Aelaw anhun hun hir yw i'w gwanfardd
Aros gwenſun lawhir
O logawd ſerch ferch feinir
Ail eigr dwf o Loegr dir
Teg om pwyll ofeg im pall afael hun
Oedd wenſun hoywlun hael
A gerais dan frig urael
Ac aur mal uwch ei gwrmael
Gwelais a gerais yn rhagori pryd
O fewn priſdeg ſentri
A phall ſyndal a phali
A phwyll oedd ei hirdwyll hi
Gwelais ſymud ſud ſidan ac awmael
Ac urael ac arian
Ac aſur drwg a guſan
Ac aur mal am hoen geirw man
Gorhewg am dwg deg orfeddfa Gaw
Gywirferch ni phalla
Ail y cethin ni flina
Cyflym i'r llun grym llawn gra
Bryn Caw brwyn-hunaw brenhinaidd froydd
Ail rhuddfreon duthflaidd
Bryd aurwryd arwraidd
Bron dorf farch tref Llywarch traidd
Cyrcher bun wanllun wenllaw anrhydedd
Un rhediad carn aflaw
Bryſg wyl er hoen braiſg alaw
Brwyſg rwyſg rydain bryn cain Caw
Ceirch orddyſn archlyfn cyrch erchlas doſſawg
Deiſyf neidiaw fferlas
Car farwain carw main myngſras
Caer feinir glaer ſynor glas
Mau drymglwyf am Wenhwyſar
Morwyn loyw mirain leufer
Mawrair am erddrym oror
Mwrog ddyledog loywdir
Wyr Iarddur wr gwayw-ddur gwych

Digitized by Google

Am gwnaeth gaeth gwyn frwyn fron-
llech
Ac wyr Ithel uchel ach
Gam o Degaingl gem degwch

Yna canlyn yn y Ll. C. Awdl i Dduw—ir pedwar angelyſtor—i Dduw. Awdl gyffes G. M. D. neu Iolo Goch—a Dychanau G. M. D.

TERFYN.

ENGLYNION Y SUL.

GRUFFUDD AP MAREDUDD AI CANT.

O L. E. D.

Duw ſul eurllyw byw bywiaid arwyrain
Oriain[1] gain gannaid
Uthr wedd[2] anrhydedd i'n rhaid
Yth aned benrhaith enaid

Duw ſul rhad iaith fad ith fedyddiwyd
naf
Mawliaith ior mal ith eurwyd
Mab y wyry fair o air wyd
Nef a daear broffwyd

Deu ſul eur grair Mair mawredd y
doethion
Y daethoſt lyw Naſredd
Gwerthefin ddar trugaredd
Gwyrth fawr ior buddfawr o'r bedd

Diſalw ner duwſul i nef
Deg eiddun y dug Addaf
O drais gwyn o draws gynnif
O dramgwydd Uffern drymgof

Duw ſul un eiddun addef y creawdd
Creawdr rhad a thangnef
Ynglain[3] hydr ynglyn hoywdref
Ynglân[4] air engylion nef

Duw ſul deg anrheg unrhin o gariad
Y gorug nef ddewin
Dwywawl wawl waiſg fraiſg frenin
Difurn waith y dwfr yn win

Duw ſul arglwydd rhwydd rhoddiad dug
Voeſen
O deg feſur cariad
O leas[1] raid o lwys rediad
A'i lu o'r Aifft o'i lwyr rad

Daeth manna Alpha eilffawd rhen o nef
Yn rhaid nifer Moeſen
Duw ſul duw gwir gorawen
Saint braint bryniawdr llywiawdr llen

Or pumtorth hawddborth heiddbal
O'r[2] ddeubyſg ior oedd dibwl
Ryborthes meus deus duwſul
Rhadau heb ammau bummil

Duwſul goeth y doeth[3] daith wir adeilad
Gwedi dilyw dyhir
Fudd rhad gan gawad gywir
Fodd rheg falch noe deg i dir

1 O riain. Ll. P. P.
2 *Neu*, Uthrawedd.
3 Ynglann. Ll. P. P.
4 Ylân. Ll. P. P.

1 O laes. Ll. P. P.
2 Ar. Ll. P. P.
3 Goeth doeth. Ll. P. P.

Digitized by Google

Sar[1] nef a daear diagr briawd[2] ddawn
Dor eigiawn ffynawn ffawd
Dwys olwg ri tri trindawd
Duwsul y bydd brwydr ddyddbrawd

1 Dar. Ll. P. P.
2 Brawd. Ll. P. P.

GRUFFUDD AP MAREDUDD AP DAFYDD.

I'R GROG O GAER.

O L. E. D.

Carap benrhaith cor arianwaith carai rinwedd
Crair gair a gad y drwy gariad y drugaredd
Crog calfaria faerdy gratia fawrdeg ryfedd
Creded unben hael forwyn wen hawl firain wedd
Cred bendefig lys wyrennig lwys wawr annedd
Cannaid wyrthiau canon radau cain anrhydedd
Cadair ffair ffydd cedawl ufydd ced alafedd
Cyflawn ddawn ddar i rwym galar ar ymgeledd
Coelfain Elen eurai Foefen ar ei fyfedd
Celennig rad cadarn wenwlad cedyrn winwledd
Corf ardderchawg caer deg eurawg cor digaredd
Coron euraid cariad nwyaid ciried neuedd
Ceinllun teccaf brenin hynaf y brenhinedd
Coed berfeddnod cain ei fawrglod cun nef eurgledd
Cael ym grym grair rhad oi borthair rheidiau berthedd
Culwydd ener a dyng nifer oi dangnefedd
Colofn llu cred a ran wared or enwiredd
Coel engylion o lin fanon o lân fonedd
Dylan natur fawrdeg eglur fordwy gogledd
Delis arwain o ddwfr dwyrain i ddeifr diredd
Dyddug mordon ar ei ddwyfron arwy dyfredd
Dyfrdwy waedd greg arial gwaneg ar acl Gwynedd
Delw werthforaf a glodforaf a glud fawredd
Dadl yfprydawl or geiriau mawl i'r gwr an medd
Dor cor ceinmyg Duw yw'n rhyfyg dewin rheufedd
Dar eneidiau dilyd frodiau diledfrydedd
Dawn tlawd anoeth daear wiwgoeth diorwagedd
Dinam loywder diwair ener Duw'r wirionedd
Da yw ei borth a diamorth a diommedd
Delw fyw f'arglwydd eurlliw arwydd ior llaweredd
Dyfg ffyfg ffynniant a gwir foliant y gorfoledd
Deddf leddf loywddoeth euraid gyfoeth arod gyfedd

Digitized by Google

Doeth Gaerlleon deg anrhegion digynrygedd
Didrai foliant Duw da fawant dioferedd
Didrift Grift groes organ hoedl-loes eur gynhadledd
Delw firein ryw er prynu'r byw or pren ar bedd
Dug morwaneg deg o du gauaf
Llys llawr lleon gawr llun gwawr gwympaf
Difai Ion erfai arfaf ei ganmawl
Delw fyw fab dwyfawl Duw nefawl naf
Diwarth dryfor cor por perffeithiaf
Diwyd grair i Fair fawredd hoffaf
Dewin cain leffin cyn ifaf fedrawd
A Nudd ddiwyrnawd ei nawdd arnaf
Doeth dros frig tonniar car cadarnaf
Detholwalch balch byw llyw llawenaf
Dogn fedydd grefydd digrifaf dramwy
Drwy fordwy Dyfrdwy deifrdir eithaf
Dwywawl hawl haelwawr a fawr folaf
Defawd wawd wiwder ffer ffurfeiddiaf
Dofydd lun ei hun henw goruchaf nen
Fab Mair wen ar bren brenhineiddiaf
Didwyll bwyll bellwawd ffawd ffyddlonaf
Dadiain cain cynnydd dydd diwaethaf
Didawl faith ei daith doethaf bendefig
Wyrennig feddig fudd iach a chlaf
Doddyw nod eurglod Ior gwlad bellaf
Lloegr llwyr i'n gweryd fyd fodrydaf
Duw Iefu arglwydd dewifaf gynagr
Dihagr eirw llinagr ar llun gwympaf
I ddelw unmab Mair ydd addolaf
O ddilys araith gwaith gwerthforaf
I ddal ynof cof cyfiawnaf dremyn
I ddylyn tyddyn llwyth plant Addaf
Eryr engyldorf hoywlorf haelaf
Ior didwyll o nef euraid adaf
Arddelw Moefen hen hynaf ei gynnydd
Urddas llin Dafydd gwydd gweddeiddiaf

Anfones canlles caen llanw breifgaf
Anrheg Lloegr fawrdeg fordwy gloywaf
Anrhaith a gobaith gwbl ffrwythlonaf Ior
Ys briw dylan mor yfprydolaf
Enwi ei farddlef Ion nef a wnaf
Enwant llythr deccant llathrediccaf
Enwawg ardderchawg archaf ei nodded
Rhoddcd trwy giried tri a garaf
Awr arwydd mab Mair o air araf
Arwrawl cedawl cadair deccaf
Eryrod eurglod arglwydd pennaf yw
A llyw marw a byw rhyw rhadlonaf
Arwyrain croes Crift a oreuraf
Ar oror cor Caer glaer egluraf
Elen ai cafas alaf yfprydawl
Trydydd dydd deddfawl awr hawl or haf
Doeth delw fyw fy llyw llyryon prif obaith
Praff adeilad iaith proffwydolion
Dawn a phlaid gweiniaid uch gwynion foroedd
A ffriwdeg [1] lyfoedd ffrydau gleifion
Darogan dylan deil geirw gwelwon mor
I fyddinfawr gor fu ei ddanfon
Dug o gaeth alaeth faeth alon ofid
I bobl eu rhyddid beibl a rhoddion
Dehau rybudd mad diharebion mawl
A naf arwrawl nef eryron
Dor cor coeth cyfoeth dar cofion arllwybr
Gwawr yngoleu wybr gwir engylion
Gwerthfawr eurllorf torf tirion ei bleidiau
Da i eneiddau dianudon
Gwared a roddai gwirion goludawg
A gwawr dyledawg ir gwir dlodion
Cruplaid didwyllaid deillion cynhwynawl
Budd awr ammodawl byddair mudion
Clefyd anianawl cleifion difrawbwyll
Neu anfedydd bwyll o ynfydion
Gwyr berffeithiaw draw dragon gogoned
O euraw gwared i rai gwirion

[1] Phrifdeg. Ll. C.

Digitized by Google

Gwareddawg fynawg fanon brenhinbryd
Gwaifg urddas y byd ai gofgorddion
Gwynfyd oi febyd i feibion Addaf
Ai ddifai alaf i ddwyfolion
Gwymp arwyrain cain Canon berfeddnod
Ac awr araith glod y gorwyrion
Llyna anrheg dda ddeon ei gwyrthiau
O fyw allorau efyll aeron
O ryfawr goelfain ger afon Dyfrdwy
O lawen obrwy o lynn Ebron
O luchynt helynt holion dwyreinfor
Ac o lynn Tabor lan attebion
O awr geudawd ffrwyth o ergydion mad
I ddwyn addurn rhad i ddyniaddon
Llithraw'r waneg deg dogn arwyddion ffydd
Llywydd merwerydd llin mair wirion
Llathraid blaid enaid Ion y gogoniant
A deheu foliant diofalon
Llwybr berffeiddrwydd rhwydd rhoddion goludawg
Llydwawg gwareddawg llydw gweryddon
Llun llawnrad cariad ceyrydd côr dangnef
Ar fôr lluoedd nef o Gaerlleon
Dug mor cor cywir delw fyw llyw Llawhir
A nenn ni phlygir nawn na phlygain
I lys lwys farddlef i Leon wendref
Llun amerawdr nêf gan llanw mirain
Eryr pum weli traws hael tros heli
Eur fawredd geli ar fwrdd gwylain
Anrheg brifdeg brŷd i roi budd ir bŷd
I Fair y deiryd o fôr dwyrain
Credadun un yw creir Mair marw a byw
Croefdeg eurawg lyw Crift a garain
Ceidw rad yfgrythur cadarn bennadur
Creadur modur creawdr madiain
Cor iôr aurdrefnad cywraint wneuthuriad
Mawr uchel fab rad Mair ai choelfain
Cof gwaneg deg dift cofion diathrift
Cyfarawdd a Chrift mewn cyfwyrain

Llathr grôg o fanaig llythr arawd ffawd ffaig
Lluryg arian ddraig lliw'r goron ddrain
Llyw byw buddygawl llawhir yfprydawl
Llawen arwrawl lleir arwyrain
Llwyddiant nerth berth byd llw gwir hir hyfryd
Yn trofi iechyd rhac traws ochein
Lloer cor ior arab llwyr gyfarch parch pab
Llun ei oreu mab llawn aur a main
Doethineb Elen a'm gwnaeth gorawen
A hirwaith Moefen fu ei arwain
Dwywawl wawl wahawdd Dafydd a'i hurddawdd
Duw a'i goreurawdd deg arwyrain
Delw yfprydolaf dogn rad tad teccaf
Da wiail Addaf diwael oeddain
Dor cor por pefrlwys a doeth goeth gynnwys
O lys Baradwys i lwys Brydain
Rywnaeth faer glaer glod delw loyw hoyw hynod
Er didwyll orfod o ior dadiein
Rhadlawn ddawn a ddaeth ri tri trichyfoeth
I loywglaer gaer goeth o fro Loegr gain
Rhywogaeth cedrws rhwydd fwydd Sipreffws
O geingiau pinws ar ei gyngain
Rhinweddawl fawl fudd ni faeth gaeth gythrudd
Rhoed Duw oi deurudd rhad dadwyrain
Bonedd medd moliant bydd yfydd o fant
A naws gogoniant nis goganain
Balch ddelw elw eiliad a naf nef wenwlad
A ner oedd wirdad naw radd wardein
Braifg diwair grair grym braint y faint ni'm fym
Bid ei arddelw ym byd ai hurddain
Amen.

Doeth delw ner Aber wybr uchelfaer nef
Naf gwerthfawr mireinglaer

Digitized by Google

Dwfr dir cor eglur wir caer
Dyfrdwy or mordwy mawrdaer
Mor a ddyſg mab Enair a ddug
Mawredd daith gwaith gwynfydig
Olygawd grair loywged grôg
O Loegr dir oleugaer deg
Llyna gain goelfain fu gael yn Lloegr
Llawged grair ar Iſrael
Llanw ai dug oi deg afael
Llun Criſt ei hun Croes Duw hael
Llanw llwybr glud llwybr dud y dug
Llun llyw pumoes ar groes grog
Mawr chwedl llawen gan wenyg
Marchog bronn mordonn mawrdeg
Doeth delw wenn ar brenn breiniawl nef ac wybr
Yn ei gwbl ddioddef
Ni ddoeth rheg o deg dangnef
Duw byw gaer ei debyg ef
Doeth croes o wial Moeſen
A delw ar frig mor dylan
Ner o Dduw nawradd ddewin
Naf ger llaw nef Gaerlleon
Creawdr llun eiddun Addaf lyw o nef
Ni wyl neb ei gyfryw
Crair Caer mawrglaer am erglyw
Croes deg dan eurddelw Criſt yw
Teg fu dro to tonn welwgaen
A thu i fro gaer ith ddwyn
Torr grair gwerthfawr fy mawrboen
Terra Calfaria firain
Lles hynod llin clod llun claer llyw nefawl
Llawn afael llwybrwaith ſaer
Llethr Dyfrdwy mordwy mawrdaer
Llithrawdd mor llathrgrair cor Caer

Yma canlyn yn Llyfr Mr. Walter, i Fair i Dduw, ac ir tri doethion. Cerddi o waith yr un G. M. D.

AWDYL.

O L. P. P.

Kyn bóyf góas grudlas gredyf anvon bóllvraó
O bellvro Gaerllion
Daón obeith kyvyeith covyon
Dyn góyl yó vanóyl o Vôn
Góae bieu madeu medu govyon dogyngud
Meu dygyngaód ovalon
Góangein [1] riein rud ffion
Góedus hael Véinus haul von
Tec dygaf ar hat ar hoeó vanon dóf
Y dyvu ym govyon
Taól haól hylóyth ovalon
Teith hydor meith hoeódir mon
Gweleis pan gerdeis gordófyr avon rin
Góyl riein dianvon
Gwir diſeml a gwar diſon
Góaór hirdyd maór harded mon
Ryd hydneit ym reit by ron vy nigyaó
Car hóylyaó cur hoelyon
Ran oval lann rin avon
Róyl y mae meinwyl a mon
Mygyróenyc a blyc am oblygyon mein
Meu ymaen vynkovyon
Myrd yn wyrd o Iwerdon
Mor a'u gólych mewn [1] amgylch mon
Gwiw a óeith góaótieith góyt vanon riein
Y rieu a doethyon
Gwir voli góyr ovalon
Góar drem walch góaór vóynwalch von

[1] *Neu,* góengein.

[1] *Neu,* maur.

Digitized by Google

AWDYL I AWD.

Ò L. P. P.

Synhuyrus Deus Duw goruchaf
Sywedyd Dofyd divei haelnaf
Sef ỏyf yt vy rỏyf rỏyd araf geinyat
Sef ỏyt ucheldat mat modrydaf
Synhỏyrya da donyeneu attaf
Sỏyd ditlaỏt o waỏt a weinydaf
Syrchaỏd glyỏ vy llyỏ rỏng Taf a Thawy
Serchir yach Konỏy val y kanaf
Saethvarch kein dravnidyr dinydyr danaf
Seri eglurvryn kyn kynhayaf
Syỏ dymmaỏr rỏyvaỏr yr haf arbennic
Torredic eidic elwic alaf
Am verch Ruffudd ud addyfc Mordaf
Fab Iorỏerth kannerth kynnỏrf gorfaf
Neut adỏyf o glỏyf yn glaf huyr dianc
Neut adoet gyvranc or tranc trymmaf
Poen ryaỏt devaỏt ot adevaf
Pan vu berigyl wann am gann gynaf
Peunyd pỏyll berthyd pell borthaf yt hon
Penyt bronn dilonn delw y nychaf 3
Hybarch dyno vro vreint talheithnaf
Hyboen yỏ vy hoen ny hunaf o bleit
Hebogeid lygeid eureid araf
Heb vy chwaer wenglaer mor ỏyf wanglaf
Hebu gre nyt lle nyt llỏrỏ arnaf
Hybỏyll glot didỏyll dodaf ar efyt
Heb wyt y loer bryt a lỏyr brytaf
Hir y keinmygir kerd wir waeffaf
Herỏyd daỏn digaỏn val y dygaf
Hwyrdaỏ oe heilyaỏ hwylaf ar veidvyrd
Y vyrd dros geinwyrd a drawfganaf
Hoen eglurvan kann kyn eiry gaeaf
Hi a wnaeth keli ac nyỏ kelaf
Hylwyd waỏt devaỏt yn diveiaf bun
Hoyỏlun hael eidun o lun adaf
Wythgant annerch dàỏnferch dyn
Uthyr vrys vro Henrys vrenhin
A aeth dros ved ỏed ỏahan
A Thawy ar lywy lun
Llywyaỏd llỏyd rangaỏd llud rin
Llathyrvun geingann vann valchlun
Troffof cof pob cyvryỏ dyn eithyr aut
Aeth am gwaỏt am gwẽn
Pereis ffyfc glutdyfc glotdull
Perigyl hun yr bun o bell
Peris gỏen yghyvyrgoll
Paraỏt y aỏt geinwaỏt gall
Ot ergyt bryt bratvoll
Y bob riein vein vyndull
Ran aỏt om gwaỏt a vyd gall
Ne ryn eirỏ no ran aràll
Ym dyd ef a vyd oveddaỏt trafferch
Treific yỏ vy nivraỏt
Ym dic katwetic keudaỏt
A mi kyvoedi kof aỏt
Ry hỏyr ym llỏyr kael llỏrỏ ffaỏt om ferch
Os archaf yn briaỏt
Ryaỏd y bum eil ryaỏt
Ry hir ym oedir am aỏt
Ys breinvaỏr liw gỏaỏr ale gỏaỏt hirdric
A hỏyr dry om keudaỏt
Ys breid ym vyỏ glyỏ glỏyvnaỏt
Ys braỏ pell adaỏ pall aỏt
Llyna Lys nyt a diwyrnaỏt om bryt
Am bryder vyn divraỏt
Lle lloer wiwne llỏyr waeỏnaỏt
Llifgỏyn llas adỏyn llys aỏt
Kigleu kynn divieu devaỏt gyntevin
Kant avar vyvyrdaỏt
Kyrd etneint glỏyfneint glafnaỏt
Kerdgar kat adar koet aỏt

[1] *Ban ar gull yma.*—Iolo Mor.

Digitized by Google

